Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Arolwg Etholaethau Seneddol 2023

# Arolwg 2023 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru

Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

**COMISIWN FFINIAU I GYMRU**
**AROLWG 2023 O ETHOLAETHAU SENEDDOL YNG NGHYMRU**

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Adran 3 Deddf Etholaethau Seneddol 1986, fel y'i diwygiwyd

OGL
© Hawlfraint y Goron 2023

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored, fersi-wn 3.0, ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylai unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn gael eu hanfon atom yn y cyfeiriad

canlynol: Comisiwn Ffiniau i Gymru

Tŷ Hastings

Caerdydd

CF24 0BL

Rhif ffôn: +44 (0) 2920 464 819

Rhif ffacs: +44 (0) 2920 464 823

Gwefan: www.comffin-cymru.gov.uk

E-bost: cffg@ffiniau.cymru

ISBN 978-1-5286-3902-6

E02859434 06/23

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Rhagair

Ar 8 Medi 2021, cyhoeddodd y Comisiwn Ffiniau i Gymru ei gynigion cychwynnol ar gyfer etholaethau Seneddol yng Nghymru. Yna, dechreuodd broses ymgynghori ynglŷn â'r cynigion hynny. Cafodd y Comisiwn 1,367 o gynrychiolaethau ysgrifenedig ac 81 o gynrychiolaethau llafar ynglŷn â'r cynigion cychwynnol. Cynhaliwyd gwrandawiadau cyhoeddus ledled Cymru i alluogi aelodau'r cyhoedd i fynegi eu barn am y cynigion cychwynnol ac awgrymu sut gellid eu diwygio a'u gwella. Mae'r Comisiwn yn ddiolchgar iawn i bawb a roddodd o'u hamser i gyfrannu. O ganlyniad, cyhoeddodd y Comisiwn ei gynigion diwygiedig ar 19 Hydref 2022. Cynigiodd newidiadau, a oedd yn sylweddol yn aml, i 22 o'r 32 o etholaethau arfaethedig. Cynigiodd enwau gwahanol ar gyfer 9 o'r etholaethau hefyd. Gwahoddwyd aelodau'r cyhoedd, grwpiau a sefydliadau i gyflwyno ymatebion ysgrifenedig i'r cynigion diwygiedig yn ystod y trydydd cyfnod ymgynghori a gynhaliwyd o 19 Hydref 2022 tan 15 Tachwedd 2022. Edrychodd y Comisiwn yn ofalus ar y 623 o gynrychiolaethau a gafodd yn ystod y trydydd cyfnod ymgynghori i weld a allai'r cynigion diwygiedig gael eu diwygio a'u gwella. Fodd bynnag, bu'n rhaid i'r Comisiwn gydbwyso'r materion a godwyd mewn cynrychiolaethau yn erbyn yr holl ffactorau eraill y mae'n rhaid iddo eu hystyried, yn ogystal â'r cyfyngiadau a amlinellir yn y ddeddfwriaeth.

Fel yr esboniwyd yn yr adroddiad cychwynnol, roedd rhaid i'r arolwg o etholaethau gael ei gynnal yn unol â darpariaethau'r statud perthnasol, sef Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r Ddeddf yn pennu nifer y seddau yn Nhŷ'r Cyffredin, sef 650. Mae'r cyfrifiad ar gyfer dyrannu seddau rhwng gwledydd y Deyrnas Unedig wedi'i seilio ar gyfran yr etholwyr ym mhob gwlad sydd wedi'u cofrestru yn y Deyrnas Unedig, sy'n rhoi ffigur y cyfeirir ato fel y 'cwota

etholiadol’. Mae’n rhaid i nifer yr etholwyr ym mhob etholaeth yn y Deyrnas Unedig fod o fewn 5% o’r ffigur hwnnw. Mae’r cyfrifiad hwn yn arwain at leihau nifer yr etholaethau Seneddol yng Nghymru – o’r 40 o etholaethau presennol i 32. Dyma’r newid mwyaf arwyddocaol i etholaethau Cymru ers canrif.

Bydd argymhellion y Comisiwn yn cael eu gweithredu gan y rheol ‘awtomatigrwydd’. Mae hyn yn golygu nad oes angen i’r argymhellion gael cymeradwyaeth Seneddol mwyach. Mae’n rhaid i’r argymhellion terfynol gael eu gweithredu fel yr amlinellir yn adroddiad terfynol y Comisiwn. Mae’r Ddeddf yn darparu ar gyfer 5 etholaeth warchodedig ledled y Deyrnas Unedig. Yr unig etholaeth yng Nghymru nad yw’n ddarostyngedig i weithredu cwota etholiadol y Deyrnas Unedig (UKEQ), ac sydd felly wedi’i gwarchod neu wedi’i heithrio o’r arolwg, yw Ynys Môn.

Wrth ddatblygu ei argymhellion, mae’r Comisiwn wedi rhoi sylw i’r ffactorau statudol y caiff eu hystyried. Lle y bo’n bosibl, mae’r Comisiwn wedi rhoi sylw i ffiniau Seneddol a llywodraeth leol presennol; mae wedi ceisio osgoi torri cysylltiadau lleol neu leihau hynny i’r eithaf, ac mae’r Comisiwn wedi rhoi sylw i ystyriaethau daearyddol arbennig weithiau.

Yn olaf, yn bersonol, hoffwn ddiolch i’r Comisiynwyr – Mr Huw Vaughan Thomas CBE a Mr Sam A Hartley – am eu cyfraniadau amhrisiadwy, y Comisiynwyr Cynorthwyol, ac Ysgrifennydd a swyddogion eraill y Comisiwn am ein cynorthwyo â’n gwaith. Hoffwn ddiolch hefyd i’n haseswyr statudol yn yr Arolwg Ordnans a’r Swyddfa Ystadegau Gwladol am eu cymorth a’u cyfraniadau.

Mrs Ustus Jefford DBE

Dirprwy Gadeirydd

Y Comisiwn Ffiniau i Gymru

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Pennod 1** | Cyflwyniad | 8 |
| **Pennod 2** | Gofynion a pholisi ar gyfer arolygu etholaethau Seneddol | 10 |
| | Cymhwyso darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd) | 10 |
| | Y cylch arolygu | 10 |
| | Data etholwyr ar gyfer arolwg 2023 | 10 |
| | Dosbarthiad etholaethau | 10 |
| | Amrediad etholwyr statudol | 11 |
| | Ffiniau llywodraeth leol perthnasol | 11 |
| | Ffactorau statudol eraill | 11 |
| | Cydadwaith yr ystyriaethau | 13 |
| | Ffactorau nad yw'r Comisiwn wedi'u hystyried | 14 |
| | Enwi a dynodi etholaethau | 14 |
| **Pennod 3** | Datblygu etholaethau | 16 |
| | Nifer yr etholwyr | 16 |
| | Maint etholaethau | 16 |
| | Patrwm etholaethau | 16 |
| | Cynigion cychwynnol | 16 |
| | Adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol | 17 |
| | Cynigion diwygiedig | 18 |
| | Argymhellion | 19 |
| **Pennod 4** | Crynodeb o'r Argymhellion | 20 |
| **Pennod 5** | Yr Argymhellion Terfynol yn fanwl | 23 |
| | Aberafan Maesteg | 30 |
| | Alyn and Deeside (Alun a Glannau Dyfrdwy) | 38 |
| | Bangor Aberconwy | 45 |
| | Blaenau Gwent and Rhymney (Blaenau Gwent a Rhymni) | 53 |
| | Brecon, Radnor and Cwm Tawe (Aberhonddu, Maesyfed a Chwm-tawe) | 60 |
| | Bridgend (Pen-y-bont) | 68 |
| | Caerfyrddin (Carmarthen) | 75 |
| | Caerphilly (Caerffili) | 82 |
| | Cardiff East (Dwyrain Caerdydd) | 89 |
| | Cardiff North (Gogledd Caerdydd) | 95 |
| | Cardiff South and Penarth (De Caerdydd a Phenarth) | 102 |
| | Cardiff West (Gorllewin Caerdydd) | 110 |
| | Ceredigion Preseli | 116 |
| | Clwyd East (Dwyrain Clwyd) | 124 |
| | Clwyd North (Gogledd Clwyd) | 133 |
| | Dwyfor Meirionnydd | 140 |
| | Gower (Gŵyr) | 148 |
| | Llanelli | 155 |
| | Merthyr Tydfil and Aberdare (Merthyr Tudful ac Aberdâr) | 161 |
| | Mid and South Pembrokeshire (Canol a De Sir Benfro) | 168 |

| | | |
|---|---|---|
| | Monmouthshire (Sir Fynwy) | 176 |
| | Montgomeryshire and Glyndwr (Maldwyn a Glyndŵr) | 182 |
| | Neath and Swansea East (Castell-nedd a Dwyrain Abertawe) | 190 |
| | Newport East (Dwyrain Casnewydd) | 198 |
| | Newport West and Islwyn (Gorllewin Casnewydd ac Islwyn) | 203 |
| | Pontypridd | 210 |
| | Rhondda and Ogmore (Rhondda ac Ogwr) | 217 |
| | Swansea West (Gorllewin Abertawe) | 223 |
| | Torfaen | 231 |
| | Vale of Glamorgan (Bro Morgannwg) | 237 |
| | Wrexham (Wrecsam) | 242 |
| | Ynys Môn | 249 |
| **Atodiad 1** | Etholaethau Argymelledig | 251 |
| **Atodiad 2** | Mynegai Etholaethau Presennol | 253 |

Pennod 1:

# Cyflwyniad

1. Ar 5 Ionawr 2021, cyhoeddodd y Comisiwn ddechrau arolwg 2023 o etholaethau Seneddol yng Nghymru, yn unol â darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd). Mae crynodeb o'r fframwaith statudol perthnasol ac ymagwedd gyffredinol y Comisiwn at yr arolwg ar gael yn nogfen 'Canllaw i Arolwg 2023' y Comisiwn, sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar wefan y Comisiwn: https://comffin-cymru.gov.uk.

2. Cyhoeddodd y Comisiwn ei gynigion cychwynnol ar 8 Medi 2021. Fe'u lluniwyd ar sail y meini prawf statudol. Fodd bynnag, pwysleisiwyd mai cynigion dros dro oeddynt. Roedd lansio'r cynigion cychwynnol yn cynrychioli dechrau ymgynghoriad 8 wythnos pryd y gwahoddwyd y cyhoedd i gyflwyno eu cynrychiolaethau yn ysgrifenedig.

3. Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd y Comisiwn yr holl ymatebion a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori 8 wythnos cychwynnol hwn. Yna, roedd cyfnod 6 wythnos statudol arall ar gael i unigolion a sefydliadau wneud sylwadau ar y cynrychiolaethau a gyflwynwyd gan bobl eraill yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol. Yn ystod yr ail ymgynghoriad, gwahoddwyd y cyhoedd i gyflwyno eu cynrychiolaethau'n ysgrifenedig neu fynychu un o 5 gwrandawiad cyhoeddus ledled Cymru a gynhaliwyd gan dîm o Gomisiynwyr Cynorthwyol. Roedd y Comisiwn o'r farn bod y cyfle i wneud cynrychiolaethau iddo yn bwysig iawn. Adolygodd y Comisiynwyr Cynorthwyol yr holl gynrychiolaethau a gafodd y Comisiwn yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol a'r ail gyfnod ymgynghori, gan lunio adroddiad ar gyfer y Comisiwn. Ar ôl yr ail gyfnod ymgynghori, lluniodd y Comisiwn ei gynigion diwygiedig. Rhoddodd y cynigion diwygiedig ystyriaeth ofalus i'r holl gynrychiolaethau a wnaed i'r Comisiwn yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol a'r ail gyfnod ymgynghori, yn ogystal ag

adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol.

4. Cyhoeddodd y Comisiwn ei gynigion diwygiedig ar 19 Hydref 2022. Roedd lansio'r cynigion diwygiedig yn cynrychioli dechrau ymgynghoriad 4 wythnos pryd y gwahoddwyd y cyhoedd i gyflwyno eu cynrychiolaethau ynglŷn â'r cynigion diwygiedig yn ysgrifenedig. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 15 Tachwedd 2022.

5. Mae'r Comisiwn bellach yn cyflwyno'r adroddiad hwn i Lefarydd Tŷ'r Cyffredin sy'n dangos yr etholaethau y mae'r Comisiwn yn argymell y dylai Cymru gael ei rhannu iddynt er mwyn gweithredu'r rheolau a amlinellir yn Atodlen 2 y Ddeddf. Mae'r argymhellion hyn yn rhoi sylw gofalus i'r holl gynrychiolaethau a wnaed i'r Comisiwn yn ystod y 3 chyfnod ymgynghori.

6. Ar ôl i'r Llefarydd dderbyn adroddiad terfynol y Comisiwn, mae'n rhaid i'r adroddiad gael ei gyflwyno gerbron y Senedd. Pan fydd adroddiadau gan y 4 Comisiwn Ffiniau yn y Deyrnas Unedig wedi cael eu cyflwyno gerbron y Senedd, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gyflwyno drafft o Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor i'w Fawrhydi yn y Cyfrin Gyngor ar gyfer gweithredu'r argymhellion yn yr adroddiadau.

7. Wrth baratoi'r drafft hwnnw, ni chaiff y llywodraeth addasu argymhellion unrhyw un o Gomisiynau Ffiniau'r Deyrnas Unedig oni bai y gofynnwyd iddi wneud hynny'n benodol (yn ysgrifenedig gan roi rhesymau) gan Gomisiwn Ffiniau perthnasol y Deyrnas Unedig.

8. Ar ôl i'r Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor gael ei wneud, mae'r Comisiwn yn disgwyl y bydd etholaethau newydd yn dod i rym ar adeg yr etholiad cyffredinol nesaf. Mae'n rhaid i unrhyw is-etholiadau a gynhelir yn y cyfamser gael eu cynnal ar sail yr etholaethau presennol.

Pennod 2:

# Gofynion a pholisi ar gyfer arolygu etholaethau Seneddol

## Cymhwyso darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd)

1. Mae'r gofynion a'r polisïau a ddisgrifir yn y bennod hon yn berthnasol i arolwg y Comisiwn o etholaethau Seneddol.

## Y cylch arolygu

2. Mae Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd) ('y Ddeddf') yn datgan bod rhaid i'r Comisiwn gyflwyno adroddiad sy'n deillio o arolwg o'r holl etholaethau yng Nghymru erbyn 1 Gorffennaf 2023, adroddiad arall erbyn 1 Hydref 2031, ac adroddiad bob 8 mlynedd wedi hynny.

## Data etholwyr ar gyfer arolwg 2023

3. Mae'r Ddeddf yn pennu pa ffigurau etholwyr y mae'n rhaid i'r Comisiwn eu defnyddio wrth gynnal arolwg. Ar gyfer arolwg 2023, roedd yn ofynnol i'r Comisiwn ddefnyddio cyfanswm nifer yr unigolion yr oedd eu henwau'n ymddangos ar y gofrestr etholiadol gyhoeddedig ar 2 Mawrth 2020.
4. Cafodd y Comisiwn y ffigurau etholwyr hyn ar gyfer arolwg 2023 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cyhoeddodd y Comisiwn y ffigurau hyn ar ei wefan ar ddechrau arolwg 2023: https://comffin-cymru.gov.uk/adolygiadau/01-21/arolwg-2023.

## Dosbarthiad etholaethau

5. Mae'r Ddeddf yn pennu nifer sefydlog o 650 o etholaethau ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu fformiwla fathemategol i bennu faint o etholaethau y dylid eu dyrannu i 4 rhan y Deyrnas Unedig (Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon), yn seiliedig ar eu ffigurau etholwyr.
6. Yn unol â'r fformiwla honno, dyrennir 32 o etholaethau i Gymru o dan y Ddeddf. Felly, mae'r Comisiwn

wedi gwneud argymhellion a luniwyd i leihau nifer yr etholaethau Seneddol yng Nghymru o'r 40 presennol. Mae'n rhaid i etholaethau Cymru fod yn gyfan gwbl o fewn Cymru ac ni allant gynnwys ardaloedd o ran arall o'r Deyrnas Unedig.

## Amrediad etholwyr statudol

7. Mae Atodlen 2 y Ddeddf yn amlinellu nifer o reolau sy'n berthnasol i ddatblygu argymhellion ar gyfer etholaethau unigol. Y pennaf o'r rhain yw Rheol 2, sy'n darparu – heblaw am 5 eithriad penodedig yn y Deyrnas Unedig – bod rhaid i bob etholaeth fod â nifer etholwyr nad yw'n llai na 95% ac nad yw'n fwy na 105% o Gwota Etholiadol y Deyrnas Unedig. Cwota etholiadol y Deyrnas Unedig ar gyfer arolwg 2023, i'r rhif cyfan agosaf, yw 73,393. Yr unig etholaeth yng Nghymru nad yw'n ddarostyngedig i weithrediad Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig yw Ynys Môn.
8. Felly, heblaw am Ynys Môn, mae'n rhaid i bob etholaeth yng Nghymru fod â nifer etholwyr nad yw'n llai na 69,724 ac nad yw'n fwy na 77,062. Mae'r Comisiwn wedi cyfeirio at y paramedrau hyn fel yr 'amrediad etholwyr statudol'.

## Ffiniau llywodraeth leol perthnasol

9. Mae'r Ddeddf yn datgan y caiff y Comisiwn ystyried ffiniau llywodraeth leol wrth ddatblygu ei argymhellion ar gyfer etholaethau Seneddol. Mae'r Ddeddf yn diffinio ffiniau llywodraeth leol yng Nghymru fel ffiniau siroedd, bwrdeistrefi sirol, wardiau etholiadol, cymunedau a wardiau cymunedol a oedd yn bodoli neu'n "arfaethedig" ar "ddyddiad yr arolwg".
10. Ar gyfer Arolwg 2023, mae hyn yn golygu mai'r ffiniau llywodraeth leol y cyfeirir atynt yw'r rhai hynny a oedd mewn grym ar 1 Rhagfyr 2020 (gan nad oedd unrhyw ffiniau arfaethedig yng Nghymru ar y dyddiad hwnnw). Mae'r ffiniau llywodraeth leol hyn i'w gweld yng nghynnyrch mapio 'Boundary-Line' yr Arolwg Ordnans (fersiwn Hydref 2020 ar gael yn: http://www.ordnancesurvey.co.uk/business-government/products/boundaryline).

## Ffactorau statudol eraill

11. Mae Rheol 5 yn Atodlen 2 y Ddeddf yn pennu nifer o ffactorau eraill y caiff y Comisiwn eu hystyried

wrth iddo ddatblygu argymhellion ar gyfer etholaethau Seneddol. Yn benodol, caiff y Comisiwn ystyried:

- ystyriaethau daearyddol arbennig – gan gynnwys, yn benodol, maint, siâp a hygyrchedd etholaeth
- ffiniau llywodraeth leol a oedd yn bodoli neu'n arfaethedig ar 1 Rhagfyr 2020
- ffiniau etholaethau presennol
- unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau
- yr anghyfleustra sy'n gysylltiedig â newidiadau o'r fath

## Ystyriaethau daearyddol arbennig

12. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr ystyriaethau daearyddol arbennig a allai effeithio ar ffiniau etholaethau yn ymwneud yn bennaf â daearyddiaeth ffisegol – fel mynyddoedd, bryniau, llynnoedd, afonydd, aberoedd ac ynysoedd – yn hytrach na daearyddiaeth ddynol neu gymdeithasol. Mae materion diwylliant, hanes, economeg gymdeithasol ac agweddau eraill posibl ar ddaearyddiaeth anffisegol yn fwy tebygol o godi fel materion wrth ystyried y ffactor ar wahân yn ymwneud â chysylltiadau lleol.

## Ffiniau llywodraeth leol a chysylltiadau lleol

13. Caiff y Comisiwn ystyried ffiniau llywodraeth leol wrth ddatblygu ei argymhellion ar gyfer etholaethau Seneddol. Mae'r rhain yn cynnwys ffiniau allanol prif gynghorau, a'u ffiniau wardiau etholiadol, cymunedau neu wardiau cymunedol mewnol.
14. Mae'r Comisiwn wedi ceisio ystyried ffiniau allanol prif gynghorau cyn belled ag y bo'n bosibl. Fodd bynnag, bu angen croesi'r ffiniau hyn yn aml i ffurfio etholaethau sy'n cydymffurfio â'r amrediad etholwyr statudol.
15. Mae'r Comisiwn wedi defnyddio wardiau etholiadol fel sylfeini ar gyfer cynllunio etholaethau.
16. Mae'r Comisiwn wedi ceisio osgoi rhannu wardiau etholiadol rhwng etholaethau. Mae wardiau etholiadol yn unedau sydd wedi'u diffinio'n dda ac a ddeëllir yn dda, ac yn gyffredinol maen nhw'n dynodi ardaloedd sydd â chymuned fuddiant eang.
17. Mae'r Comisiwn o'r farn bod ffiniau cymunedol presennol yn debygol o fod wedi cael eu creu i

gydnabod cysylltiadau lleol, a'u bod felly'n debygol o adlewyrchu cysylltiadau lleol. Felly, polisi'r Comisiwn yw peidio â rhannu cymunedau presennol pan fydd yn datblygu argymhellion ar gyfer etholaethau Seneddol, oni bai nad oes datrysiad arall ar gael a fyddai'n caniatáu ar gyfer cydymffurfio â'r amrediad etholwyr statudol.

### Ffiniau etholaethau presennol

18. Mae'r Comisiwn wedi ceisio parchu etholaethau presennol, lle y bo'n bosibl. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod etholaeth bresennol wedi cael ei diogelu rhag newid dim ond oherwydd bod ei nifer etholwyr o fewn yr amrediad etholwyr statudol. Nid yw ychwaith yn golygu y bydd etholaeth sydd ychydig bach yn unig y tu allan i'r amrediad statudol yn cael ei diwygio ychydig bach yn unig i ddod o fewn yr amrediad statudol. Un o effeithiau lleihau nifer gyffredinol yr etholaethau yng Nghymru yw y bu angen newid etholaethau presennol sydd â nifer etholwyr o fewn yr amrediad statudol er mwyn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf ledled Cymru.

### Yr anghyfleustra sy'n gysylltiedig â newidiadau o'r fath

19. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y gallai newidiadau arwain at anghyfleustra. Er enghraifft, fe allent effeithio ar ba mor rhwydd ydyw i bobl bleidleisio wyneb yn wyneb. Mae'r Comisiwn wedi ceisio lliniaru materion o'r fath trwy gynnal wardiau presennol a chydnabod cysylltiadau lleol.

## Cydadwaith yr ystyriaethau

20. Polisi'r Comisiwn fu ystyried yr holl ffactorau a restrir yn Rheol 5 cyn belled ag y bo modd, yn amodol ar ystyriaeth bennaf yr amrediad etholwyr statudol o dan Reol 2.
21. Mae'n rhaid i etholaethau yng Nghymru (heblaw am Ynys Môn) gydymffurfio â'r amrediad etholwyr statudol. Fodd bynnag, nid yw'r Ddeddf yn mynnu bod y Comisiwn yn ceisio creu etholaethau â nifer etholwyr sydd mor agor â phosibl i Gwota Etholiadol y Deyrnas Unedig. Nid oedd y Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol dilyn amcan polisi o wyro cyn lleied â phosibl oddi wrth Gwota Etholiadol y Deyrnas Unedig. Byddai hyn wedi tanseilio gallu'r Comisiwn i roi ystyriaeth briodol i'r ffactorau a restrir yn Rheol 5.
22. Cyn belled ag y bo modd, mae'r Comisiwn wedi ceisio argymell etholaethau:

- wedi'u ffurfio o wardiau etholiadol cyfan sy'n agos i'w gilydd
- nad ydynt yn cynnwys rhannau datgysylltiedig; hynny yw, lle y byddai'r unig gysylltiad ffisegol rhwng un rhan o'r etholaeth a'r gweddill ohoni yn golygu y byddai'n rhaid teithio trwy etholaeth wahanol.

## Ffactorau nad yw'r Comisiwn wedi'u hystyried

### Yr effaith ar ganlyniadau etholiadau yn y dyfodol

23. Mae'r Comisiwn yn gorff annibynnol a diduedd. Fel y cyfryw, nid yw patrymau pleidleisio presennol na ffawd ymgeiswyr gwleidyddol yn y dyfodol yn rhan o'i ystyriaethau yn ystod arolwg.

### Ffiniau llywodraeth leol newydd

24. Y ffiniau llywodraeth leol y caiff y Comisiwn eu hystyried yw'r rhai hynny a fodolai yng Nghymru ar 1 Rhagfyr 2020 (gan nad oedd unrhyw ffiniau "arfaethedig" yng Nghymru ar y dyddiad hwnnw). Nid yw'r Comisiwn wedi ystyried ffiniau llywodraeth leol newydd nad oeddent yn bodoli, ac na ddarparwyd ar eu cyfer gan ddeddfwriaeth, ar y dyddiad hwnnw.
25. Mae'r Comisiwn yn ymwybodol o'r argymhelliad yn yr adroddiad ar ddiwygio'r Senedd a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Diben Arbennig y Senedd fod y 32 o etholaethau Seneddol terfynol y Deyrnas Unedig a gynigir gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn cael eu paru i greu 16 etholaeth aml-aelod newydd ar gyfer etholiadau 2026 ar gyfer y Senedd. Nid yw'r Comisiwn yn gallu cynnwys hyn yn ei ystyriaethau, ac nid yw wedi gwneud hynny.

### Newidiadau i niferoedd etholwyr ar ôl 2 Mawrth 2020

26. Bu'n ofynnol i'r Comisiwn weithio ar sail nifer yr etholwyr ar y gofrestr etholiadol ar 2 Mawrth 2020. Nid yw wedi gallu ystyried unrhyw achosion o dangofrestru neu orgofrestru etholwyr y gellid honni ei fod yn bodoli mewn ardaloedd penodol ar y dyddiad hwnnw.

## Enwi a dynodi etholaethau

27. Wrth wneud ei argymhellion, mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn bennu enw a dynodiad ar gyfer pob etholaeth arfaethedig. Nid yw'r Ddeddf yn cynnwys llawer o arweiniad ar y pwyntiau hyn.

## Enwi

28. Polisi’r Comisiwn ar enwi etholaethau yw, os nad yw etholaethau wedi’u newid i raddau helaeth, dylid cadw enw presennol yr etholaeth, fel arfer. Yn yr achosion hyn, mae enwau etholaethau’n debygol o gael eu newid dim ond pan fydd rheswm da dros wneud hynny.
29. Ar gyfer etholaeth newydd, dylai’r enw fel arfer adlewyrchu enw’r prif gyngor (neu’r prif gynghorau) sy’n gyfan gwbl neu’n bennaf yn yr etholaeth. Fodd bynnag, croesawodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn cynnig awgrymiadau amgen i’r enwau a gynigiwyd.
30. Mae’r Comisiwn wedi defnyddio enwau pwyntiau’r cwmpawd (Gogledd, De, Dwyrain a Gorllewin) pan nad oes enw mwy addas. Pan fydd enw etholaeth yn cyfeirio at ardal y prif gyngor neu hen gyngor dosbarth, mae’r cyfeiriad pwynt cwmpawd a ddefnyddiwyd fel arfer wedi ffurfio rhagddodiad (er enghraifft, Canol a De Sir Benfro). Yn Saesneg, pan fydd enw etholaeth yn cyfeirio at ganolfan boblogaeth, mae cyfeiriad y pwynt cwmpawd wedi ffurfio ôl-ddodiad yn gyffredinol (er enghraifft, Swansea West).
31. Mae’r Comisiwn o’r farn ei bod yn briodol i bob etholaeth yng Nghymru fod ag enwau amgen yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae hyn yn adlewyrchu statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru. Felly, mae’r Comisiwn wedi gwneud argymhellion y dylai dewisiadau amgen swyddogol gael eu darparu yn y Gymraeg ar gyfer enwau etholaethau yn Saesneg, ac i’r gwrthwyneb. Yn y modd hwn, mae’r ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal. Pan fo enw etholaeth yn dderbyniol yn Gymraeg ac yn Saesneg, ni argymhellwyd enw amgen swyddogol.

## Dynodi

32. Mae’r Ddeddf hefyd yn pennu gofyniad i bob etholaeth gael ei dynodi naill ai’n “etholaeth sirol” (county constituency) neu’n “etholaeth fwrdeistrefol” (borough constituency). Fel egwyddor gyffredinol, mae’r Comisiwn o’r farn, lle mae etholaethau’n cynnwys mwy nag elfen wledig fach, y dylid fel arfer eu dynodi’n etholaethau sirol. Mewn achosion eraill, dylid eu dynodi’n etholaethau bwrdeistrefol. Caiff y dynodiad ei ôl-ddodi at enw’r etholaeth, a’i dalfyrru fel arfer: BC ar gyfer ‘borough constituency’ a CC ar gyfer ‘county constituency’.

Pennod 3:

# Datblygu etholaethau

## Nifer yr etholwyr

1. Mae 40 o etholaethau yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae nifer yr etholwyr yn yr etholaethau yn amrywio o 42,657 (Arfon CC) i 78,238 (Cardiff South and Penarth BC). O dan y Ddeddf, mae nifer yr etholaethau yng Nghymru yn cael eu lleihau o 40 i 32, ac mae'r amrediad etholwyr statudol rhwng 69,724 a 77,062 o etholwyr. Dim ond un etholaeth bresennol, sef Vale of Glamorgan CC, sydd o fewn yr amrediad statudol. Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd yn y bennod flaenorol, nid yw etholaeth bresennol yn cael ei gwarchod rhag newid dim ond oherwydd bod nifer ei hetholwyr o fewn yr amrediad statudol. Y rheswm am hyn yw oherwydd y gallai newid fod yn angenrheidiol i greu etholaethau hyfyw mewn ardaloedd eraill. Yn wir, fel y gellir gweld yn y bennod nesaf, mae'r Comisiwn wedi argymell newid ffiniau Vale of Glamorgan CC i fodloni'r rheolau statudol yn y ffordd orau yn yr ardaloedd amgylchynol.

## Maint etholaethau

2. Mae maint (o ran arwynebedd) yr etholaethau presennol yn amrywio o 17 o gilomedrau sgwâr (km2) (Cardiff Central BC) i 3,014km$^2$ (Brecon and Radnorshire CC). Y maint mwyaf a ganiateir ar gyfer etholaeth dan y ddeddfwriaeth newydd yw 13,000km$^2$. Byddai etholaeth o'r maint hwnnw yn gorchuddio tua 61% o Gymru.

## Patrwm etholaethau

3. Nifer gymharol fach o etholwyr a geir mewn rhannau gwledig o Gymru. Mae'n anochel, felly, o dan y trefniadau newydd, bod rhai etholaethau'n fawr iawn o ran arwynebedd. Yn ogystal, oherwydd y niferoedd cymharol isel o etholwyr yn rhai o Gymoedd De Cymru, mae'n rhaid i etholaethau gwmpasu mwy nag un cwm. Yn yr un modd, mewn rhai ardaloedd trefol, bu'n rhaid i brif gynghorau gael eu rhannu. Roedd angen gwneud cyfaddawdau er mwyn creu patrwm o etholaethau ledled Cymru sy'n cadw at y rheolau yn y ddeddfwriaeth.

## Cynigion cychwynnol

4. Yn unol â darpariaethau'r Ddeddf, aeth y Comisiwn ati yn gyntaf i ddatblygu cyfres o gynigion cychwynnol ar gyfer etholaethau yng Nghymru. Roedd rhaid i'r Comisiwn lunio cynigion ar gyfer 32 o etholaethau yn lle'r 40 presennol. Wrth wneud hynny, bu'n rhaid iddo weithredu'r gofyniad bod rhaid i nifer yr etholwyr ym mhob etholaeth arfaethedig fod o fewn yr amrediad etholwyr statudol. O ganlyniad, mae gallu'r Comisiwn i cydbwyso ffactorau a restrir yn Rheol 5 Atodlen 2 y Ddeddf wedi bod yn gyfyngedig, ar adegau. Yn yr un modd, wrth ystyried rhinweddau cynlluniau amgen a gynhyrchwyd i ymateb i'r cynigion cychwynnol, canfuwyd nad oedd newidiadau neu ddatrysiadau awgrymedig yn ymarferol, mewn rhai achosion, oherwydd nad oeddent yn bodloni'r gofynion o ran nifer yr etholwyr neu oherwydd eu heffeithiau canlyniadol ar etholaethau arfaethedig eraill.
5. Yr unig etholaeth yng Nghymru nad yw'n ddarostyngedig i weithrediad Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig yw Ynys Môn. Darperir ar gyfer hyn gan statud.
6. Cyflwynodd cynigion cychwynnol y Comisiwn, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2021, fap etholaethau Seneddol o Gymru gyda newidiadau i bob etholaeth bresennol heblaw am Ynys Môn. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau helaeth, adeiladol, a defnyddiol gan unigolion a sefydliadau ynglŷn â'r cynigion cychwynnol, gan gynnwys nifer o gynrychiolaethau a oedd yn berthnasol i Gymru gyfan, neu rannau sylweddol ohoni. At ei gilydd (yn ystod y cyfnod ymgynghori cyntaf a'r ail gyfnod ymgynghori), cafwyd cyfanswm o 1,367 o gynrychiolaethau ysgrifenedig – naill ai trwy lythyr, e-bost, deisebau, neu gyfraniadau trwy'r Porth Ymgynghori – a siaradodd 81 o unigolion mewn gwrandawiadau cyhoeddus. Mae'r Comisiwn yn ddiolchgar iawn am y cynrychiolaethau a gafodd.

## Adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol

7. Mae'r Ddeddf yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol, ar gais y Comisiwn, benodi un neu fwy o Gomisiynwyr Cynorthwyol i gynorthwyo'r Comisiwn i gyflawni ei swyddogaethau. Penodwyd 4 Comisiynydd Cynorthwyol ar gyfer arolwg 2023 yng Nghymru. Rôl y Comisiynwyr Cynorthwyol oedd cadeirio'r gwrandawiadau cyhoeddus mewn modd teg ac effeithlon, ac o fewn terfynau amser statudol a chanllawiau gweithdrefnol a bennwyd gan y Comisiwn, gan gynnwys galw siaradwyr a oedd wedi cofrestru i roi eu cyflwyniadau, a gofyn a chaniatáu cwestiynau er mwyn eglurder, os oedd angen.

8. Adolygodd y Comisiynwyr Cynorthwyol yr holl gynrychiolaethau ysgrifenedig a gafodd y Comisiwn yn ystod y cyfnod ymgynghori cyntaf a'r ail gyfnod ymgynghori, ynghyd â'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn y gwrandawiadau cyhoeddus. Yn dilyn eu hystyriaethau, gwnaethant gyflwyno adroddiad annibynnol i'r Comisiwn. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r hyn a oedd ym marn y Comisiynwyr Cynorthwyol yn bwyntiau amlwg a godwyd gan y cynrychiolaethau, a gwnaethant argymhellion i'r Comisiwn ar ddiwygiadau y gellid eu gwneud i'r cynigion cychwynnol. Gellir gweld adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol ar wefan y Comisiwn.

## Cynigion Diwygiedig

9. Mae Adran 5(5) y Ddeddf yn rhoi'r grym i'r Comisiwn ddiwygio ei gynigion cychwynnol yng ngoleuni cynrychiolaethau a gafwyd.

10. Yng ngoleuni'r cynrychiolaethau a gafwyd ynglŷn â'i gynigion cychwynnol, penderfynodd y Comisiwn ddiwygio ei gynigion. Wrth ddatblygu cynigion diwygiedig, ystyriodd y Comisiwn y cynrychiolaethau a gafwyd a'r argymhellion a wnaed gan y Comisiynwyr Cynorthwyol. Derbyniodd y Comisiwn rai o'r argymhellion a wnaed gan y Comisiynwyr Cynorthwyol, a lluniodd gynigion amgen mewn ardaloedd eraill, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafodd yn ystod y cyfnodau ymgynghori.

11. Roedd cynigion diwygiedig y Comisiwn, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2022, yn cyflwyno cyfres o etholaethau Seneddol arfaethedig yng Nghymru gyda newidiadau daearyddol i 22 o'i etholaethau a gynigiwyd yn wreiddiol. Roedd graddau'r newidiadau'n dangos yr ystyriaeth ofalus a roddodd y Comisiwn i'r cynrychiolaethau a wnaed ynglŷn â'i gynigion gwreiddiol. Gwnaed 623 o gynrychiolaethau ysgrifenedig ynglŷn â'r cynigion diwygiedig. Roedd rhai'n codi materion newydd. Roedd rhai'n ailddadlau pwyntiau a wnaed ynglŷn â'r cynigion gwreiddiol. Roedd rhai'n cymeradwyo'r cynigion diwygiedig, yn llwyr neu'n rhannol.

12. O ystyried yr angen i sicrhau bod nifer yr etholwyr ym mhob etholaeth argymelledig yn bodloni gofynion Rheol 2 Atodlen 2 y Ddeddf, ni fu'n bosibl mynd i'r afael â'r holl bryderon ychwanegol a fynegwyd. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn wedi ceisio, ar bob cam o'i ystyriaethau, amlygu ac argymell etholaethau sy'n adlewyrchu'r meini prawf statudol yn y ffordd orau yn gyffredinol.

## Argymhellion

13. Yn dilyn y prosesau ymgynghori helaeth y mae'r Comisiwn wedi'u cynnal, mae bellach yn ofynnol iddo gyflwyno adroddiad i Lefarydd Tŷ'r Cyffredin sy'n dangos ei argymhellion ar gyfer etholaethau yng Nghymru, yr enwau y dylid adnabod yr etholaethau argymelledig wrthynt, a ph'un a ddylai pob etholaeth argymelledig fod yn etholaeth sirol neu'n etholaeth fwrdeistrefol. Disgrifir yr etholaethau argymelledig yn fanwl isod ac fe'u dangosir mewn mapiau amlinellol ym Mhennod 6.

Pennod 4:

# Crynodeb o'r Argymhellion

1. Yr unig etholaeth bresennol yng Nghymru a bennwyd yn y Ddeddf nad yw'n ddarostyngedig i weithrediad Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig yw Ynys Môn. Felly, mae Ynys Môn yn aros heb ei newid yn argymhellion terfynol y Comisiwn. Ar gyfer rhai ardaloedd eraill, mae'r newidiadau argymelledig yn sylweddol.
2. Mae'r Comisiwn yn ailadrodd nad yw'r arolwg hwn yn mynd i'r afael â'r canlynol: etholaethau'r Senedd; a ffiniau prif gynghorau, wardiau etholiadol a chymunedau, trethi na gwasanaethau. Felly, nid yw'r Comisiwn wedi ystyried unrhyw gynrychiolaethau a wnaed ynglŷn â'r materion hynny. Hoffai'r Comisiwn bwysleisio hefyd nad oedd wedi ystyried unrhyw gynrychiolaethau, na rhannau o gynrychiolaethau, lle y gwnaed sylwadau ar nifer y seddau Seneddol a ddyrannwyd i Gymru neu'r amrediad etholwyr statudol. Mae'r rhain wedi cael eu gosod gan y Senedd, ac ni all y Comisiwn eu newid.
3. Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig yw 73,393, gyda goddefiant o rhwng 95% a 105% o'r ffigur hwn (69,724 a 77,062, yn y drefn honno). Mae'r holl etholaethau argymelledig o fewn yr amrediad etholwyr statudol, gyda 17 o etholaethau islaw'r cwota etholiadol a 15 uwchlaw'r cwota etholiadol.
4. O dan yr argymhellion terfynol, byddai 6 phrif gyngor (Blaenau Gwent, Ceredigion, Ynys Môn, Merthyr Tudful, Sir Fynwy a Thorfaen) yn cael eu cynnwys yn gyfan gwbl o fewn yr etholaethau argymelledig newydd. Byddai 14 o etholaethau presennol (Aberconwy, Alun a Glannau Dyfrdwy, Blaenau Gwent, Brycheiniog a Sir Faesyfed, Gogledd Caerdydd, Gorllewin Caerdydd, Ceredigion, Dwyfor Meirionnydd, Llanelli, Sir Drefaldwyn, Rhondda, Torfaen, Wrecsam ac Ynys Môn) yn cael eu cynnwys yn gyfan gwbl o fewn yr etholaethau argymelledig newydd. Byddai 17 o'r enwau etholaethau presennol yn aros yr un fath.
5. O dan yr argymhellion, byddai gan 6 etholaeth arwynebedd o fwy na 1,000km2 (Bangor Aberconwy,

Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe, Caerfyrddin, Ceredigion Preseli, Dwyfor Meirionnydd, a Maldwyn a Glyndŵr). Byddai 4 o'r rhain rhwng 2,000km2 a 3,000km2 (Caerfyrddin, Ceredigion Preseli, Dwyfor Meirionnydd, a Maldwyn a Glyndŵr). Byddai 1 dros 3,000km2 (Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe.)

6. Mae rhai wardiau etholiadol wedi'u rhannu ar draws mwy nag un etholaeth Seneddol bresennol ar hyn o bryd. Er enghraifft, mae Dinas Powys wedi'i rhannu ar hyn o bryd: mae 3 etholwr o fewn etholaeth bresennol Cardiff South and Penarth BC ar hyn o bryd, ac mae 6,385 o etholwyr o fewn etholaeth Vale of Glamorgan CC ar hyn o bryd. Mae argymhellion y Comisiwn yn arwain at gynnwys yr holl wardiau "hollt" yn gyfan gwbl o fewn un etholaeth. Dangosir hyn yn y tabl canlynol.

| **Ward Etholiadol** | **Etholaeth bresennol wedi ei rhannu (nifer yr etholwyr)** | **Dyraniad yr etholaeth bresen-nol (nifer yr etholwyr)** |
|---|---|---|
| Clydach | Gower CC (5,713) | Gower CC (5,821) |
| | Swansea East BC (108) | |
| Y Cocyd | Swansea West BC (10,003) | Swansea West BC (10,473) |
| | Swansea East BC (470) | |
| Gogledd Croesyceiliog | Monmouth CC (2,664) | Monmouth CC (2,745) |
| | Torfaen CC (81) | |
| Dinas Powys | Vale of Glamorgan CC (6,385) | Vale of Glamorgan CC (6,388) |
| | Cardiff South and Penarth BC (3) | |
| Dynfant | Swansea West BC (3,490) | Swansea West BC (3,494) |
| | Gower CC (4) | |
| Glandŵr | Swansea East BC (4,712) | Swansea East BC (4,821) |
| | Swansea West BC (109) | |
| Llangyfelach | Gower CC (3,841) | Gower CC (3,946) |
| | Swansea East BC (105) | |
| Llanhari | Ogmore CC (3,022) | Ogmore CC (3,221) |
| | Pontypridd CC (199) | |
| Martletwy | Carmarthen West and South Pembrokeshire CC (1,134) | Carmarthen West and South Pembrokeshire CC (1,603) |
| | Preseli Pembrokeshire CC (469) | |
| Pontprennau/Pentref Llaneir-wg | Cardiff North BC (7,964) | Cardiff North BC (8,047) |
| | Cardiff South and Penarth BC (83) | |
| Pont-y-clun | Pontypridd CC (5,371) | Pontypridd CC (6,061) |
| | Ogmore CC (690) | |
| Tonysguboriau | Pontypridd CC (1,955) | Pontypridd CC (1,965) |
| | Ogmore CC (10) | |

Pennod 5:

# Yr Argymhellion Terfynol yn Fanwl

1. Disgrifir argymhellion y Comisiwn yn fanwl isod. Ar gyfer pob etholaeth argymelledig, mae'r adroddiad yn nodi'r canlynol:

- enw a dynodiad yr etholaeth, gan gynnwys yr enw amgen swyddogol argymelledig (os yw'n berthnasol)
- y wardiau etholiadol (ar 1 Rhagfyr 2020) y byddai'n eu cynnwys a'i hamrywiant oddi wrth Gwota Etholiadol y Deyrnas Unedig
- dadleuon a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus o blaid neu yn erbyn cynigion diwygiedig y Comisiwn. Er na sonnir am yr holl gynrychiolaethau yn yr adroddiad hwn, mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau a gafodd wrth benderfynu ar ei argymhellion
- ymateb y Comisiwn i'r cynrychiolaethau a'r argymhellion a wnaed
- map o'r etholaeth arfaethedig
- esboniad o'r enw argymelledig

2. Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi darlun cyffredinol o'r trefniadau presennol, cynigion cychwynnol y Comisiwn, y cynigion diwygiedig ac argymhellion y Comisiwn. Mae'r mapiau a ddarperir yn yr adran hon yn dangos yr etholaethau presennol yng Nghymru yn goch, y cynigion cychwynnol yn felyn, y cynigion diwygiedig yn las a'r etholaethau argymelledig yn wyrdd. Mae mapiau'r etholaethau unigol yn cyfeirio at yr enw argymelledig ar gyfer yr etholaeth. Mae'r Comisiwn hefyd wedi darparu enw amgen swyddogol argymelledig, a gellir gweld yr enwau hyn yn y disgrifiad o'r etholaeth argymelledig.

## Allwedd Mapiau

Ffin yr etholaeth argymelledig


Ffin yr etholaeth yn y cynigion diwygiedig

Ffin yr etholaeth yn y cynigion cychwynnol


Ffin yr etholaeth bresennol

Ffin y ward etholiadol


# Etholaethau Seneddol Presennol



# Cynigion Cychwynnol




# Cynigion Diwygiedig



# Argymhellion Terfynol


0 50
Cilomedrau
Graddfa 1:1,150,000




1. Aberafan Maesteg (69,817)
2. Alun a Glannau Dyfrdwy (75,695)
3. Bangor Aberconwy (70,468)
4. Blaenau Gwent a Rhymni (71,079)
5. Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe (72,113)
6. Pen-y-bont (70,770)
7. Caerfyrddin (72,683)
8. Caerffili (72,458)
9. Dwyrain Caerdydd (72,463)
10. Gogledd Caerdydd (71,143)
11. De Caerdydd a Phenarth (72,269)
12. Gorllewin Caerdydd (73,947)
13. Ceredigion Preseli (74,063)
14. Dwyrain Clwyd (76,395)
15. Gogledd Clwyd (76,150)
16. Dwyfor Meirionnydd (72,533)
17. Gŵyr (76,801)
18. Llanelli (69,895)
19. Merthyr Tudful ac Aberdâr (74, 805)
20. De a Canol Sir Benfro (76,820)
21. Sir Fynwy (72,681)
22. Maldwyn a Glyndŵr (74,223)
23. Castell-nedd a Dwyrain Abertawe (74,705)
24. Dwyrain Casnewydd (76,159)
25. Gorllewin Casnewydd ac Islwyn (76,234)
26. Pontypridd (73,743)
27. Rhondda ac Ogŵr (73,557)
28. Gorllewin Abertawe (74,612)
29. Torfaen (70,591)
30. Bro Morgannwg (70,426)
31. Wrecsam (70,964)
32. Ynys Môn (52,415)

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2023] OS [100047875]


Etholaethau Presennol a Argymhellion Terfynol
0
50
Cilomedrau
Graddfa: 1: 1,059,000
Argymhellion Terfynol
Etholaethau Presennol
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2023] OS [100047875]

## 1. Aberafan Maesteg

Argymhelliad

**1.1 Mae'r Comisiwn yn argymell bod etholaeth sirol yn cael ei chreu o'r:**

**1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Aberavon ar hyn o bryd):**

**Aberafan (4,048), Baglan (5,383), Dwyrain Llansawel (2,148), Gorllewin Llansawel (2,033), Bryn a Chwmafan (5,220), y Cymer (2,011), Glyncorrwg (792), Gwynfi (879), Margam (2,309), Port Talbot (4,342), Dwyrain Sandfields (5,038), Gorllewin Sandfields (4,917) a Thai-bach (3,643);**

**2. Ward etholiadol Pelenna (936) o fewn Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Neath ar hyn o bryd);**

**3. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Bridgend ar hyn o bryd):**

**Corneli (5,359) a'r Pîl (5,545); a'r**

**4. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Ogmore ar hyn o bryd):**

**Caerau (4,795), Llangynwyd (2,351), Dwyrain Maesteg (3,741) a Gorllewin Maesteg (4,327).**

**1.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 69,817 o etholwyr, sydd 4.9% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth.**

**1.3 Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw unigol Aberafan Maesteg ar gyfer yr etholaeth hon.**

Cefndir

1.4 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiodd greu etholaeth sirol o’r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (sy’n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Aberavon ar hyn o bryd):

Aberafan (4,048), Baglan (5,383), Dwyrain Llansawel (2,148), Gorllewin Llansawel (2,033), Bryn a Chwmafan (5,220), y Cymer (2,011), Glyncorrwg (792), Gwynfi (879), Margam (2,309), Port Talbot (4,342), Dwyrain Sandfields (5,038), Gorllewin Sandfields (4,917) a Thai-bach (3,643); a’r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (sy’n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Bridgend):

Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr (6,574), Cefn Glas (1,360), Corneli (5,359), Llangewydd a Brynhyfryd (1,878), Drenewydd (3,035), Notais (2,741), Canol Dwyrain Porthcawl (2,580), Canol Gorllewin Porthcawl (2,967), y Pîl (5,545) a Rest Bay (1,990).

1.5 Byddai’r etholaeth hon wedi cynnwys 76,792 o etholwyr, sydd 4.6% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Aberafan Porthcawl.

1.6 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a fynegodd bryderon ynglŷn â rhannu Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr rhwng 2 etholaeth, gan ddadlau ei bod yn afresymegol gosod un o faestrefi Pen-y-bont ar Ogwr yn yr etholaeth gymdogol pan oedd pentrefi â chysylltiad cryfach ag Aberafan y gellid eu trosglwyddo yn lle hynny. Wedi dweud hynny, roedd rhywfaint o gefnogaeth i’r cynnig

cychwynnol, gyda rhai mân addasiadau yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr, gan yr Aelodau Seneddol ar gyfer Aberafan ac Ogwr. Yn ogystal, cafodd y Comisiwn wrthwynebiad i gyfuno Porthcawl ag Aberafan yn seiliedig ar y ddadl bod gan Borthcawl fwy yn gyffredin â Phen-y-bont ar Ogwr nag ardal Aberafan. Fodd bynnag, cafodd y Comisiwn gefnogaeth i'r cynnig cychwynnol hefyd a oedd yn dweud bod cyfuno'r ardaloedd â glan môr helaeth yn dwyn ynghyd ardaloedd â chymeriad tebyg.

1.7 Cyflwynwyd nifer o gynigion amgen ar gyfer yr ardal. Cytunodd y Blaid Geidwadol â'r cynrychiolaethau a gafwyd a chynigiodd etholaeth 'Pen-y-bont' a oedd yn cynnwys Porthcawl ac ardal canol tref Pen-y-bont ar Ogwr, ac o ganlyniad etholaeth 'Aberafan Maesteg' a oedd yn uno Aberafan ag Ogwr trwy Gwm Gwynfi. Cynigiodd Plaid Cymru etholaeth 'Bro Morgannwg a Phorthcawl', ac etholaeth 'Pen-y-bont' a oedd yn dilyn ffin eithaf tebyg i gynnig cychwynnol y Comisiwn. Roedd cyflwyniad y Democratiaid Rhyddfrydol yn cynnig rhannu ardal Pen-y-bont ar Ogwr rhwng 3 etholaeth: unwyd canol tref Pen-y-bont ar Ogwr â Phorthcawl i ffurfio etholaeth arfaethedig Pen-y-bont; cyfunwyd Bro Ogwr â rhannau o etholaeth bresennol y Rhondda; ac unwyd Maesteg ag etholaeth arfaethedig 'Aberafan gyda Maesteg a De-ddwyrain Abertawe'.

1.8 Nid oedd adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol yn cefnogi'r cynnig cychwynnol a gwnaethant gynnig trefniant amgen, gan ddweud bod gwrthwynebiad sylweddol o'r ddwy ran o'r etholaeth arfaethedig a oedd yn canolbwyntio ar gysylltiadau lleol. Cynigiodd y Comisiynwyr Cynorthwyol etholaeth a fyddai'n cyfuno tref Castell-nedd â mwyafrif etholaeth bresennol Aberavon a'r ardal o amgylch Maesteg. Dywedasant fod y cysylltiadau trafnidiaeth, cymunedol a chysylltiadau eraill yn rhesymol gryf rhwng Cwm Afan a Maesteg, ond yn llawer llai felly â'r ardal ehangach yn etholaeth bresennol Ogwr. Roedd cynnig y Comisiynwyr Cynorthwyol yn gosod Porthcawl a'r ardal amgylchynol mewn etholaeth â rhan fawr o etholaeth bresennol Vale of Glamorgan.

1.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau a gafwyd ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol,

cytunodd y Comisiwn â’r cynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu rhannu canol tref Pen-y-bont ar Ogwr rhwng 2 etholaeth. Nid oedd y Comisiwn o’r farn bod digon o dystiolaeth wedi cael ei darparu i gefnogi argymhelliad y Comisiynwyr Cynorthwyol.

1.10 Yn ei gynigion diwygiedig, felly, cynigiodd y Comisiwn ddychwelyd Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr i gyd i etholaeth arfaethedig ‘Pen-y-bont’. Er mwyn i’r etholaethau arfaethedig fodloni’r cwota statudol, cynhwysodd y Comisiwn dref Sgiwen (3 ward etholiadol Coedffranc) mewn etholaeth arfaethedig ‘Aberafan Porthcawl’. Roedd y Comisiwn yn credu bod cysylltiadau cryf â’r etholaeth arfaethedig hon, gan fod Sgiwen yn rhan o etholaeth bresennol Aberavon a bod holl rannau’r etholaeth arfaethedig o fewn yr un ardal cyngor bwrdeistref sirol. Ystyriodd y Comisiwn y cynrychiolaethau o ran y gwahaniaethau rhwng y 2 ardal a’r trefniadau amgen a gyflwynwyd. Fodd bynnag, roedd y Comisiwn o’r farn ei bod yn briodol cyfuno’r ardaloedd fel y cynigiwyd o ganlyniad i’r cysylltiadau trafnidiaeth a chyfathrebu da o fewn yr etholaeth arfaethedig.

1.11 Felly, yn ei gynigion diwygiedig, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o’r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (sy’n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Aberavon ar hyn o bryd):

Aberafan (4,048), Baglan (5,383), Dwyrain Llansawel (2,148), Gorllewin Llansawel (2,033), Bryn a Chwmafan (5,220), Canol Coedffranc (2,892), Gogledd Coedffranc (1,811), Gorllewin Coedffranc (3,587), y Cymer (2,011), Glyncorrwg (792), Gwynfi (879), Margam (2,309), Port Talbot (4,342), Dwyrain Sandfields (5,038), Gorllewin Sandfields (4,917) a Thai-bach (3,643); a’r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (sy’n ffurfio

rhan o etholaeth sirol bresennol Bridgend ar hyn o bryd):

Corneli (5,359), Drenewydd (3,035), Notais (2,741), Canol Dwyrain Porthcawl (2,580), Canol Gorllewin Porthcawl (2,967), y Pîl (5,545) a Rest Bay (1,990).

1.12 Byddai'r etholaeth hon wedi cynnwys 75,270 o etholwyr, sydd 2.6% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol a gynigiwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Aberafan Porthcawl.

1.13 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu cynnwys 3 ward etholiadol Coedffranc sy'n cyfuno i greu tref Sgiwen ar y sail ei bod yn rhannu ei chysylltiadau lleol â'r ardaloedd yn etholaethau presennol Dwyrain Abertawe neu Gastell-nedd. Cafodd y Comisiwn 2 wrthgynnig i'r cynigion diwygiedig, yr oedd y cyntaf ohonynt yn arwain at rannu cymuned Cwm Garw, yn groes i bolisi'r Comisiwn na ddylai cymunedau gael eu rhannu. Roedd yr ail wrthgynnig yn cynnig cynnwys tref Sgiwen mewn etholaeth arfaethedig 'Castell-nedd' a chreu etholaeth newydd 'Aberafan' a oedd hefyd yn cynnwys ward etholiadol Pelenna o etholaeth arfaethedig Castell-nedd a Dwyrain Abertawe a wardiau Maesteg a Llangynwyd o etholaeth arfaethedig Pen-y-bont. Roedd y Blaid Geidwadol yn cefnogi cynigion diwygiedig y Comisiwn, a derbyniodd Plaid Lafur Cymru gynigion diwygiedig y Comisiwn.

1.14 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau a gafwyd ac, ar ôl ystyried y gwrthgynigion, mae'r Comisiwn yn cytuno mai'r lle mwyaf priodol i wardiau etholiadol Coedffranc yw o fewn etholaeth Castell-nedd a Dwyrain Abertawe o ganlyniad i'r cysylltiadau lleol yn yr ardal. O ganlyniad i ddychwelyd trefi Porthcawl (wardiau etholiadol Drenewydd, Notais, Canol Dwyrain Porthcawl, Canol Gorllewin Porthcawl a Rest Bay) a Phencoed (wardiau etholiadol Hendre, Felindre a Phenprysg) i etholaeth Pen-

y-bont, sydd i gyd yn dod o fewn awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr ac sydd â chysylltiadau lleol â Phen-y-bont ar Ogwr, mae'r Comisiwn wedi cynnwys Cwm Ogwr a Chwm Garw (wardiau etholiadol Betws, Melin Ifan Ddu, Blaengarw, Llangeinwyr, Nant-y-moel, Cwm Ogwr a Phontycymer) mewn etholaeth Rhondda ac Ogwr gan adeiladu ar hunaniaeth gymunedol gyffredin y cymoedd, a wardiau etholiadol Caerau, Llangynwyd, Dwyrain Maesteg a Gorllewin Maesteg gyda'r etholaeth argymelledig hon gan fod y ddwy ardal yn rhannu cysylltiadau cyfathrebu da i greu etholaeth Aberafan Maesteg.

1.15 Yn olaf, er mwyn bodloni Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, roedd y Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol ychwanegu ward etholiadol Pelenna i etholaeth argymelledig Aberafan Maesteg o ganlyniad i'r cysylltiadau ffyrdd da yn yr ardal.

Enw argymelledig yr etholaeth

1.16 Yr enw unigol a argymhellir ar gyfer yr etholaeth hon yw Aberafan Maesteg.

1.17 Cynigiodd y Comisiwn yr enw unigol 'Aberafan Porthcawl' i ddechrau. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn darparu dewisiadau amgen yn lle enw'r cynnig cychwynnol a oedd yn cynnwys 'De Morgannwg, ac Aberafan a Phorthcawl'.

1.18 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol drefniant gwahanol ar gyfer yr etholaethau yn yr ardal ac felly gwnaethant awgrymu enwau amgen.


1.19 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynnig diwygiedig, cafodd y Comisiwn 1 gynrychiolaeth a oedd yn darparu daearyddiaeth amgen a'r enw amgen Aberafan Maesteg.

1.20 Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr enw Aberafan Maesteg yn adlewyrchu'r ardal ddaearyddol

y byddai'r etholaeth argymelledig hon yn ei chynrychioli yn y ffordd orau. Mae'r enw'n cynrychioli'r 2 brif anheddiad yn yr ardaloedd yr argymhellir eu cyfuno yn yr etholaeth. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr enw'n adnabyddadwy ac yn dderbyniol yn Gymraeg a Saesneg.

.

# Aberafan Maesteg



## 2. Alyn and Deeside (Alun a Glannau Dyfrdwy)

**2.1 Mae'r Comisiwn yn argymell creu etholaeth sirol o'r:**

**1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir y Fflint (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol Alyn and Deeside ar hyn o bryd):**

**Aston (2,508), Gogledd-ddwyrain Brychdyn (1,723), De Brychdyn (3,325), Bwcle: Dwyrain Bistre (2,653), Bwcle: Gorllewin Bistre (3,182), Bwcle: Mynydd (2,555), Bwcle: Pentrobin (4,181), Caergwrle (1,225), Canol Cei Connah (2,213), Cei Connah: Golftyn (3,688), De Cei Connah (4,494), Cei Connah: Gwepra (1,647), Ewloe (4,327), Penarlâg (1,623), Kinnerton Uchaf (1,373), yr Hôb (2,042), Llanfynydd (1,483), Mancot (2,516), Pen-y-ffordd (3,543), Queensferry (1,248), Saltney: Cyffordd yr Wyddgrug (1,100), Saltney: Stonebridge (2,672), Sealand (2,026), Dwyrain Shotton (1,219), Shotton Uchaf (1,669), Gorllewin Shotton (1,464) a Threuddyn (1,346); a'r**

**2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir y Fflint (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Delyn ar hyn o bryd):**

**Dwyrain Bagillt (1,413), Gorllewin Bagillt (1,625), Y Fflint: Castell (1,426), Y Fflint: Cynswllt (2,938), Y Fflint: Oakenholt (2,538), a'r Fflint: Trelawnyd (2,710).**

**2.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 75,695 o etholwyr, sydd 3.1% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth.**

**2.3 Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw swyddogol Alyn and Deeside ar gyfer yr etholaeth hon a'r enw amgen swyddogol Alun a Glannau Dyfrdwy.**

Cefndir

2.4 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiodd greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir y Fflint (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol Alyn and Deeside ar hyn o bryd):
Aston (2,508), Gogledd-ddwyrain Brychdyn (1,723), De Brychdyn (3,325), Bwcle: Dwyrain Bistre (2,653), Bwcle: Gorllewin Bistre (3,182), Bwcle: Mynydd (2,555), Bwcle: Pentrobin (4,181), Caergwrle (1,225), Canol Cei Connah (2,213), Cei Connah: Golftyn (3,688), De Cei Connah (4,494), Cei Connah: Gwepra (1,647), Ewloe (4,327), Penarlâg (1,623), Kinnerton Uchaf (1,373), yr Hôb (2,042), Llanfynydd (1,483), Mancot (2,516), Pen-y-ffordd (3,543), Queensferry (1,248), Saltney: Cyffordd yr Wyddgrug (1,100), Saltney: Stonebridge (2,672), Sealand (2,026), Dwyrain Shotton (1,219), Shotton Uchaf (1,669), Gorllewin Shotton (1,464) a Threuddyn (1,346);

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Wrecsam (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Clwyd South ar hyn o bryd):
Brymbo (3,021) a Mwynglawdd (1,870); a'r

3. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir y Fflint (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Delyn ar hyn o bryd):
Argoed (2,167), Coed-llai (1,627) a New Brighton (2,414).

2.5 Byddai'r etholaeth hon wedi cynnwys 74,144 o etholwyr, sydd 1% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw swyddogol a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Alyn and Deeside. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd oedd Alun a Glannau Dyfrdwy.

2.6 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau, gan gynnwys cynrychiolaethau gan

yr Aelodau Seneddol dros Wrecsam a De Clwyd, a ddywedodd fod wardiau etholiadol Brymbo a Mwynglawdd yn rhannu cysylltiadau lleol a chysylltiadau cymunedol â Wrecsam, yn hytrach nag 'Alun a Glannau Dyfrdwy' arfaethedig i'r gogledd. Dadleuodd y cynrychiolaethau hyn na ddylai'r wardiau hyn gael eu cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon ac y dylent aros o fewn etholaeth arfaethedig 'Wrecsam'. Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau hefyd a oedd yn datgan y dylai ardaloedd Bagillt a'r Fflint gael eu dychwelyd i etholaeth arfaethedig 'Alun a Glannau Dyfrdwy', gan ddweud bod gan yr ardaloedd hyn fwy yn gyffredin ag etholaeth arfaethedig 'Alun a Glannau Dyfrdwy' na'r ardaloedd sydd wedi'u cynnwys yn etholaeth 'Delyn' a gynigiwyd yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn. Roedd nifer sylweddol o'r cynrychiolaethau a gafwyd yn dadlau y dylai cyfansoddiad yr etholaethau arfaethedig yng ngogledd Cymru gael ei ddylunio gan ystyried gwahanol ddiwylliannau ardaloedd, fel trefol, diwydiannol, gwledig ac arfordirol.

2.7 Roedd y pleidiau gwleidyddol yn cytuno y dylai wardiau etholiadol Brymbo a Mwynglawdd gael eu dychwelyd i etholaeth arfaethedig 'Wrecsam'. Roedd y Blaid Geidwadol hefyd wedi cynnig cynnwys ardaloedd Bagillt a'r Fflint mewn etholaeth 'Alun a Glannau Dyfrdwy'. Cynigiodd Plaid Cymru rannu'r ardal, gan gynnwys y Fflint mewn etholaeth 'Alun a Glannau Dyfrdwy', a Bagillt mewn etholaeth arfaethedig 'Delyn'. Cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol gadw ardaloedd Bagillt a'r Fflint mewn etholaeth arfaethedig 'Delyn'.

2.8 Cydnabu'r Comisiynwyr Cynorthwyol fod yr ardal hon yn boblog iawn a bod yr holl faterion eraill sy'n ymwneud â chreu etholaethau yn israddol i oruchafiaeth bodloni'r amrediad etholwyr statudol. Dywedasant fod sawl cynrychiolaeth yn dadlau o blaid cynnwys wardiau'r Fflint a Bagillt mewn etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy. Fodd bynnag, mae'r ardaloedd hynny'n cynnwys mwy na 12,000 o etholwyr, sy'n golygu y byddai angen addasiadau mawr eraill i fodloni'r cwota etholiadol pe byddent yn cael eu cynnwys. Felly, ni wnaeth y Comisiynwyr Cynorthwyol gynnwys y wardiau hyn yn eu

hetholaeth 'Alun a Glannau Dyfrdwy' arfaethedig. Roedd trefniant amgen y Comisiynwyr Cynorthwyol yn trosglwyddo wardiau etholiadol Brymbo a Mwynglawdd allan o'r etholaeth arfaethedig a'u dychwelyd i etholaeth arfaethedig 'Wrecsam'.

2.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, roedd y Comisiwn yn cytuno â'r cynrychiolaethau a ddywedodd y dylai wardiau etholiadol Brymbo a Mwynglawdd gael eu cynnwys mewn etholaeth arfaethedig 'Wrecsam', a'r cynrychiolaethau a ddywedodd fod ardaloedd Bagillt a'r Fflint yn rhannu mwy o gysylltiadau lleol â'r wardiau sydd wedi'u cynnwys mewn etholaeth arfaethedig 'Alun a Glannau Dyfrdwy'.

2.10 Felly, yn ei gynigion diwygiedig, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir y Fflint (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol Alyn and Deeside ar hyn o bryd):
Aston (2,508), Gogledd-ddwyrain Brychdyn (1,723), De Brychdyn (3,325), Bwcle: Dwyrain Bistre (2,653), Bwcle: Gorllewin Bistre (3,182), Bwcle: Mynydd (2,555), Bwcle: Pentrobin (4,181), Caergwrle (1,225), Canol Cei Connah (2,213), Cei Connah: Golftyn (3,688), De Cei Connah (4,494), Cei Connah: Gwepra (1,647), Ewloe (4,327), Penarlâg (1,623), Kinnerton Uchaf (1,373), yr Hôb (2,042), Llanfynydd (1,483), Mancot (2,516), Pen-y-ffordd (3,543), Queensferry (1,248), Saltney: Cyffordd yr Wyddgrug (1,100), Saltney: Stonebridge (2,672), Sealand (2,026), Dwyrain Shotton (1,219), Shotton Uchaf (1,669), Gorllewin Shotton (1,464) a Threuddyn (1,346); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir y Fflint (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Delyn ar hyn o bryd):
Dwyrain Bagillt (1,413), Gorllewin Bagillt (1,625), Y Fflint: Castell (1,426), Y Fflint: Cynswllt (2,938), Y Fflint: Oakenholt (2,538), a'r Fflint: Trelawnyd (2,710).

2.11 Byddai’r etholaeth hon yn cynnwys 75,695 o etholwyr, sydd 3.1% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw swyddogol a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Alyn and Deeside. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd oedd Alun a Glannau Dyfrdwy.

2.12 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â’r cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn 1 gynrychiolaeth gan Gyngor Tref y Fflint a oedd yn gwrthwynebu’r etholaeth arfaethedig, gan ddadlau na ddylai’r Fflint a Bagillt gael eu cynnwys ynddi. Cafodd y Comisiwn drefniant amgen ar gyfer gogledd Cymru hefyd a oedd yn cynnwys creu etholaeth ‘Alun’ ac etholaeth ‘Delyn a Glannau Dyfrdwy’. Cafodd y Comisiwn 4 cynrychiolaeth a oedd yn cefnogi’r cynnig amgen. Roedd rhai o’r cynrychiolaethau hynny’n cefnogi’r cynigion amgen oherwydd eu bod yn cynnwys ardaloedd y Fflint a Bagillt yn yr etholaeth arfaethedig. Cafodd y Comisiwn gefnogaeth i’r newidiadau a wnaeth i’w gynigion cychwynnol yn yr ardal.

2.13 Roedd Plaid Lafur Cymru yn gwrthwynebu cynigion diwygiedig y Comisiwn ar gyfer etholaeth arfaethedig ‘Alun a Glannau Dyfrdwy’ ac nid oedd yn cytuno â’r dadleuon a wnaed yn ystod y cam ymgynghori cychwynnol a’r ail gam ymgynghori ynglŷn â’r cysylltiad rhwng y Fflint a Bagillt a gweddill etholaeth arfaethedig ‘Alun a Glannau Dyfrdwy’. Fodd bynnag, ni wnaeth Plaid Lafur Cymru unrhyw wrthgynigion i’r trefniadau. Er hynny, crybwyllodd ei chefnogaeth i’r cynigion cychwynnol ar gyfer yr ardal. Roedd y Blaid Geidwadol yn cefnogi’r cynigion diwygiedig ar gyfer yr ardal.

2.14 Mae’r Comisiwn wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau a gafwyd ac wedi penderfynu argymell yr etholaeth fel y’i cynigiwyd yn ei adroddiad cynigion diwygiedig. Mae’r Comisiwn yn cydnabod bod rhywfaint o wrthwynebiad i’r cynnig diwygiedig; fodd bynnag, mae’r argymhelliad yn adlewyrchu sylwadau cefnogol a gafwyd yn ystod y camau ymgynghori cynharach a amlygodd

y cysylltiadau lleol sy’n bodoli rhwng Brymbo a Mwynglawdd a rhannau eraill o Wrecsam, yn ogystal â’r cysylltiadau sy’n bodoli rhwng y Fflint a Bagillt a’r ardaloedd eraill yr argymhellir eu cynnwys yn etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy.

Enw argymelledig yr etholaeth

2.15 Yr enw swyddogol a argymhellir ar gyfer yr etholaeth yw Alyn and Deeside. Yr enw amgen swyddogol a argymhellir yw Alun a Glannau Dyfrdwy.


2.16 Ni chafodd y Comisiwn unrhyw enwau amgen ar gyfer etholaeth o wardiau etholiadol tebyg i honno yn y cynigion cychwynnol. Cafodd y Comisiwn un enw amgen, sef ‘Alun’, ar gyfer trefniant amgen o wardiau.

2.17 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol gadw’r enw fel y’i cynigiwyd yn y cynigion cychwynnol.

2.18 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â’r cynnig diwygiedig, cafodd y Comisiwn 1 gynrychiolaeth a oedd yn cynnig yr enwau amgen ‘Alun’ a ‘Delyn a Glannau Dyfrdwy’ ar gyfer trefniant amgen.

2.19 Mae’r Comisiwn o’r farn bod yr enw Alyn and Deeside, gyda’r enw amgen swyddogol Alun a Glannau Dyfrdwy, yn adlewyrchu’r ardal ddaearyddol y byddai’r etholaeth argymelledig hon yn ei chynrychioli yn y ffordd orau ac y byddai etholwyr yn teimlo mwy o gysylltiad ag ef. Mae’r etholaeth argymelledig yn cynnwys etholaeth bresennol Alun a Glannau Dyfrdwy yn ei chyfanrwydd.

# Alun a Glannau Dyfrdwy



## 3. Bangor Aberconwy

Argymhelliad

**3.1 Mae'r Comisiwn yn argymell bod etholaeth sirol yn cael ei chreu o'r:**

**1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Conwy (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol Aberconwy ar hyn o bryd):**

**Betws-y-Coed (967), Bryn (1,390), Caerhun (1,677), Capelulo (1,284), Conwy (3,295), Craig-y-Don (2,685), Crwst (1,581), Deganwy (3,289), Eglwys-bach (1,257), Gogarth (2,795), Gower (850), Llansanffraid (1,814), Marl (3,539), Mostyn (2,758), Pandy (1,463), Pant-yr-Afon/Penmaenan (2,167), Penrhyn (3,874), Pensarn (2,274), Trefriw (1,026), Tudno (3,591) ac Uwch Conwy (1,276);**

**2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Conwy (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Clwyd West ar hyn o bryd):**

**Betws-yn-Rhos (1,623), Llangernyw (1,104), Llansannan (1,495) ac Uwchaled (1,139);**

**3. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Sir Ddinbych (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Clwyd West ar hyn o bryd):**

**Efenechtyd (1,321) a Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch (1,496); a'r**

**4. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gwynedd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Arfon ar hyn o bryd):**

**Arllechwedd (1,091), Deiniol (920), Dewi (1,301), Garth (556), Gerlan (1,696), Glyder (1,257), Hendre (940), Hirael (1,066), Marchog (1,579), Menai (Bangor) (1,548), Ogwen (1,697), Pentir (2,159) a Thregarth a Mynydd Llandygai (1,628).**

**3.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 70,468 o etholwyr, sydd 4% islaw Cwota Etholiadol**

**y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth.**

**3.3 Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw unigol Bangor Aberconwy ar gyfer yr etholaeth hon.**

<u>Cefndir</u>

3.4 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiodd greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Conwy (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol Aberconwy ar hyn o bryd):

Betws-y-Coed (967), Bryn (1,390), Caerhun (1,677), Capelulo (1,284), Conwy (3,295), Craig-y-Don (2,685), Crwst (1,581), Deganwy (3,289), Eglwys-bach (1,257), Gogarth (2,795), Gower (850), Llansanffraid (1,814), Marl (3,539), Mostyn (2,758), Pandy (1,463), Pant-yr-Afon/Penmaenan (2,167), Penrhyn (3,874), Pensarn (2,274), Trefriw (1,026), Tudno (3,591) ac Uwch Conwy (1,276);

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Conwy (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Clwyd West ar hyn o bryd):

Llandrillo-yn-Rhos (6,110), Llangernyw (1,104), Mochdre (1,425) ac Uwchaled (1,139); a'r

3. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gwynedd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Arfon ar hyn o bryd):

Arllechwedd (1,091), Deiniol (920), Dewi (1,301), Garth (556), Gerlan (1,696), Glyder (1,257), Hendre (940), Hirael (1,066), Marchog (1,579), Menai (Bangor) (1,548), Ogwen (1,697) a Thregarth a Mynydd Llandygai (1,628).

3.5 Byddai'r etholaeth hon wedi cynnwys 69,909 o etholwyr, sydd 4.7% islaw Cwota

Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Aberconwy.

3.6 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a ddywedodd fod y cynigion cychwynnol ar gyfer yr ardal yn rhannu Dinas Bangor rhwng 2 etholaeth; dadleuwyd bod ward etholiadol Pentir yn estyniad o Ddinas Bangor. Roedd llawer o'r cynrychiolaethau yn gwrthwynebu symud Dinas Bangor allan o etholaeth Arfon. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a oedd yn gwrthwynebu'r ffaith bod Cyngor Tref Bae Colwyn yn cael ei rannu yn y cynigion cychwynnol. Mae'r cyngor tref hwn yn cynrychioli cyfuniad o nifer o gymunedau yn yr ardal, ac roedd y cynrychiolaethau'n galw am gadw ward etholiadol Llandrillo-yn-Rhos gyda'r cymunedau eraill sy'n ffurfio'r cyngor tref yn etholaeth arfaethedig Aberconwy.

3.7 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a oedd yn awgrymu creu etholaethau yng ngogledd Cymru ar sail amgylcheddau diwylliannol tebyg. Roedd y trefniadau awgrymedig a dderbyniwyd yn rhan o'r cynrychiolaethau yn ystod y cam ymgynghori cychwynnol yn cynnwys etholaethau a oedd y tu hwnt i'r amrediad etholwyr gofynnol. Fodd bynnag, roedd y trefniadau awgrymedig a ddarparwyd yn yr ail gyfnod ymgynghori yn cynnwys etholaethau a oedd yn bodloni'r meini prawf o ran y cwota etholiadol. Awgrymwyd mân newidiadau i gynigion cychwynnol y Comisiwn a oedd yn creu etholaethau o fewn y cwota etholiadol, ond nid oedd y rhain yn mynd i'r afael ag effeithiau pellgyrhaeddol y cynigion ar weddill Cymru.

3.8 Cynigiodd y Blaid Geidwadol newid bach i etholaeth arfaethedig 'Aberconwy' trwy gynnwys ward Pentir o etholaeth arfaethedig 'Dwyfor Meirionnydd'. Cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol gynnwys Pentir yn etholaeth arfaethedig 'Aberconwy' hefyd, ac er mwyn gwneud hyn, gwnaethant ddileu wardiau etholiadol Llangernyw ac Uwchaled o etholaeth a oedd yn cynnwys Conwy er mwyn cynnig etholaethau a oedd yn dod o fewn Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig. Roedd

cynnig Plaid Cymru yn cynnwys ail-lunio ffiniau etholaethau yng ngogledd Cymru i greu etholaeth arfaethedig ‘Menai’ a oedd yn cynnwys Caernarfon a Bangor; fodd bynnag, roedd y cynllun hwn yn rhannu Cymuned Conwy rhwng etholaethau.

3.9 Daeth adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol i’r casgliad fod gwahaniaeth barn ynglŷn â ffurfweddiad yr etholaethau yn yr ardal. Cynigiodd y Comisiynwyr Cynorthwyol gynnwys Pentir, Bethesda a Phenrhosgarnedd gyda gweddill Dinas Bangor ac etholaeth bresennol Arfon mewn etholaeth arfaethedig ‘Menai’. Gwnaethant hefyd gynnig cynnwys ardal gyfan Cyngor Tref Bae Colwyn mewn un etholaeth arfaethedig. Fodd bynnag, wrth greu’r etholaethau hyn, rhannodd y Comisiynwyr Cynorthwyol Gymuned Abergele.

3.10 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau a gafwyd a chynigion y Comisiynwyr Cynorthwyol, er bod y Comisiwn o blaid y trefniadau amgen a gynigiwyd gan y Comisiynwyr Cynorthwyol, nid oedd y Comisiwn o’r farn bod yr amgylchiadau’n cyfiawnhau rhannu Cymuned Abergele gan fod opsiynau eraill hyfyw ar gael yn yr ardal. Roedd y Comisiwn yn cytuno â’r cynrychiolaethau a ddywedodd fod ward Pentir yn estyniad o Ddinas Bangor ac felly y dylai gael ei chynnwys yn yr un etholaeth. Roedd y Comisiwn o’r farn bod yr ardaloedd hyn wedi’u cysylltu’n dda gan gysylltiadau trafnidiaeth a’u bod yn debyg o ran cymeriad. Roedd y Comisiwn hefyd yn cytuno â’r cynrychiolaethau a oedd yn datgan na ddylai ardal Cyngor Tref Bae Colwyn gael ei rhannu ar draws etholaethau.

3.11 Felly, yn ei gynigion diwygiedig, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o’r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Conwy (sy’n ffurfio etholaeth sirol bresennol Aberconwy ar hyn o bryd):

Betws-y-Coed (967), Bryn (1,390), Caerhun (1,677), Capelulo (1,284), Conwy (3,295), Craig-y-Don (2,685), Crwst (1,581), Deganwy (3,289), Eglwys-bach (1,257), Gogarth (2,795), Gower (850), Llansanffraid

(1,814), Marl (3,539), Mostyn (2,758), Pandy (1,463), Pant-yr-Afon/Penmaenan (2,167), Penrhyn (3,874), Pensarn (2,274), Trefriw (1,026), Tudno (3,591) ac Uwch Conwy (1,276);

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Conwy (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Clwyd West ar hyn o bryd):

Betws-yn-Rhos (1,623), Llangernyw (1,104), Llansannan (1,495) ac Uwchaled (1,139);

3. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Sir Ddinbych (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Clwyd West ar hyn o bryd):

Efenechtyd (1,321) a Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch (1,496); a'r

4. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gwynedd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Arfon ar hyn o bryd):

Arllechwedd (1,091), Deiniol (920), Dewi (1,301), Garth (556), Gerlan (1,696), Glyder (1,257), Hendre (940), Hirael (1,066), Marchog (1,579), Menai (Bangor) (1,548), Ogwen (1,697), Pentir (2,159) a Thregarth a Mynydd Llandygai (1,628).

3.12 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 70,468 o etholwyr, sydd 4% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol a gynigiwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Bangor Aberconwy.

3.13 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu'r trefniant a gynigiwyd a oedd yn rhannu Bethesda a Bangor oddi wrth weddill sir Gwynedd. Fodd bynnag, cafodd y Comisiwn rywfaint o gefnogaeth i gynnwys ward etholiadol Pentir o fewn etholaeth arfaethedig 'Bangor Aberconwy', sef newid a wnaed er mwyn ymateb i'r sylwadau a gafwyd ar y cynigion cychwynnol. Roedd y Blaid Geidwadol a Phlaid

Lafur Cymru yn cefnogi'r cynnig diwygiedig.

3.14 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau a gafwyd ac mae wedi penderfynu argymell yr etholaeth fel y'i cynigiwyd yn ei adroddiad cynigion diwygiedig. Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod rhywfaint o wrthwynebiad i'r cynnig diwygiedig; fodd bynnag, roedd y cynnig yn adlewyrchu sylwadau a gafwyd yn ystod y camau ymgynghori cynharach. Roedd rhai o'r trefniadau amgen a gynigiwyd mewn cynrychiolaethau a gafwyd yn codi materion a fynegwyd yn ystod y camau ymgynghori cynharach. At ei gilydd, mae'r Comisiwn o'r farn na fyddai'n gallu creu etholaethau ymarferol ar draws rhanbarth gogledd Cymru pe byddai'n cynnwys ardal Bethesda o fewn yr etholaeth argymelledig hon. Mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn synhwyrol cynnwys ward etholiadol Pentir gyda Bangor o ganlyniad i'w chysylltiadau lleol cyffredin, fel yr amlygwyd yn y cynrychiolaethau a gafwyd yn ystod y cyfnodau ymgynghori.

Enw argymelledig yr etholaeth

3.15 Yr enw unigol a argymhellir ar gyfer yr etholaeth hon yw Bangor Aberconwy.


3.16 Cafodd y Comisiwn dystiolaeth a oedd yn awgrymu y dylai enw'r etholaeth gael ei newid i Aberconwy a Bangor i adlewyrchu'r 2 ardal wahanol sydd wedi'u cynnws yn yr etholaethau arfaethedig. Ystyriodd y Comisiwn yr enw Bangor a Chonwy hefyd yn unol â'r cynrychiolaethau a gafwyd.

3.17 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol newid sylweddol i'r trefniadau daearyddol, felly gwnaethant gynnig enwau amgen.

3.18 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynnig diwygiedig, cafodd y Comisiwn 1 gynrychiolaeth ynglŷn ag enw'r etholaeth arfaethedig a oedd yn awgrymu'r enw 'Bangor ac Aberconwy'.

3.19 Mae’r Comisiwn o’r farn bod yr enw Bangor Aberconwy yn adlewyrchu’r ardal ddaearyddol y byddai’r etholaeth argymelledig hon yn ei chynrychioli yn y ffordd orau. Mae’r enw’n cynrychioli’r 2 brif anheddiad yn yr ardaloedd yr argymhellir eu cyfuno yn yr etholaeth. Mae’r Comisiwn o’r farn bod yr enw’n adnabyddadwy ac yn dderbyniol yn Gymraeg a Saesneg.

# Bangor Aberconwy



## 4. Blaenau Gwent and Rhymney (Blaenau Gwent a Rhymni)

Argymhelliad

**4.1 Mae'r Comisiwn yn argymell creu etholaeth sirol o'r:**

**1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol Blaenau Gwent ar hyn o bryd):**

**Abertyleri (3,074), Badminton (2,452), Cendl (2,717), Blaenau (3,497), Brynmawr (4,028), Cwm (3,254), Cwmtyleri (3,383), Gogledd Glynebwy (3,268), De Glynebwy (2,959), Georgetown (3,091), Llanhilleth (3,387), Nantyglo (3,350), Rasa (2,463), Sirhywi (4,210), Six Bells (1,740), a Chanol a Gorllewin Tredegar (4,027);**

**2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Merthyr Tydfil and Rhymney ar hyn o bryd):**

**Cwm Darran (1,870), Moriah (3,128), Tredegar Newydd (3,357), Pontlotyn (1,432), a Thwyn Carno (1,721);**

**3. Ward etholiadol Aberbargoed (2,706) o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Islwyn ar hyn o bryd); a'r**

**4. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Caerphilly ar hyn o bryd):**

**Bargoed (4,431) a Gilfach (1,534).**

**4.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 71,079 o etholwyr, sydd 3.2% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth.**

**4.3 Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw swyddogol Blaenau Gwent and Rhymney ar gyfer**

**yr etholaeth hon a'r enw amgen swyddogol Blaenau Gwent a Rhymni.**

Cefndir

4.4 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiodd greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol Blaenau Gwent ar hyn o bryd):

Abertyleri (3,074), Badminton (2,452), Cendl (2,717), Blaenau (3,497), Brynmawr (4,028), Cwm (3,254), Cwmtyleri (3,383), Gogledd Glynebwy (3,268), De Glynebwy (2,959), Georgetown (3,091), Llanhilleth (3,387), Nantyglo (3,350), Rasa (2,463), Sirhywi (4,210), Six Bells (1,740), a Chanol a Gorllewin Tredegar (4,027);

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Merthyr Tydfil and Rhymney ar hyn o bryd):

Cwm Darran (1,870), Moriah (3,128), Tredegar Newydd (3,357), Pontlotyn (1,432), a Thwyn Carno (1,721);

3. Ward etholiadol Aberbargoed (2,706) o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Islwyn ar hyn o bryd); a'r

4. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Caerphilly ar hyn o bryd):

Bargoed (4,431) a Gilfach (1,534).

4.5 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 71,079 o etholwyr, sydd 3.2% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth

oedd Blaenau Gwent and Rhymney. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd oedd Blaenau Gwent a Rhymni.

4.6 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn cefnogi'r cynnig cychwynnol, gan ddadlau bod cyfuno'r ardaloedd fel y cynigir yn darparu etholaeth gywasgedig a hygyrch gyda chysylltiadau trafnidiaeth cryf trwy ffyrdd a rheilffyrdd. Dadleuodd y cynrychiolaethau hefyd fod yr ardaloedd cyfunol yn rhannu cysylltiadau lleol trwy dreftadaeth ddiwydiannol gyffredin glo, haearn a dur, a bod yr etholaeth arfaethedig yn gyfan gwbl o fewn ardaloedd Heddlu Gwent a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

4.7 Cafodd y Comisiwn 4 cynrychiolaeth yn erbyn yr etholaeth arfaethedig; roedd 2 o'r cynrychiolaethau hyn yn dadlau bod cyfuno'r ardaloedd fel y cynigir yn golygu bod 2 o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn economaidd ac yn gymdeithasol yn cael eu gosod gyda'i gilydd. Cynigiodd Plaid Cymru drefniant amgen a oedd yn creu etholaethau amgen newydd yn yr ardal. Roedd etholaeth arfaethedig 'Sirhywi' yn cyfuno gogledd Cwm Rhymni ag etholaeth bresennol Islwyn, ac roedd etholaeth arfaethedig 'Blaenau Gwent a Phont-y-pŵl' yn gweld etholaeth bresennol Blaenau Gwent yn cael ei chyfuno ag ardaloedd o etholaeth bresennol Torfaen.

4.8 Roedd adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol yn cefnogi'r cynnig cychwynnol yn llwyr ac yn nodi'r gefnogaeth gan yr Aelod Seneddol presennol dros Flaenau Gwent.

4.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau a gafodd ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, roedd y Comisiwn yn parhau i gredu bod ei gynnig cychwynnol yn cyfuno ardaloedd sy'n rhannu cysylltiadau trafnidiaeth da, ac yn ffurfio etholaeth gydlynol. Roedd etholaeth arfaethedig 'Blaenau Gwent a Rhymni' hefyd yn caniatáu i'r Comisiwn ddychwelyd cymuned gyfan Bargoed i un etholaeth ac yn galluogi'r Comisiwn i gadw at Reol 5 y ddeddfwriaeth. Nododd y Comisiwn hefyd fod cefnogaeth drawsbleidiol gyffredinol i'r cynnig gan yr holl bleidiau cymwys, heblaw am Blaid Cymru.

4.10 Felly, yn ei gynigion diwygiedig, cadwodd y Comisiwn ei gynnig i greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol Blaenau Gwent ar hyn o bryd):
Abertyleri (3,074), Badminton (2,452), Cendl (2,717), Blaenau (3,497), Brynmawr (4,028), Cwm (3,254), Cwmtyleri (3,383), Gogledd Glynebwy (3,268), De Glynebwy (2,959), Georgetown (3,091), Llanhilleth (3,387), Nantyglo (3,350), Rasa (2,463), Sirhywi (4,210), Six Bells (1,740), a Chanol a Gorllewin Tredegar (4,027);

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Merthyr Tydfil and Rhymney ar hyn o bryd):
Cwm Darran (1,870), Moriah (3,128), Tredegar Newydd (3,357), Pontlotyn (1,432), a Thwyn Carno (1,721);

3. Ward etholiadol Aberbargoed (2,706) o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Islwyn ar hyn o bryd); a'r

4. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Caerphilly ar hyn o bryd):
Bargoed (4,431) a Gilfach (1,534).

4.11 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 71,079 o etholwyr, sydd 3.2% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Blaenau Gwent and Rhymney. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd oedd Blaenau Gwent a Rhymni.

4.12 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn 2 gynrychiolaeth a oedd yn gwrthwynebu'r etholaeth arfaethedig. Dywedodd 1 gynrychiolaeth fod gan breswylwyr mewn rhannau o Gwm Rhymni fwy yn gyffredin a chysylltiadau gwell â Chaerffili. Fodd bynnag, cafodd y Comisiwn gefnogaeth i'r etholaeth arfaethedig hefyd gan y Blaid Geidwadol a Phlaid Lafur Cymru, yn ogystal â chan aelod o'r cyhoedd a oedd yn llwyr gefnogi'r etholaeth arfaethedig.

4.13 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau a gafwyd ac mae wedi argymell cadw'r cynnig gan ei fod yn cyfuno ardaloedd sy'n rhannu cysylltiadau trafnidiaeth da ac yn ffurfio etholaeth gydlynol. Mae'r etholaeth argymelledig hefyd yn caniatáu i'r Comisiwn ddychwelyd cymuned gyfan Bargoed i un etholaeth.

Enw argymelledig yr etholaeth

4.14 Yr enw swyddogol a argymhellir ar gyfer yr etholaeth yw Blaenau Gwent and Rhymney. Yr enw amgen swyddogol a argymhellir yw Blaenau Gwent a Rhymni.

4.15 Cafodd y Comisiwn dystiolaeth a oedd yn cefnogi cadw'r enw a gynigiwyd yn wreiddiol ar gyfer yr etholaeth. Yr unig enw amgen a gynigiwyd oedd gan Blaid Cymru, a gynigiodd etholaethau amgen yn yr ardal.


4.16 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol gadw enw'r etholaeth a gynigiwyd yn wreiddiol.

4.17 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynnig diwygiedig, cafodd y Comisiwn 1 gynrychiolaeth ynglŷn ag enw'r etholaeth arfaethedig a awgrymodd yr enw 'Blaenau Gwent a Chwm Rhymni.'

4.18 Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr enw Blaenau Gwent and Rhymney, gyda'r enw amgen swyddogol Blaenau Gwent a Rhymni, yn adlewyrchu'r ardal ddaearyddol y byddai'r etholaeth

argymelledig hon yn ei chynrychioli yn y ffordd orau. Mae’r enw’n cynrychioli’r 2 brif anheddiad yn yr ardaloedd yr argymhellir eu cyfuno yn yr etholaeth.

# Blaenau Gwent a Rhymni



## 5. Brecon, Radnor and Cwm Tawe (Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe)

Argymhelliad

**5.1 Mae'r Comisiwn yn argymell bod etholaeth sirol yn cael ei chreu o'r:**

**1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Powys (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol Brecon and Radnorshire ar hyn o bryd):**

**Aber-craf (1,143), Bugeildy (1,135), Bronllys (1,060), Llanfair-ym-Muallt (1,849), Bwlch (800), Crucywel (2,410), Cwm-twrch (1,557), Diserth a Threcoed (1,055), Felin-fach (1,102), y Clas-ar-Wy (1,901), Gwernyfed (1,178), y Gelli Gandryll (1,355), Trefyclo (2,296), Llanafan Fawr (1,141), Llanbadarn Fawr (925), Dwyrain Llandrindod/Gorllewin Llandrindod (949), Gogledd Llandrindod (1,517), De Llandrindod (1,726), Llanelwedd (987), Llangatwg (762), Llan-gors (901), Llangunllo (1,071), Llangynidr (865), Llanwrtyd Wells (1,450), Llanllŷr (978), Maes-car/Llywel (1,405), Nantmel (1,243), Pencraig (1,375), Llanandras (2,174), Rhaeadr (1,589), St. David Within (1,263), St. John (2,365), St. Mary (2,194), Talgarth (1,305), Tal-y-bont ar Wysg (1,537), Tawe Uchaf (1,763), Ynyscedwyn (1,705), Ysgir (888) ac Ystradgynlais (1,935); a'r**

**2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Neath ar hyn o bryd):**

**Allt-wen (2,023), Cwmllynfell (921), Godre'r Graig (1,514), Gwauncaegurwen (2,220), Brynaman Isaf (1,040), Pontardawe (4,283), Rhos (1,997), Trebanos (1,092) ac Ystalyfera (2,169).**

**5.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,113 o etholwyr, sydd 1.7% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth.**

**5.3 Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw swyddogol Brecon, Radnor and Cwm Tawe ar gyfer yr etholaeth hon, a'r enw amgen swyddogol Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe.**

Cefndir

5.4 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiodd greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Powys (sy'n ffurfio o etholaeth sirol bresennol Brecon and Radnorshire ar hyn o bryd):

Aber-craf (1,143), Bugeildy (1,135), Bronllys (1,060), Llanfair-ym-Muallt (1,849), Bwlch (800), Crucywel (2,410), Cwm-twrch (1,557), Diserth a Threcoed (1,055), Felin-fach (1,102), y Clas-ar-Wy (1,901), Gwernyfed (1,178), y Gelli Gandryll (1,355), Trefyclo (2,296), Llanafan Fawr (1,141), Llanbadarn Fawr (925), Dwyrain Llandrindod/Gorllewin Llandrindod (949), Gogledd Llandrindod (1,517), De Llandrindod (1,726), Llanelwedd (987), Llangatwg (762), Llan-gors (901), Llangunllo (1,071), Llangynidr (865), Llanwrtyd Wells (1,450), Llanllŷr (978), Maes-car/Llywel (1,405), Nantmel (1,243), Pencraig (1,375), Llanandras (2,174), Rhaeadr (1,589), St. David Within (1,263), St. John (2,365), St. Mary (2,194), Talgarth (1,305), Tal-y-bont ar Wysg (1,537), Tawe Uchaf (1,763), Ynyscedwyn (1,705), Ysgir (888) ac Ystradgynlais (1,935); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Neath ar hyn o bryd):

Allt-wen (2,023), Cwmllynfell (921), Godre'r Graig (1,514), Gwauncaegurwen (2,220), Brynaman Isaf (1,040), Pontardawe (4,283), Rhos (1,997), Trebanos (1,092) ac Ystalyfera (2,169).

5.5 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,113 o etholwyr, sydd 1.7% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Brecon and Radnor. Yr enw swyddogol amgen a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Aberhonddu a Maesyfed.

5.6 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu cynnwys y wardiau etholiadol o Gwm Tawe yn yr etholaeth arfaethedig. Roedd y cynrychiolaethau hyn yn dadlau yn erbyn cynnwys yr ardal hon mewn etholaeth wledig iawn lle y byddai'r canol yn bell yn ddaearyddol.

Fodd bynnag, dywedodd nifer o'r cynrychiolaethau a gafwyd mai'r anheddiad trefol mwyaf yn etholaeth bresennol Brecon and Radnorshire oedd Ystradgynlais yn ardal dde-orllewinol yr etholaeth, ac felly byddai ychwanegu wardiau Pontardawe a'r ardal amgylchynol at yr etholaeth bresennol yn rhesymegol oherwydd bod yr ardaloedd yn rhannu cysylltiadau ffyrdd da.

5.7 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn cynnig trefniadau amgen. Cynigiodd Plaid Cymru ymestyn etholaeth bresennol Brecon and Radnorshire i Sir Fynwy trwy ei chyfuno â'r Fenni, a chynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol ei hymestyn i Sir Drefaldwyn. Ni chynigiodd y Blaid Geidwadol na Phlaid Lafur Cymru unrhyw newidiadau i'r cynnig cychwynnol. Pwysleisiodd cyflwyniad y Ceidwadwyr fod 30% o'r etholwyr presennol yn etholaeth bresennol Brecon and Radnorshire yn ardal Ystradgynlais, a dadleuodd fod ychwanegu'r ardaloedd a gynigiwyd yn y cynigion cychwynnol yn estyniad naturiol o'r etholaeth bresennol.

5.8 Cydnabu adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol fod beth bynnag sy'n digwydd i etholaeth bresennol Brecon and Radnorshire yn cael effaith sylweddol ar y cynigion ar gyfer gweddill Cymru. Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad y dylai ardal Cwm Tawe gael ei chynnwys mewn etholaeth gyda wardiau yn Abertawe. Gwnaethant ddadlau bod achos cryfach, o bosibl, dros gynnwys ardal Ystradgynlais mewn etholaeth i'r de; fodd bynnag, cydnabuont fod hyn yn anodd o ganlyniad i'r rhifyddeg a ffactorau statudol. Daeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad mai'r peth gorau fyddai cynnwys rhannau o Sir Drefaldwyn mewn etholaeth arfaethedig gydag etholaeth bresennol Brecon and Radnorshire o ganlyniad i'r cysylltiadau â Chyngor Sir Powys.

5.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau a gafwyd ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae'r Comisiwn yn cydnabod y dadleuon a gyflwynwyd yn erbyn y cynnig cychwynnol. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn bwriadu cadw'r cynnig cychwynnol. Nododd y Comisiwn mai'r dref fwyaf yn

etholaeth bresennol Brecon and Radnorshire yw Ystradgynlais, sy'n rhan o Gwm Tawe ac sydd â chysylltiadau da ag ardaloedd Pontardawe ac Ystradgynlais y bwriedir eu hychwanegu at yr etholaeth bresennol. Mae'r holl gymunedau hyn o fewn Cwm Tawe ac maen nhw'n debyg o ran natur ac yn rhannu cysylltiadau da. Ystyriodd y Comisiwn y trefniadau amgen a gyflwynwyd, ond credai fod y cynnig cychwynnol yn tarfu lleiaf ar draws yr etholaethau amgylchynol. Roedd gwneud newidiadau i'r cynigion cychwynnol yn effeithio ar Gymru gyfan ac yn effeithio ar gynigion eraill a gefnogir yn dda.

5.10 Felly, yn ei gynigion diwygiedig, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Powys (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol Brecon and Radnorshire):

Aber-craf (1,143), Bugeildy (1,135), Bronllys (1,060), Llanfair-ym-Muallt (1,849), Bwlch (800), Crucywel (2,410), Cwm-twrch (1,557), Diserth a Threcoed (1,055), Felin-fach (1,102), y Clas-ar-Wy (1,901), Gwernyfed (1,178), y Gelli Gandryll (1,355), Trefyclo (2,296), Llanafan Fawr (1,141), Llanbadarn Fawr (925), Dwyrain Llandrindod/Gorllewin Llandrindod (949), Gogledd Llandrindod (1,517), De Llandrindod (1,726), Llanelwedd (987), Llangatwg (762), Llan-gors (901), Llangunllo (1,071), Llangynidr (865), Llanwrtyd Wells (1,450), Llanllŷr (978), Maes-car/Llywel (1,405), Nantmel (1,243), Pencraig (1,375), Llanandras (2,174), Rhaeadr (1,589), St. David Within (1,263), St. John (2,365), St. Mary (2,194), Talgarth (1,305), Tal-y-bont ar Wysg (1,537), Tawe Uchaf (1,763), Ynyscedwyn (1,705), Ysgir (888) ac Ystradgynlais (1,935); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Neath ar hyn o bryd):

Allt-wen (2,023), Cwmllynfell (921), Godre'r Graig (1,514), Gwauncaegurwen (2,220), Brynaman Isaf (1,040), Pontardawe (4,283), Rhos (1,997), Trebanos (1,092) ac Ystalyfera (2,169).

5.11 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,113 o etholwyr, sydd 1.7% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigiwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Brecon, Radnor and Cwm-tawe. Yr enw swyddogol amgen a gynigiwiyd ar gyfer yr etholaeth oedd Aberhonddu, Maesyfed a Chwm-tawe.

5.12 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gryn wrthwynebiad i'r cynnig hwn. Roedd yr ymatebion yn canolbwyntio ar gyfuno Cwm Tawe Uchaf ag etholaeth bresennol Brecon and Radnorshire. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a oedd yn cefnogi'r gwrthgynnig a wnaed gan y Comisiynwyr Cynorthwyol ar gyfer etholaeth arfaethedig 'Dyffryn Lliw'. Yn ogystal, cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth gan yr Aelod rhanbarthol o'r Senedd dros Orllewin De Cymru yn dadlau y dylai Cwm Tawe Uchaf gael ei chynnwys yn un o etholaethau arfaethedig Abertawe o ganlyniad i'r cysylltiadau lleol a'r cyffredinedd rhwng y ddwy ardal.

5.13 Roedd y Blaid Geidwadol yn llwyr gefnogi cynnig y Comisiwn ac yn croesawu ychwanegu Cwm-tawe at enw'r etholaeth er mwyn adlewyrchu'r ardal sy'n cael ei hychwanegu yn well. Cydnabu Plaid Lafur Cymru yr anawsterau sy'n gysylltiedig â chreu etholaethau yn ne Cymru pan fo ardal Cwm Tawe Uchaf yn cael ei chynnwys mewn etholaeth wedi'i seilio ar Abertawe neu Gastell-nedd. Roeddent yn cytuno mai cynnig y Comisiwn oedd yr opsiwn 'lleiaf gwael' ar gyfer yr ardal er mwyn caniatáu ar gyfer creu etholaethau mwy cydlynol mewn mannau eraill ledled de Cymru.

5.14 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau a gafwyd ac mae wedi penderfynu argymell yr etholaeth fel y'i cynigiwyd yn ei gynigion cychwynnol a diwygiedig. Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod gwrthwynebiad cryf i'r argymhelliad hwn; fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn nodi bod y dref fwyaf yn etholaeth bresennol Brecon and Radnorshire o fewn Cwm Tawe ac mae'n ystyried bod gan y dref hon gysylltiadau da â'r ardaloedd y mae'n argymell y dylid eu hychwanegu at etholaeth bresennol

Brecon and Radnorshire. Mae'r holl gymunedau hyn o fewn Cwm Tawe ac maen nhw hefyd yn debyg o ran natur ac yn rhannu cysylltiadau da. Mewn cyferbyniad, byddai'r newidiadau canlyniadol a fyddai'n ofynnol o ganlyniad i ffurfio etholaeth arfaethedig 'Dyffryn Lliw' yn tarfu ymhellach ar etholaethau eraill ledled Cymru.

<u>Enw argymelledig yr etholaeth</u>

5.15 Yr enw a argymhellir ar gyfer yr etholaeth yw Brecon, Radnor and Cwm Tawe. Yr enw amgen swyddogol a argymhellir ar gyfer yr etholaeth yw Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe.

5.16 Cynigiodd y Comisiwn yr enw Brecon and Radnor i ddechrau. Cafodd y Comisiwn enwau amgen a threfniadau daearyddol amgen ar gyfer yr ardaloedd a gynhwyswyd yn y cynnig cychwynnol, gan gynnwys 'Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe Uchaf' ac 'Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe'.


5.17 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol gyfansoddiad daearyddol gwahanol, ac felly gwnaethant gynnig enwau amgen.

5.18 Yn ei adroddiad ynglŷn â'r cynigion diwygiedig, cynigiodd y Comisiwn ddiwygio enw'r etholaeth arfaethedig hon i Brecon, Radnor and Cwm-tawe, gyda'r enw amgen swyddogol Aberhonddu, Maesyfed a Chwm-tawe, ar y sail bod hyn yn adlewyrchu'r etholaeth arfaethedig gyfan yn well. Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynnig diwygiedig, cafodd y Comisiwn 1 gynrychiolaeth ynglŷn ag enw'r etholaeth arfaethedig gan Gomisiynydd y Gymraeg, yn datgan nad yw ffurf gywir yr enw'n cynnwys cysylltnod, ac felly'n cynnig yr enw 'Brecon, Radnor and Cwm Tawe' a'r enw Cymraeg 'Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe'.

5.19 Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr enw Brecon, Radnor and Cwm Tawe, gyda'r enw amgen swyddogol Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe, yn adlewyrchu'r ardal ddaearyddol y byddai'r

etholaeth argymelledig hon yn ei chynrychioli yn y ffordd orau, ac y byddai etholwyr yn teimlo mwy o gysylltiad ag ef. Mae'r enw'n cynrychioli'r ardaloedd yr argymhellir eu cyfuno yn yr etholaeth.

# Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe



## 6. Bridgend (Pen-y-bont)

Argymhelliad

**6.1 Mae'r Comisiwn yn argymell bod etholaeth sirol yn cael ei chreu o'r:**

**1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Ogmore ar hyn o bryd):**

**Abercynffig (1,868), Bryncethin (1,261), Bryncoch (1,757), Cefn Cribwr (1,180), Felindre (2,087), Hendre (3,175), Penprysg (2,474), Sarn (1,786), ac Ynysawdre (2,748); a'r**

**2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol Bridgend ar hyn o bryd):**

**Bracla (8,276), Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr (6,574), Cefn Glas (1,360), Coety (3,006), Llangrallo Isaf (1,160), Litchard (2,080), Llangewydd a Brynhyfryd (1,878), Morfa (3,210), y Castellnewydd (4,287), Drenewydd (3,035), Notais (2,741), Oldcastle (3,783), Pendre (1,654) a Phen-y-fai (1,853), Canol Dwyrain Porthcawl (2,580), Canol Gorllewin Porthcawl (2,967) a Rest Bay (1,990).**

**6.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 70,770 o etholwyr, sydd 3.6% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth.**

**6.3 Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw swyddogol Bridgend ar gyfer yr etholaeth hon, a'r enw amgen swyddogol Pen-y-bont.**

Cefndir

6.4 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiodd greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont (sy'n ffurfio rhan o

etholaeth sirol bresennol Ogmore ar hyn o bryd):

Abercynffig (1,868), Betws (1,595), Melin Ifan Ddu (1,839), Blaengarw (1,333), Bryncethin (1,261), Bryncoch (1,757), Caerau (4,795), Cefn Cribwr (1,180), Felindre (2,087), Hendre (3,175), Llangeinwyr (887), Llangynwyd (2,351), Dwyrain Maesteg (3,741), Gorllewin Maesteg (4,327), Nant-y-moel (1,745), Bro Ogwr (2,357), Penprysg (2,474), Pontycymer (1,773), Sarn (1,786), ac Ynysawdre (2,748); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol Bridgend ar hyn o bryd):

Bracla (8,276), Coety (3,006), Llangrallo Isaf (1,160), Litchard (2,080), Morfa (3,210), y Castellnewydd (4,287), Oldcastle (3,783), Pendre (1,654) a Phen-y-fai (1,853).

6.5 Byddai'r etholaeth hon wedi cynnwys 74,388 o etholwyr, sydd 1.4% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Bridgend. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth hon oedd Pen-y-bont.

6.6 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a gododd bryderon ynglŷn â rhannu Canol Tref Pen-y-bont rhwng 2 etholaeth, gan na fyddai wardiau etholiadol Cefn Glas, a Llangewydd a Brynhyfryd yn cael eu cynnwys yn y cynnig cychwynnol ar gyfer etholaeth 'Pen-y-bont'. Dywedodd y cynrychiolaethau ei bod yn afresymegol cymryd rhan o Ben-y-bont a'i rhoi mewn etholaeth gyfagos.

6.7 Rhoddodd nifer o gynrychiolaethau drefniadau amgen ar gyfer yr ardal. Cytunodd y Blaid Geidwadol â'r cynrychiolaethau a gafwyd a chynigiodd etholaeth 'Pen-y-bont' a oedd yn cynnwys Porthcawl ac ardal Canol Tref Pen-y-bont, ac etholaeth 'Aberafan Maesteg' a oedd yn uno Aberafan ag Ogwr trwy Gwm Gwynfi. Ni chynigiodd Plaid Lafur Cymru unrhyw newidiadau i'r cynigion cychwynnol. Cynigiodd Plaid Cymru etholaeth 'Pen-y-bont' a oedd yn dilyn ffin eithaf tebyg i'r cynnig cychwynnol

ac yn mynd i’r afael â’r cynrychiolaethau a gafwyd; fodd bynnag, byddai eu cynnig yn rhannu cymuned Trelales rhwng dwy etholaeth arfaethedig. Roedd cyflwyniad y Democratiaid Rhyddfrydol yn cynnig rhannu ardal Pen-y-bont rhwng 3 etholaeth. Roedd Canol Tref Pen-y-bont i’w uno â Phorthcawl i ffurfio etholaeth ‘Pen-y-bont’. Roedd Bro Ogwr i’w chyfuno â rhannau o etholaeth bresennol Rhondda, gyda Maesteg yn ymuno ag etholaeth arfaethedig ‘Aberafan gyda Maesteg a De-ddwyrain Abertawe’.

6.8 Cytunodd adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol hefyd ei bod yn bwysig dychwelyd yr ardal a welir fel estyniad o dref Pen-y-bont i etholaeth ‘Pen-y-bont’. I gyflawni hyn, gwnaethant gynnig rhannu cymuned Trelales rhwng 2 etholaeth.

6.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau a gafwyd ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, roedd y Comisiwn o blaid y trefniadau amgen a gynigiwyd; fodd bynnag, nid oedd y Comisiwn o’r farn bod yr amgylchiadau’n cyfiawnhau rhannu cymuned Trelales rhwng 2 etholaeth gan fod opsiynau eraill hyfyw ar gael yn yr ardal. Roedd y Comisiwn yn cytuno â’r cynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu’r cynnig cychwynnol i rannu Canol Tref Pen-y-bont rhwng 2 etholaeth. Cytunodd y dylai ardal canol tref Pen-y-bont i gyd gael ei dychwelyd i etholaeth arfaethedig ‘Pen-y-bont’ (trosglwyddo wardiau etholiadol Cefn Glas a Llangewydd a Brynhyfryd i’r etholaeth hon). Roedd y Comisiwn yn gallu gwneud hyn heb greu cymuned hollt trwy drosglwyddo ardal Pencoed (gan gynnwys wardiau etholiadol Felindre, Hendre a Phenprysg) allan o’r cynnig cychwynnol.

6.10 Felly, yn ei gynigion diwygiedig, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o’r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont (sy’n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Ogmore ar hyn o bryd):

Abercynffig (1,868), Betws (1,595), Melin Ifan Ddu (1,839), Blaengarw (1,333), Bryncethin (1,261), Bryncoch (1,757), Caerau (4,795), Cefn Cribwr (1,180), Llangeinwyr (887), Llangynwyd (2,351), Dwyrain

Maesteg (3,741), Gorllewin Maesteg (4,327), Nant-y-moel (1,745), Bro Ogwr (2,357), Pontycymer (1,773), Sarn (1,786), ac Ynysawdre (2,748); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol Bridgend ar hyn o bryd):

Bracla (8,276), Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr (6,574), Cefn Glas (1,360), Coety (3,006), Llangrallo Isaf (1,160), Litchard (2,080), Llangewydd a Brynhyfryd (1,878), Morfa (3,210), y Castellnewydd (4,287), Oldcastle (3,783), Pendre (1,654) a Phen-y-fai (1,853).

6.11 Byddai'r etholaeth hon wedi cynnwys 76,464 o etholwyr, sydd 4.2% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigiwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Bridgend. Yr enw amgen swyddogol a gynigiwyd ar gyfer yr etholaeth hon oedd Pen-y-bont.

6.12 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gryn wrthwynebiad i gynnwys tref Pencoed mewn etholaeth arfaethedig 'Rhondda'. Dywedodd y sylwadau fod Pencoed yn rhan o Ben-y-bont ac yn rhannu ei chysylltiadau cymunedol a lleol ag ardal Pen-y-bont. Cafodd y Comisiwn 2 wrthgynnig a oedd yn galluogi cynnwys Pencoed mewn etholaeth 'Pen-y-bont'. Y cyntaf o'r gwrthgynigion hyn oedd trosglwyddo Cwm Ogwr a Chwm Garw (h.y. wardiau etholiadol Betws, Melin Ifan Ddu, Blaengarw, Llangeinwyr, Nant-y-moel, Bro Ogwr a Phontycymer) i etholaeth arfaethedig 'Rhondda' a throsglwyddo Pencoed (h.y. wardiau etholiadol Felindre, Hendre a Phenprysg) i etholaeth arfaethedig 'Pen-y-bont'. Roedd yr ail wrthgynnig a gafwyd, a oedd yn cefnogi'r newidiadau a wnaed yn y gwrthgynnig cyntaf, yn rhan o drefniant ehangach a oedd hefyd yn gwrthwynebu cynnwys tref Sgiwen mewn etholaeth arfaethedig 'Aberafan'. Roedd y trefniant arfaethedig yn cynnwys Sgiwen mewn etholaeth 'Abertawe'. Cafodd y Comisiwn sylwadau a oedd yn dweud y dylai tref Sgiwen gael ei chynnwys mewn etholaeth arfaethedig 'Castell-nedd' neu 'Abertawe'.

6.13 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau a gafwyd ac mae'n cytuno mai'r etholaeth fwyaf priodol i gynnwys tref Pencoed ynddi yw etholaeth arfaethedig 'Pen-y-bont'. Mae'r Comisiwn hefyd yn cytuno â'r ail wrthgynnig y cyfeiriwyd ato uchod, sef y dylai tref Sgiwen gael ei chynnwys mewn etholaeth arfaethedig 'Abertawe'. Yn unol â hynny, mae'r Comisiwn yn argymell bod wardiau etholiadol Felindre, Hendre, Penprysg, Drenewydd, Notais, Canol Dwyrain Porthcawl, Canol Gorllewin Porthcawl a Rest Bay yn cael eu trosglwyddo i etholaeth argymelledig Pen-y-bont, bod wardiau etholiadol Caerau, Llangynwyd, Dwyrain Maesteg a Gorllewin Maesteg yn cael eu trosglwyddo i etholaeth argymelledig Aberafan Maesteg, a bod wardiau etholiadol Betws, Melin Ifan Ddu, Blaengarw, Llangeinwyr, Nant-y-moel, Bro Ogwr a Phontycymer yn cael eu trosglwyddo i etholaeth argymelledig Rhondda ac Ogwr. Mae'r argymhelliad hwn hefyd yn mynd i'r afael â rhai cynrychiolaethau nad oeddent yn cefnogi cynnwys tref Porthcawl gydag ardal Aberafan.

Enw argymelledig yr etholaeth

6.14 Yr enw a argymhellir ar gyfer yr etholaeth yw Bridgend. Yr enw amgen swyddogol a argymhellir ar gyfer yr etholaeth hon yw Pen-y-bont.

6.15 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a awgrymodd y dylai enw Cymraeg yr etholaeth gael ei newid i 'Ben-y-bont ar Ogwr'.


6.16 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol gyfansoddiad daearyddol gwahanol, ac felly gwnaethant gynnig enwau amgen.

6.17 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynnig diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a awgrymodd y dylai enw'r etholaeth arfaethedig gynnwys 'Ogwr' hefyd.

6.18 Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr enw Bridgend, gyda'r enw amgen swyddogol Pen-y-bont,

yn adlewyrchu'r ardal ddaearyddol y byddai'r etholaeth argymelledig hon yn ei chynrychioli yn y ffordd orau. Mae'r etholaeth argymelledig wedi'i ffurfio o wardiau etholiadol sy'n dod yn gyfan gwbl o fewn ardal prif gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

# Pen-y-bont



0
5
Cilomedrau
Graddfa 1:71,670
1.Bryncoch (1,757)
2.Ynysawdre (2,748)
3.Cefn Glas (1,360)
4.Litchard (2,080)
5.Llangewydd a Brynhyfryd (1,878)
6.Morfa (3,210)
7.Y Castellnewydd (4,287)
8.Yr Hengastell (3,783)
9.Pendre (1,654)
10.Sarn (1,786)
11.Newton (3,035)
12.Canol Dwyrain Porthcawl (2,580)
13.Canol Gorllewin Porthcawl (2,967)
14.Notais (2,741)
15.Rest Bay (1,990)
16.Hendre (3,175)
17.Felindre (2,087)
18.Llangrallo Isaf (1,160)
Abercynffig
(1,868)
Bryncethin
(1,261)
Pen-prysg
(2,474)
Cefn Cribwr
(1,180)
Pen-y-fai
(1,853)
Coety
(3,006)
Bracla
(8,276)
Bryntirion, Trelaes a
Merthyr Mawr
(6,574)
BRIDGEND /
PEN-Y-BONT AR OGWR
Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2023] OS [100047875]

## 7. Caerfyrddin (Carmarthen)

Argymhelliad

**7.1 Mae'r Comisiwn yn argymell bod etholaeth sirol yn cael ei chreu o'r:**

**1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gaerfyrddin (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Carmarthen East and Dinefwr ar hyn o bryd):**

**Abergwili (1,912), Rhydaman (1,984), Betws (1,825), Cenarth (1,669), Cil-y-cwm (1,175), Cynwyl Gaeo (1,351), Garnant (1,558), Glanaman (1,802), Llanddarog (1,678), Llandeilo (2,307), Llanymddyfri (1,963), Llandybie (3,277), Llanegwad (2,040), Llanfihangel Aberbythych (1,503), Llanfihangel-ar-Arth (2,196), Llangadog (1,629), Llangeler (2,772), Llangynnwr (2,077), Llanybydder (2,027), Manordeilo a Salem (1,816), Pen-y-groes (2,347), Pontaman (2,092), Cwarter Bach (2,218), a Saron (3,353); a'r**

**2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gaerfyrddin (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Carmarthen West and South Pembrokeshire ar hyn o bryd):**

**Gogledd Tref Caerfyrddin (3,691), De Tref Caerfyrddin (2,746), Gorllewin Tref Caerfyrddin (3,601), Cynwyl Elfed (2,468), Lacharn (2,161), Llanboidy (1,705), Llansteffan (1,656), Sanclêr (2,500), Trelech (1,754) a Hendy-gwyn ar Daf (1,830).**

**7.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,683 o etholwyr, sydd 1% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth.**

**7.3 Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw swyddogol Caerfyrddin ar gyfer yr etholaeth hon a'r enw amgen swyddogol Carmarthen.**

Cefndir

7.4 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiodd greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gaerfyrddin (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Carmarthen East and Dinefwr ar hyn o bryd):
Abergwili (1,912), Rhydaman (1,984), Betws (1,825), Cenarth (1,669), Cil-y-cwm (1,175), Cynwyl Gaeo (1,351), Garnant (1,558), Glanaman (1,802), Llanddarog (1,678), Llandeilo (2,307), Llanymddyfri (1,963), Llandybie (3,277), Llanegwad (2,040), Llanfihangel Aberbythych (1,503), Llanfihangel-ar-Arth (2,196), Llangadog (1,629), Llangeler (2,772), Llanybydder (2,027), Manordeilo a Salem (1,816), Pen-y-groes (2,347), Pontaman (2,092), Cwarter Bach (2,218), a Saron (3,353); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gaerfyrddin (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Carmarthen West and South Pembrokeshire ar hyn o bryd):
Gogledd Tref Caerfyrddin (3,691), De Tref Caerfyrddin (2,746), Gorllewin Tref Caerfyrddin (3,601), Cynwyl Elfed (2,468), Lacharn (2,161), Llanboidy (1,705), Llansteffan (1,656), Sanclêr (2,500), Trelech (1,754) a Hendy-gwyn ar Daf (1,830).

7.5 Byddai'r etholaeth hon wedi cynnwys 70,606 o etholwyr, sydd 3.8% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Caerfyrddin. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd oedd Carmarthen.

7.6 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn cefnogi creu 2 etholaeth wedi'u ffurfio'n llwyr o wardiau etholiadol o Sir Gaerfyrddin. Fodd bynnag, roedd cryn wrthwynebiad i gynnwys ward Llangynnwr yn etholaeth arfaethedig 'Llanelli'. Fel y dywedwyd yn nifer o'r cynrychiolaethau a gafodd y Comisiwn, mae gorsaf drenau Caerfyrddin o fewn ward etholiadol Llangynnwr. Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau hefyd a oedd yn gwrthwynebu ardaloedd o etholaeth bresennol Carmarthen and Dinefwr yn cael eu cynnwys mewn etholaeth arfaethedig 'Llanelli' o ganlyniad i'r

gwahaniaethau rhwng y ddwy ardal.

7.7 Cafodd y Comisiwn 5 cynrychiolaeth yn yr ail gyfnod ymgynghori a oedd yn gwrthwynebu cynnwys ardaloedd gwledig o Gaerfyrddin yn etholaeth arfaethedig 'Llanelli'. Roedd y gwrthwynebiad hwn wedi'i seilio'n bennaf ar y gwahaniaethau rhwng y ddwy ardal. Cafodd y Comisiwn 2 gynrychiolaeth hefyd o blaid etholaeth arfaethedig 'Caerfyrddin' yn yr ail gyfnod ymgynghori.

7.8 Ystyriodd adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol nifer o drefniadau amgen, ond gwnaethant nodi nad oedd y rhain yn adlewyrchu cysylltiadau lleol ac felly roeddent yn cefnogi'r cynnig cychwynnol gyda newid i un ward etholiadol. Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol fod ward etholiadol Llangynnwr yn cael ei chynnwys yn etholaeth Caerfyrddin yn seiliedig ar y dadleuon a wnaed yn y cynrychiolaethau.

7.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, cydnabu'r Comisiwn y dryswch a fyddai'n cael ei greu trwy beidio â chynnwys ward etholiadol Llangynnwr, sy'n cynnwys gorsaf drenau Tref Caerfyrddin, yn etholaeth arfaethedig 'Caerfyrddin'. Yn anffodus, o ganlyniad i'r angen i greu etholaeth sy'n bodloni'r meini prawf statudol, nid oedd y Comisiwn yn gallu mynd i'r afael â'r pryderon eraill ynglŷn â wardiau etholiadol etholaeth bresennol Carmarthen East and Dinefwr yn cael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig 'Llanelli'. Derbyniodd y Comisiwn fod gwahaniaethau rhwng yr ardaloedd; fodd bynnag, mae'r ddwy etholaeth arfaethedig yn gyfan gwbl o fewn ardal prif gyngor Sir Gaerfyrddin.

7.10 Felly, yn ei gynigion diwygiedig, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gaerfyrddin (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol

bresennol Carmarthen East and Dinefwr ar hyn o bryd):

Abergwili (1,912), Rhydaman (1,984), Betws (1,825), Cenarth (1,669), Cil-y-cwm (1,175), Cynwyl Gaeo (1,351), Garnant (1,558), Glanaman (1,802), Llanddarog (1,678), Llandeilo (2,307), Llanymddyfri (1,963), Llandybie (3,277), Llanegwad (2,040), Llanfihangel Aberbythych (1,503), Llanfihangel-ar-Arth (2,196), Llangadog (1,629), Llangeler (2,772), Llangynnwr (2,077), Llanybydder (2,027), Manordeilo a Salem (1,816), Pen-y-groes (2,347), Pontaman (2,092), Cwarter Bach (2,218), a Saron (3,353); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gaerfyrddin (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Carmarthen West and South Pembrokeshire ar hyn o bryd):

Gogledd Tref Caerfyrddin (3,691), De Tref Caerfyrddin (2,746), Gorllewin Tref Caerfyrddin (3,601), Cynwyl Elfed (2,468), Lacharn (2,161), Llanboidy (1,705), Llansteffan (1,656), Sanclêr (2,500), Trelech (1,754) a Hendy-gwyn ar Daf (1,830).

7.11 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,683 o etholwyr, sydd 1% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigiwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Caerfyrddin. Yr enw amgen swyddogol a gynigiwyd oedd Carmarthen.

7.12 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau ynglŷn â ffurfweddiad etholaethau yn yr ardal. Ailgyflwynodd Cyngor Sir Ceredigion eu cynrychiolaeth wreiddiol a oedd yn creu etholaeth arfaethedig 'Caerfyrddin a Dinbych-y-pysgod' gan drosglwyddo 5 ward etholiadol o ogledd Sir Gaerfyrddin i Geredigion. Cafodd y Comisiwn rai cynrychiolaethau hefyd a oedd yn gwrthwynebu cynnwys Bro Tawe gydag Aberhonddu a Maesyfed, gan ddadlau y dylai Aberhonddu a Maesyfed gael eu hymestyn i etholaeth arfaethedig 'Caerfyrddin'. Cafodd y Comisiwn 1 gynrychiolaeth hefyd i'r perwyl y dylai ward Llangyndeyrn gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig 'Caerfyrddin' ac nid yn etholaeth arfaethedig 'Llanelli'. Cafodd y Comisiwn

gynrychiolaethau hefyd gan y Blaid Geidwadol a Phlaid Lafur Cymru a oedd yn cefnogi etholaeth arfaethedig y Comisiwn, a 9 cynrychiolaeth a oedd yn datgan yn benodol eu gwrthwynebiad i'r gwrthgynnig gan Gyngor Sir Ceredigion ar y sail bod y gwrthgynnig yn tarfu'n sylweddol ar draws yr ardal.

7.13 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau a gafwyd ac mae wedi argymell cadw ei gynnig gan ei fod yn cyfuno ardaloedd sy'n gyfan gwbl o fewn ardal Cyngor Sir Caerfyrddin ac yn rhannu cysylltiadau trafnidiaeth da. Mae'r Comisiwn wedi mynd i'r afael â mater Llangynnwr a godwyd mewn cyfnodau ymgynghori blaenorol ac mae'n credu bod y trefniant argymelledig yn darparu etholaeth gydlynol.

Enw argymelledig yr etholaeth

7.14 Yr enw a argymhellir ar gyfer yr etholaeth yw Caerfyrddin. Yr enw amgen swyddogol a argymhellir yw Carmarthen.

7.15 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn datgan y dylai enw'r etholaeth gael ei gadw fel y'i cynigiwyd.


7.16 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol fod yr enw'n cael ei gadw hefyd.

7.17 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynnig diwygiedig, cafodd y Comisiwn 1 gynrychiolaeth a oedd yn cynnig enw amgen, sef 'Caerfyrddin a Dinbych-y-pysgod', ar gyfer trefniant amgen.

7.18 Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr enw Caerfyrddin, gyda'r enw amgen swyddogol

Carmarthen, yn adlewyrchu'r ardal ddaearyddol y byddai'r etholaeth argymelledig hon yn ei chynrychioli yn y ffordd orau.

# Caerfyrddin



## 8. Caerphilly (Caerffili)

Argymhelliad

**8.1 Mae'r Comisiwn yn argymell bod etholaeth sirol yn cael ei chreu o'r:**

**1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Caerphilly ar hyn o bryd):**

**Cwm Aber (4,655), Bedwas, Trethomas a Machen (7,902), Hengoed (4,055), Llanbradach (3,239), Morgan Jones (5,636), Nelson (3,563), Penyrheol (9,021), Sant Catwg (5,579), St. James (4,267) Sant Martin (6,582), ac Ystrad Mynach (4,067); a'r**

**2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Islwyn ar hyn o bryd):**

**Maesycwmer (1,811), Pengam (2,760), Pontllanfraith (6,343) ac Ynys-ddu (2,978).**

**8.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,458 o etholwyr, sydd 1.3% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth.**

**8.3 Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw swyddogol Caerphilly ar gyfer yr etholaeth hon a'r enw amgen swyddogol Caerffili.**

Cefndir

8.4 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiodd greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Islwyn ar hyn o bryd):

Aber-carn (4,139), Argoed (2,035), y Coed-duon (6,330), Cefn Fforest (2,845), Crosskeys (2,527), Crymlyn

(4,332), Maesycwmer (1,811), Trecelyn (4,892), Pengam (2,760), Penmaen (4,219), Pontllanfraith (6,343), Dwyrain Rhisga (4,611), Gorllewin Rhisga (3,973), Ynys-ddu (2,978); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Caerphilly ar hyn o bryd):
Hengoed (4,055), Llanbradach (3,239), Sant Catwg (5,579) ac Ystrad Mynach (4,067).

8.5 Byddai'r etholaeth hon wedi cynnwys 70,735 o etholwyr, sydd 3.6% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Islwyn.

8.6 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu'r cynigion cychwynnol yn yr ardal hon, ac un trefniant amgen yr oedd cryn gefnogaeth iddo o'r ardal leol. Yn rhan o'r trefniant amgen hwn, byddai rhannau o etholaeth bresennol Islwyn yn cael eu cyfuno â Gorllewin Casnewydd ac etholaeth newydd Caerffili yn cael ei chreu. Roedd y gefnogaeth i'r trefniant hwn wedi'i seilio ar y cysylltiadau lleol a'r cysylltiadau teithio yn yr ardal. Roedd rhywfaint o gefnogaeth i'r cynigion cychwynnol yn yr ardal, gan gynnwys gan rai Aelodau Seneddol.

8.7 Roedd y Blaid Geidwadol yn cefnogi'r cynigion cychwynnol ar gyfer yr ardal ac yn llwyr yn erbyn y gwrthgynnig a amlinellir uchod, gan ddadlau nad oedd y cysylltiadau yn yr ardal yn y gwrthgynnig mor gryf â'r rhai yn y cynigion cychwynnol. Nododd y Ceidwadwyr hefyd fod cynigion cychwynnol y Comisiwn yn creu ward "amddifad" Nelson (sef yr unig ward etholiadol o Fwrdeistref Sirol Caerffili a gynhwyswyd yn etholaeth arfaethedig Merthyr Tudful ac Aberdâr y Comisiwn), nad oedd y trefniant amgen yn ymdrin â hi, a chynigiodd newidiadau i'r cynigion cychwynnol yn unol â hynny. Cafodd y Comisiwn wrthwynebiad ychwanegol i'r gwrthgynnig hefyd, gyda rhai sylwadau'n gwrthwynebu cynnwys y Coed-duon a Phontllanfraith mewn etholaeth Caerffili o ganlyniad i'w

cysylltiadau ag Islwyn.

8.8 Cynigiodd Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol newidiadau sylweddol i'r cynigion cychwynnol. Cynigiodd Plaid Cymru etholaeth 'Gorllewin Casnewydd' a oedd yn cynnwys wardiau etholiadol Dwyrain Rhisga, Gorllewin Rhisga a Crosskeys yn unig o Fwrdeistref Sirol Caerffili, ac etholaeth 'Caerffili' a oedd yn cynnwys llawer o fasn Caerffili a rhannau o Islwyn. Cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol 2 etholaeth: 'Caerffili gyda Gogledd Islwyn' a 'Gorllewin Casnewydd gydag Islwyn', a oedd yn drefniant gwahanol i'r gwrthgynnig a grybwyllwyd yn 8.6 uchod.

8.9 Daeth adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad fod Islwyn yn rhan fwy uniongyrchol o gyffiniau Casnewydd, yn enwedig o ran cysylltiadau rheilffyrdd a'r rhwydwaith ffyrdd yn seiliedig ar yr A467. Roeddent yn cytuno â'r trefniadau amgen a gynigiwyd ac yn eu hargymell yn seiliedig ar gysylltiadau lleol rhwng y dref a'r ardal amgylchynol uniongyrchol.

8.10 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, cytunodd y Comisiwn â'r Comisiynwyr Cynorthwyol mai'r trefniant mwy naturiol ar gyfer Caerffili oedd creu etholaeth wedi'i ffurfio'n gyfan gwbl o wardiau etholiadol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Cytunodd y Comisiwn fod mwy o gysylltiadau lleol rhwng Gorllewin Casnewydd ac Islwyn na Gorllewin Casnewydd a basn Caerffili, ac felly cynigiodd etholaeth sy'n adlewyrchu'r dystiolaeth a gafwyd. Roedd y Comisiwn hefyd wedi cynnwys ward "amddifad" Nelson yn ei etholaeth arfaethedig.

8.11 Felly, yn ei gynigion diwygiedig, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Caerphilly ar hyn o bryd):

Cwm Aber (4,655), Bedwas, Trethomas a Machen (7,902), Hengoed (4,055), Llanbradach (3,239),

Morgan Jones (5,636), Nelson (3,563), Penyrheol (9,021), Sant Catwg (5,579), St. James (4,267) Sant Martin (6,582), ac Ystrad Mynach (4,067); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Islwyn ar hyn o bryd):
Cefn Fforest (2,845), Maesycwmer (1,811), Pengam (2,760), a Phontllanfraith (6,343).

8.12 Byddai'r etholaeth hon wedi cynnwys 72,325 o etholwyr, sydd 1.5% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigiwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Caerphilly. Yr enw amgen swyddogol a gynigiwyd oedd Caerffili.

8.13 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn rywfaint o wrthwynebiad i'w gynigion diwygiedig yn yr ardal. Cyflwynwyd cynigion diwygiedig y Comisiwn o ganlyniad i'r gwrthwynebiad sylweddol a gafodd i'w gynigion cychwynnol, sef cyfuno ardaloedd etholaethau presennol Gorllewin Casnewydd a Chaerffili. Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynigion diwygiedig, amlygodd rhai o'r cynrychiolaethau a gafwyd fod cymuned y Coed-duon yn cynnwys ward gymunedol Dwyrain Cefn Fforest, a oedd yn perthyn yn naturiol i ward etholiadol gymdogol Cefn Fforest. Fodd bynnag, nid yw hyn yn hollti ardal gymunedol, gan fod ward Dwyrain Cefn Fforest yn rhan o gymuned y Coed-duon. Ond dadleuodd y cynrychiolaethau fod cysylltiadau clir rhwng y ddwy gymuned. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd yn datgan y dylai wardiau etholiadol y Coed-duon, Trecelyn a Phontllanfraith gael eu cyfuno yn yr un etholaeth o ganlyniad i'r cysylltiadau lleol sy'n bodoli. Cafodd y Comisiwn wrthgynnig a oedd yn cynnig creu 2 etholaeth yn yr ardal gan ddefnyddio Pont Bedwas fel ffin, sef y ffin hanesyddol rhwng Gwent a Morgannwg.

8.14 Cafodd y Comisiwn 28 o gynrychiolaethau o blaid y cynigion diwygiedig ar gyfer 'Caerffili'; roedd y Blaid Geidwadol a Phlaid Lafur Cymru, er eu bod yn cefnogi'r cynnig cychwynnol i ddechrau,

yn cydnabod y gwrthwynebiad a gafodd y Comisiwn i'r cynnig cychwynnol a'r gefnogaeth i'r cynnig diwygiedig.

8.15 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau a gafwyd ac mae'n cydnabod yr oedd yn synhwyrol argymell etholaeth sy'n cyfuno wardiau etholiadol Cefn Fforest a'r Coed-duon yn yr un etholaeth. Felly, er mwyn bodloni Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, mae'r Comisiwn wedi trosglwyddo ward etholiadol Cefn Fforest i'w etholaeth argymelledig Gorllewin Casnewydd ac Islwyn, ac wedi trosglwyddo ward etholiadol Ynys-ddu o etholaeth Gorllewin Casnewydd ac Islwyn i'w etholaeth argymelledig Caerffili. Mae'r Comisiwn o'r farn bod gan yr etholaethau argymelledig yn yr ardal gysylltiadau ffyrdd a chysylltedd da. Mae'r Comisiwn o'r farn bod y gwrthgynnig a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynigion diwygiedig yn tarfu mwy a'i fod yn llai dymunol o ran y ddeddfwriaeth, yn benodol Rheol 5 Atodlen 2, oherwydd ei fod yn golygu y byddai mwy o ardaloedd prif gyngor yn cael eu cynnwys yn yr etholaeth. Ystyriodd y Comisiwn hefyd y cynrychiolaethau a awgrymodd y dylai'r Coed-duon, Trecelyn a Phontllanfraith gael eu cyfuno yn yr un etholaeth, ond byddai hyn yn effeithio ar etholaethau a gefnogir yn dda ledled de Cymru.

<u>Enw argymelledig yr etholaeth</u>

8.16 Yr enw a argymhellir ar gyfer yr etholaeth yw Caerphilly. Yr enw amgen swyddogol a argymhellir yw Caerffili.


8.17 Cynigiodd y Comisiwn yr enw 'Islwyn' i ddechrau; fodd bynnag, gan fod y Comisiwn wedi diwygio ei gynnig cychwynnol yn sylweddol yn seiliedig ar y cynrychiolaethau a gafwyd, roedd angen i'r trefniant daearyddol newydd gael ei adlewyrchu gan enw mwy priodol. Cafodd y Comisiwn sawl cynrychiolaeth a oedd yn datgan y dylai enw'r trefniant newydd adlewyrchu'r etholaeth bresennol ac enw'r prif gyngor, sef Caerffili.

8.18 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol newid i'r enw i adlewyrchu'r trefniadau daearyddol newydd, a gwnaethant argymell yr enw Caerffili.

8.19 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynnig diwygiedig, ni chafodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau ynglŷn ag enw'r etholaeth arfaethedig.

8.20 Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr enw Caerphilly, gyda'r enw amgen swyddogol Caerffili, yn adlewyrchu'r ardal ddaearyddol y byddai'r etholaeth argymelledig hon yn ei chynrychioli yn y ffordd orau. Mae'r etholaeth argymelledig wedi'i ffurfio o wardiau etholiadol sy'n dod yn gyfan gwbl o fewn ardal prif gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

# Caerffili




Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2023] OS [100047875]

## 9. Cardiff East (Dwyrain Caerdydd)

Argymhelliad

**9.1 Mae'r Comisiwn yn argymell bod etholaeth fwrdeistrefol yn cael ei chreu o'r:**

**1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Caerdydd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol bresennol Cardiff Central ar hyn o bryd):**

**Adamsdown (5,692), Cyncoed (8,475), Pentwyn (10,783), Pen-y-lan (9,858) a Phlasnewydd (12,285); a'r**

**2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Caerdydd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol bresennol Cardiff South and Penarth ar hyn o bryd):**

**Llanrhymni (7,758), Rhymni (6,536), a Trowbridge (11,076).**

**9.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,463 o etholwyr, sydd 1.3% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth.**

**9.3 Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw swyddogol Cardiff East a'r enw amgen swyddogol Dwyrain Caerdydd.**

Cefndir

9.4 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiodd greu etholaeth fwrdeistrefol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Caerdydd (sy'n ffurfio etholaeth fwrdeistrefol bresennol Cardiff Central ar hyn o bryd):

Adamsdown (5,692), Cathays (13,099), Cyncoed (8,475), Pentwyn (10,783), Pen-y-lan (9,858) a Phlasnewydd (12,285); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Caerdydd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol bresennol Cardiff South and Penarth ar hyn o bryd):

Llanrhymni (7,758) a Rhymni (6,536).

9.5 Byddai'r etholaeth hon wedi cynnwys 74,486 o etholwyr, sydd 1.5% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Cardiff Central. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd oedd Canol Caerdydd.

9.6 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu'r ffaith y byddai ward etholiadol Trowbridge yn cael ei datgysylltu o weddill etholaeth bresennol De Caerdydd a Phenarth o ganlyniad i gynnwys ward Rhymni yn etholaeth arfaethedig Canol Caerdydd y Comisiwn.

9.7 Cynigiodd cyflwyniad y Blaid Geidwadol fân newidiadau ledled Dinas Caerdydd, gan ychwanegu ward etholiadol Rhymni at etholaeth arfaethedig 'De Caerdydd a Phenarth', ac ychwanegu ward etholiadol Llanrhymni at etholaeth arfaethedig 'Gogledd Caerdydd'. O ganlyniad, roedd eu hetholaeth 'Canol Caerdydd' arfaethedig yn cynnwys ward etholiadol Glanyrafon o arfaethedig 'Gorllewin Caerdydd'. Cynigiodd Plaid Cymru greu etholaeth 'Canol a Dwyrain Caerdydd', a oedd yn cywiro mater Trowbridge trwy amnewid wardiau etholiadol Pen-y-lan, Pentwyn a Chyncoed â Glanyrafon, y Sblot a Trowbridge. Cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol gynnwys ward etholiadol Gabalfa a throsglwyddo Rhymni i etholaeth 'De Caerdydd a Phenarth'. Ni chynigiodd Plaid Lafur Cymru unrhyw newidiadau i gynnig cychwynnol y Comisiwn.

9.8 Argymhellodd adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol greu etholaeth 'Canol a Dwyrain Caerdydd', a oedd yn cynnwys wardiau Gabalfa, y Sblot a Trowbridge, ond yn symud Adamsdown i'w hetholaeth arfaethedig 'Y Barri, De Caerdydd a Phenarth'.

9.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, cydnabu'r Comisiwn fod ward etholiadol Trowbridge wedi'i hynysu ac aeth i'r afael â hyn trwy gynnig cynnwys ward etholiadol Trowbridge yn ei etholaeth 'Dwyrain Caerdydd' arfaethedig, gyda ward etholiadol Cathays yn symud i etholaeth arfaethedig 'De Caerdydd a Phenarth'. Roedd y Comisiwn o'r farn bod ward etholiadol Cathays yn ward dra phoblog a chysylltiedig sydd â chysylltiadau da â'r wardiau i'r de, ac felly ei bod yn briodol yn rhan o etholaeth arfaethedig 'De Caerdydd a Phenarth'. Ystyriodd y Comisiwn ystod o drefniadau amgen ar gyfer yr ardal, gan gynnwys y gwrthgynigion, mewn ymgais i fynd i'r afael â mater Trowbridge. Fodd bynnag, roedd yr opsiynau amgen a oedd ar gael yn creu mwy o aflonyddwch a chanlyniadau annymunol ar gyfer etholaethau cymdogol a gefnogir yn dda. Roedd y Comisiwn o'r farn bod yr etholaethau arfaethedig diwygiedig yn cadw cymunedau sydd wedi'u cysylltu'n dda ac sydd â chysylltiadau agos.

9.10 Felly, yn ei gynigion diwygiedig, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Caerdydd (sy'n ffurfio etholaeth fwrdeistrefol bresennol Cardiff Central ar hyn o bryd):
Adamsdown (5,692), Cyncoed (8,475), Pentwyn (10,783), Pen-y-lan (9,858) a Phlasnewydd (12,285); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Caerdydd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol bresennol Cardiff South and Penarth ar hyn o bryd):
Llanrhymni (7,758) Rhymni (6,536), a Trowbridge (11,076).

9.11 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,463 o etholwyr, sydd 1.3% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigiwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Cardiff East. Yr enw amgen swyddogol a gynigiwyd oedd Dwyrain Caerdydd.

9.12 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau ynglŷn â chyfansoddiad daearyddol yr etholaethau arfaethedig yn ardal Caerdydd. Yn rhan o'i gynigion diwygiedig ar gyfer yr ardal, aeth y Comisiwn i'r afael â mater ward etholiadol ynysig Trowbridge trwy ei chynnwys yn ei etholaeth arfaethedig 'Dwyrain Caerdydd', a throsglwyddo ward etholiadol Cathays i etholaeth arfaethedig 'De Caerdydd a Phenarth' er mwyn i'r etholaethau ddod o fewn Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig. Cafodd y Comisiwn 28 o gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu cynnwys Cathays yn etholaeth arfaethedig 'De Caerdydd a Phenarth'. Roedd y cynrychiolaethau'n dadlau bod gan ward etholiadol Cathays gysylltiad naturiol ag ardaloedd Plasnewydd a Phen-y-lan. Fodd bynnag, cefnogwyd y cynigion diwygiedig gan y Blaid Geidwadol a Phlaid Lafur Cymru.

9.13 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau a gafwyd ac mae wedi penderfynu argymell yr etholaeth fel y'i cynigiwyd yn ei adroddiad cynigion diwygiedig. Cydnabu'r Comisiwn y gwrthwynebiad i'r cynnig diwygiedig; fodd bynnag, nid yw'r Comisiwn yn gallu canfod dewis amgen addas nad yw'n tarfu'n sylweddol ar etholaethau ar draws de Cymru. At ei gilydd, mae'r Comisiwn o'r farn nad oedd y dadleuon dros ddychwelyd i'r cynigion cychwynnol (sef cynnwys Cathays gydag ardaloedd Plasnewydd a Phen-y-lan) mor gryf â'r dadleuon a gyflwynwyd yn ystod y cam ymgynghori cyntaf a'r ail gam ymgynghori, a amlygodd y ffaith fod ward etholiadol Trowbridge wedi cael ei hynysu oddi wrth weddill y wardiau etholiadol fel yr oedd yn yr etholaeth a gynigiwyd yn wreiddiol heb gysylltiad ffyrdd rhwng ward etholiadol Trowbridge a gweddill yr etholaeth arfaethedig.

Enw argymelledig yr etholaeth

9.14 Yr enw a argymhellir ar gyfer yr etholaeth yw Cardiff East. Yr enw amgen swyddogol a argymhellir yw Dwyrain Caerdydd.

9.15 Cynigiodd y Comisiwn yr enw 'Canol Caerdydd' i ddechrau; fodd bynnag, gan fod

y Comisiwn wedi diwygio ei gynnig cychwynnol yn sylweddol yn seiliedig ar y cynrychiolaethau a gafwyd, roedd angen i'r trefniant daearyddol newydd gael ei adlewyrchu gan enw mwy priodol. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn cynnig enwau amgen fel Dwyrain Caerdydd, a 'Chanol a Dwyrain Caerdydd'.


9.16 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol drefniant gwahanol ar gyfer yr etholaethau yn yr ardal ac felly gwnaethant ddarparu enwau amgen.

9.17 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynnig diwygiedig, ni chafodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau ynglŷn ag enw'r etholaeth arfaethedig.

9.18 Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr enw Cardiff East, gyda'r enw amgen Dwyrain Caerdydd, yn adlewyrchu'r ardal ddaearyddol y byddai'r etholaeth argymelledig hon yn ei chynrychioli yn y ffordd orau.

# Dwyrain Caerdydd

0 — 2
**Cilomedrau**
**Graddfa: 1: 34,680**




**(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2023] OS [100047875]**

## 10. Cardiff North (Gogledd Caerdydd)

Argymhelliad

**10.1 Mae'r Comisiwn yn argymell bod etholaeth fwrdeistrefol yn cael ei chreu o'r:**

**1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Caerdydd (sy'n ffurfio etholaeth fwrdeistrefol bresennol Cardiff North ar hyn o bryd):**

**Gabalfa (5,922), y Mynydd Bychan (9,611), Llys-faen (2,942), Gogledd Llandaf (5,992), Llanisien (13,492), Pontprennau/Pentref Llaneirwg (8,047), Rhiwbeina (9,354) a'r Eglwys Newydd a Thongwynlais (12,928); a**

**2. Ward etholiadol Ffynnon Taf (2,855) o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Pontypridd ar hyn o bryd).**

**10.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 71,143 o etholwyr, sydd 3.1% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth.**

**10.3 Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw swyddogol Cardiff North ar gyfer yr etholaeth hon a'r enw amgen swyddogol Gogledd Caerdydd.**

Cefndir

10.4 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiodd greu etholaeth fwrdeistrefol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Caerdydd (sy'n ffurfio etholaeth fwrdeistrefol bresennol Cardiff North ar hyn o bryd):

Gabalfa (5,922), y Mynydd Bychan (9,611), Llys-faen (2,942), Gogledd Llandaf (5,992), Llanisien (13,492), Pontprennau/Pentref Llaneirwg (8,047), Rhiwbeina (9,354) a'r Eglwys Newydd a Thongwynlais

(12,928); a

2. Ward etholiadol Ffynnon Taf (2,855) o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Pontypridd ar hyn o bryd).

10.5 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 71,143 o etholwyr, sydd 3.1% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Cardiff North. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd oedd Gogledd Caerdydd.

10.6 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau o blaid y cynnig cychwynnol. Fodd bynnag, roedd rhai cynrychiolaethau yn erbyn y cynnig, a'r prif reswm dros y gwrthwynebiad oedd cynnwys Ffynnon Taf, sy'n rhan o ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Roedd un gynrychiolaeth hefyd yn argymell cynnwys ward etholiadol Radur yn etholaeth arfaethedig 'Gogledd Caerdydd'. Yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori, awgrymodd yr Aelod Seneddol dros Ogledd Caerdydd fod ychwanegu Ffynnon Taf at etholaeth arfaethedig 'Gogledd Caerdydd' yn synhwyrol o ganlyniad i'r cysylltiadau cyfathrebu a ffyrdd da, er bod yr ardal yn rhan o awdurdod lleol cymdogol. Roedd cynrychiolaethau eraill a dderbyniwyd yn ymwneud â'r llinell derfyn yng Nghaerdydd rhwng etholaethau presennol Gogledd Caerdydd a Chanol Caerdydd, ac yn cynnig y dylid defnyddio Maendy fel llinell ffin naturiol o ganlyniad i'r ddaearyddiaeth leol.

10.7 Roedd cynnig y Blaid Geidwadol yn argymell trosglwyddo ward etholiadol Gogledd Llandaf i etholaeth arfaethedig 'Gorllewin Caerdydd' a dychwelyd ward etholiadol Ffynnon Taf i etholaeth arfaethedig 'Pontypridd'. Gwnaethant hefyd gynnig trosglwyddo ward etholiadol Llanrhymni i etholaeth arfaethedig 'Gogledd Caerdydd'. Cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol gynnwys ward Llanrhymni o etholaeth bresennol Canol Caerdydd, a wardiau Pentyrch a Radur o etholaeth bresennol

Gorllewin Caerdydd yn eu hetholaeth arfaethedig ‘Gogledd Caerdydd’, gan drosglwyddo wardiau etholiadol Gabalfa a’r Mynydd Bychan i etholaeth arfaethedig ‘Canol Caerdydd’. Fodd bynnag, ar ddiwedd yr ail gyfnod ymgynghori, roedd y Democratiaid Rhyddfrydol wedi diwygio eu hetholaeth arfaethedig ‘Gogledd Caerdydd’ i gynnwys ward y Mynydd Bychan o fewn etholaeth arfaethedig ‘Gogledd Caerdydd’ i greu ffiniau caled wrth yr A44 a’r llinell reilffordd i’r de a’r dwyrain, yn y drefn honno. Cydbwyswyd hyn trwy drosglwyddo ward Llanrhymni o’u hetholaeth arfaethedig ‘Gogledd Caerdydd’ i etholaeth ‘Canol Caerdydd’ newydd ei chynnig. Nododd cyflwyniad y Democratiaid Rhyddfrydol fod hyn ymhell o fod yn gyfuniad delfrydol oherwydd yr unig gysylltiad trafnidiaeth rhwng Llanrhymni a gweddill yr etholaeth yw pont droed/beicio, ac mae’r brif ffordd yn mynd heibio’n gyflym trwy ward etholiadol gymdogol Rhymni.

10.8 Cynigiodd Plaid Cymru gyfuniad sylweddol wahanol o wardiau etholiadol a oedd yn cynnwys wardiau etholiadol y Mynydd Bychan, Llys-faen, Llanisien, Pentwyn, Cyncoed, Rhiwbeina, Pontprennau/Pentref Llaneirwg, a Phen-y-lan. Ni chynigiodd Plaid Lafur Cymru unrhyw newidiadau i’r cynnig cychwynnol.

10.9 Cynigiodd adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol newid etholaeth arfaethedig ‘Gogledd Caerdydd’ trwy ddychwelyd ward etholiadol Ffynnon Taf i etholaeth arfaethedig Pontypridd a Llantrisant. Roedd y cynnig hwn yn mynd i’r afael â’r pryderon a fynegwyd ynglŷn â’r wardiau hynny. Fodd bynnag, o ganlyniad, roedd rhaid i wardiau etholiadol Gogledd Llandaf, Gabalfa, Pentwyn a Chyncoed i gyd gael eu trosglwyddo i etholaethau eraill i gyflawni’r amrediad etholwyr statudol. Cafwyd nifer o gynrychiolaethau ynglŷn ag etholaethau Caerdydd yn ystod y cyfnodau ymgynghori, yn enwedig Gogledd Caerdydd. Roedd y cynrychiolaethau hyn yn cefnogi cadw ac ymestyn etholaeth bresennol Gogledd Caerdydd ac yn amlygu’r cysylltiadau agos rhwng wardiau Gabalfa, Gogledd Llandaf a’r Eglwys Newydd a Thongwynlais.

10.10 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, penderfynodd Comisiwn gadw ei gynnig cychwynnol. Roedd cryn gefnogaeth i'r cynnig, ac roedd y dewisiadau amgen a gynigiwyd yn llai dymunol i ranbarth cyfan de Cymru. Cydnabu'r Comisiwn y gwrthwynebiad i gynnwys ward Ffynnon Taf; fodd bynnag, bu angen ei hychwanegu er mwyn bodloni'r cwota statudol. Nododd y Comisiwn hefyd fod cryn gefnogaeth i'r cynnig cychwynnol a chynnwys Ffynnon Taf yn etholaeth arfaethedig 'Gogledd Caerdydd'.

10.11 Felly, yn ei gynigion diwygiedig, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Caerdydd (sy'n ffurfio etholaeth fwrdeistrefol bresennol Cardiff North ar hyn o bryd):
Gabalfa (5,922), y Mynydd Bychan (9,611), Llys-faen (2,942), Gogledd Llandaff (5,992), Llanisien (13,492), Pontprennau/Pentref Llaneirwg (8,047), Rhiwbeina (9,354) a'r Eglwys Newydd a Thongwynlais (12,928); a

2. Ward etholiadol Ffynnon Taf (2,855) o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Pontypridd ar hyn o bryd).

10.12 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 71,143 o etholwyr, sydd 3.1% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth yw Cardiff North. Yr enw amgen swyddogol a awgrymir yw Gogledd Caerdydd.

10.13 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn 5 cynrychiolaeth yn gwrthwynebu'r etholaeth arfaethedig o ganlyniad i gynnwys ward etholiadol Ffynnon Taf, gan gynnwys 1 gynrychiolaeth gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyngor Bwrdeistref Sirol

Rhondda Cynon Taf. Cafodd y Comisiwn 4 cynrychiolaeth o blaid yr etholaeth arfaethedig. Dywedodd yr ymatebion fod y cyfuniad o gymunedau fel yr Eglwys Newydd a Thongwynlais, Rhiwbeina, Llanisien a Llys-faen yn cyflwyno etholaeth gydlynol. Roedd y cynrychiolaethau hefyd yn cefnogi cynnwys ward etholiadol Pontprennau/ Pentref Llaneirwg yn etholaeth arfaethedig 'Gogledd Caerdydd'. Cefnogwyd y cynigion diwygiedig gan y Blaid Geidwadol a Phlaid Lafur Cymru.

10.14 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau a gafwyd ac mae wedi penderfynu argymell yr etholaeth fel y'i cynigiwyd yn ei adroddiad cynigion diwygiedig. Cydnabu'r Comisiwn y gwrthwynebiad i gynnwys ward Ffynnon Taf; fodd bynnag, mae angen ei hychwanegu er mwyn argymell etholaethau sy'n bodloni Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig. Nododd y Comisiwn hefyd fod cefnogaeth i'r cynnig diwygiedig a chynnwys Ffynnon Taf mewn etholaeth arfaethedig 'Gogledd Caerdydd'.

Enw argymelledig yr etholaeth

10.15 Yr enw a argymhellir ar gyfer yr etholaeth yw Cardiff North. Yr enw amgen swyddogol a argymhellir yw Gogledd Caerdydd.


10.16 Cafodd y Comisiwn dystiolaeth a oedd yn cefnogi cadw'r cynnig cychwynnol a chafodd rai trefniadau daearyddol amgen; fodd bynnag, roedd y cynrychiolaethau'n cefnogi enw'r etholaeth arfaethedig.

10.17 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol gadw enw'r cynnig cychwynnol.

10.18 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynnig diwygiedig, ni chafodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau ynglŷn ag enw'r etholaeth arfaethedig.

10.19 Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr enw Cardiff North, gyda'r enw amgen swyddogol Gogledd Caerdydd, yn adlewyrchu'r ardal ddaearyddol y byddai'r etholaeth argymelledig hon yn ei chynrychioli yn y ffordd orau.

# Gogledd Caerdydd



## 11. Cardiff South and Penarth (De Caerdydd a Phenarth)

Argymhelliad

**11.1 Mae'r Comisiwn yn argymell bod etholaeth fwrdeistrefol yn cael ei chreu o'r:**

**1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Caerdydd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol bresennol Cardiff South and Penarth ar hyn o bryd):**

**Butetown (7,834), Grangetown (13,257) a'r Sblot (9,081);**

**2. Ward etholiadol Cathays (13,099) o fewn Dinas a Sir Caerdydd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol bresennol Cardiff Central ar hyn o bryd)**

**3. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Bro Morgannwg (sy'n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol bresennol Cardiff South and Penarth ar hyn o bryd):**

**Cornerswell (4,069), Llandochau (1,578), Plymouth (4,584), St. Augustine's (5,318), Stanwell (3,365) a Sili (3,696); a**

**4. Ward etholiadol Dinas Powys (6,388) o fewn Sir Bro Morgannwg (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Vale of Glamorgan ar hyn o bryd).**

**11.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,269 o etholwyr, sydd 1.5% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth.**

**11.3 Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw swyddogol Cardiff South and Penarth ar gyfer yr etholaeth hon a'r enw amgen swyddogol De Caerdydd a Phenarth.**

Cefndir

11.4 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiodd greu etholaeth fwrdeistrefol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Caerdydd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol bresennol Cardiff South and Penarth ar hyn o bryd):
Butetown (7,834), Grangetown (13,257), y Sblot (9,081) a Trowbridge (11,076);

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Bro Morgannwg (sy'n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol bresennol Cardiff South and Penarth ar hyn o bryd):
Cornerswell (4,069), Llandochau (1,578), Plymouth (4,584), St. Augustine's (5,318), Stanwell (3,365) a Sili (3,696); a

3. Ward etholiadol Dinas Powys (6,388) o fewn Sir Bro Morgannwg (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Bro Morgannwg ar hyn o bryd).

11.5 Byddai'r etholaeth hon wedi cynnwys 70,246 o etholwyr, sydd 4.3% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Cardiff South and Penarth. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd oedd De Caerdydd a Phenarth.

11.6 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn codi pryderon ynglŷn ag etholaeth arfaethedig 'De Caerdydd a Phenarth'. Cododd rhai cynrychiolaethau'r ffaith bod ward etholiadol Trowbridge wedi'i hynysu'n llwyr oddi wrth weddill yr etholaeth o ganlyniad i drosglwyddo ward etholiadol Rhymni i etholaeth arfaethedig 'Canol Caerdydd', a oedd yn dileu'r prif lwybr trafnidiaeth o etholaeth arfaethedig 'De Caerdydd a Phenarth' i Trowbridge. Un datrysiad a gynigiwyd oedd cynnwys Trowbridge mewn etholaeth arfaethedig 'Dwyrain Caerdydd' a gosod Cathays mewn etholaeth arfaethedig 'Canol Caerdydd a Phenarth'. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd yn gwrthwynebu

etholaeth arfaethedig ‘De Caerdydd a Phenarth’ gan unigolion a argymhellodd ddychwelyd ardal Penarth i etholaeth arfaethedig ‘Bro Morgannwg’. Yn ogystal, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn argymell cadw ward etholiadol Dinas Powys yn etholaeth arfaethedig ‘Bro Morgannwg’.

11.7 Cynigiodd y Blaid Geidwadol a’r Democratiaid Rhyddfrydol fân newidiadau i etholaeth arfaethedig ‘De Caerdydd a Phenarth’. Er mwyn mynd i’r afael â mater Trowbridge, cynigiodd y Blaid Geidwadol a’r Democratiaid Rhyddfrydol ychwanegu ward etholiadol Rhymni at etholaeth arfaethedig ‘De Caerdydd a Phenarth’ a dychwelyd ward etholiadol Dinas Powys i etholaeth arfaethedig ‘Bro Morgannwg’. Ni chynigiodd Plaid Lafur Cymru unrhyw newidiadau i’r cynigion cychwynnol ar gyfer etholaeth arfaethedig ‘De Caerdydd a Phenarth’. Roedd cyflwyniad Plaid Cymru yn cynnig creu etholaeth ‘Y Barri a De Caerdydd’ yn cynnwys wardiau Cadog, Castleland, Court, Gibbonsdown, Buttrills, Dyfan, Baruc ac Illtud, a throsglwyddo wardiau y Sblot, Trowbridge, Llandochau, Cornerswell a Dinas Powys i etholaeth gymdogol.

11.8 Cynigiodd adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol ddychwelyd Dinas Powys i etholaeth arfaethedig ‘Bro Morgannwg’, ac o ganlyniad roedd nifer o wardiau sy’n ffurfio rhan o Dref y Barri yn cael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig ‘Y Barri, De Caerdydd a Phenarth’. Roedd hyn yn creu cymuned hollt yn Nhref y Barri. Aeth y Comisiynwyr Cynorthwyol i’r afael â mater datgysylltu Trowbridge hefyd trwy greu etholaeth arfaethedig ‘Canol a Dwyrain Caerdydd’.

11.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, cydnabu’r Comisiwn fod ward etholiadol Trowbridge wedi’i hynysu ac aeth i’r afael â hyn trwy gynnwys y ward hon yn ei etholaeth arfaethedig ‘Dwyrain Caerdydd’, a throsglwyddo ward etholiadol Cathays i etholaeth arfaethedig ‘De Caerdydd a Phenarth’ er mwyn i’r etholaethau ddod o fewn Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig. Roedd y Comisiwn yn cydymdeimlo â’r cynrychiolaethau a oedd yn datgan y dylai Dinas Powys

gael ei chynnwys mewn etholaeth arfaethedig ‘Bro Morgannwg’. Er bod etholaeth o’r fath o fewn y cwota statudol, roedd yn creu effeithiau cynyddol problemus ar yr etholaethau amgylchynol ar draws y rhanbarth. Roedd y Comisiwn o blaid y trefniadau amgen a gynigiwyd, ond nid oedd o’r farn bod yr amgylchiadau’n cyfiawnhau hollti Tref y Barri. Nid oedd y Comisiwn yn cytuno â’r cynigion amgen a oedd yn rhannu Tref y Barri oherwydd bod hynny’n gwaethygu’r gwrthwynebiad a gafodd y Comisiwn a oedd yn datgan bod preswylwyr Dinas Powys yn edrych tuag at y Barri ar gyfer eu gwasanaethau. Byddai cynnwys ardal Penarth yn etholaeth arfaethedig ‘Bro Morgannwg’ yn mynd dros y cwota statudol ac yn ei gwneud yn anodd iawn cyflawni etholaethau sy’n dod o fewn yr amrediad statudol yng Nghaerdydd.

11.10 Felly, yn ei gynigion diwygiedig, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o’r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Caerdydd (sy’n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol bresennol Cardiff South and Penarth ar hyn o bryd):
Butetown (7,834), Grangetown (13,257) a’r Sblot (9,081);

2. Ward etholiadol Cathays (13,099) o fewn Dinas a Sir Caerdydd (sy’n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol bresennol Canol Caerdydd ar hyn o bryd);

3. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Bro Morgannwg (sy’n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol bresennol Cardiff South and Penarth ar hyn o bryd):
Cornerswell (4,069), Llandochau (1,578), Plymouth (4,584), St. Augustine’s (5,318), Stanwell (3,365) a Sili (3,696); a

4. Ward etholiadol Dinas Powys (6,388) o fewn Sir Bro Morgannwg (sy’n ffurfio rhan o

etholaeth sirol bresennol Bro Morgannwg ar hyn o bryd).

11.11 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,269 o etholwyr, sydd 1.5% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigiwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Cardiff South and Penarth. Yr enw amgen swyddogol a gynigiwyd oedd De Caerdydd a Phenarth.

11.12 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau ynglŷn â chyfansoddiad daearyddol yr etholaethau arfaethedig yn ardal Caerdydd. Cafodd y Comisiwn 28 o gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu cynnwys Cathays yn etholaeth arfaethedig 'De Caerdydd a Phenarth'. Dywedodd y cynrychiolaethau fod gan ward etholiadol Cathays gysylltiad naturiol ag ardaloedd Plasnewydd a Phen-y-lan. Cafodd y Comisiwn 4 cynrychiolaeth hefyd a oedd yn gwrthwynebu'r etholaeth arfaethedig ar y sail y dylai Dinas Powys gael ei chynnwys o fewn etholaeth arfaethedig 'Bro Morgannwg' o ganlyniad i'w chysylltiadau lleol a chymunedol. Roedd 1 gynrychiolaeth a gafodd y Comisiwn yn gwrthwynebu cyfuno Penarth ag ardal Caerdydd hefyd.

11.13 Roedd y Blaid Geidwadol yn cefnogi cynigion diwygiedig y Comisiwn ar gyfer etholaeth arfaethedig 'De Caerdydd a Phenarth'. Roedd y Blaid Geidwadol yn siomedig bod Dinas Powys wedi'i chynnwys yn etholaeth arfaethedig 'De Caerdydd a Phenarth' o hyd, ond yn derbyn bod cynnwys y ward yn etholaeth arfaethedig 'Bro Morgannwg' yn creu problemau ychwanegol wrth ffurfio etholaethau yng Nghaerdydd ac ymhellach i ffwrdd.

11.14 Cydnabu Plaid Lafur Cymru yr anawsterau sy'n gysylltiedig â chreu etholaethau cydlynol a chytunodd fod diffyg cysylltiad ffyrdd rhwng y Sblot a Trowbridge yn ei gwneud yn anodd dadlau o blaid y cynigion cychwynnol. Derbyniodd etholaeth arfaethedig 'De Caerdydd a Phenarth' ar y sail mai cynigion diwygiedig y Comisiwn oedd yr opsiwn 'lleiaf gwael' i ddelio â materion hygyrchedd

Trowbridge.

11.15 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau a gafwyd ac mae wedi penderfynu argymell yr etholaeth fel y'i cynigiwyd yn ei adroddiad cynigion diwygiedig. Cydnabu'r Comisiwn y gwrthwynebiad i'r cynnig diwygiedig; fodd bynnag, nid oedd y Comisiwn yn gallu canfod dewis amgen addas nad oedd yn tarfu'n sylweddol ar etholaethau ar draws de Cymru. At ei gilydd, roedd y Comisiwn o'r farn nad oedd y dadleuon dros ddychwelyd i'r cynigion cychwynnol (sef cynnwys Cathays gydag ardaloedd Plasnewydd a Phen-y-lan) mor gryf â'r dadleuon a gyflwynwyd yn ystod y cam ymgynghori cyntaf a'r ail gam ymgynghori, a amlygodd y ffaith fod ward etholiadol Trowbridge wedi cael ei hynysu oddi wrth weddill y wardiau etholiadol fel yr oedd yn yr etholaeth a gynigiwyd yn wreiddiol heb gysylltiad ffyrdd.

<u>Enw argymelledig yr etholaeth</u>

11.16 Yr enw a argymhellir ar gyfer yr etholaeth yw Cardiff South and Penarth. Yr enw amgen swyddogol argymhellir yw De Caerdydd a Phenarth.


11.17 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn datgan y dylid cadw enw arfaethedig yr etholaeth; fodd bynnag, cynigiwyd rhai trefniadau daearyddol amgen ynghyd ag enwau amgen, fel 'Y Barri a De Caerdydd'.

11.18 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol drefniant gwahanol ar gyfer yr etholaethau yn yr ardal ac felly gwnaethant ddarparu enwau amgen.

11.19 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynigion diwygiedig, ni chafodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau ynglŷn ag enw'r etholaeth arfaethedig.

11.20 Mae’r Comisiwn o’r farn bod yr enw Cardiff South and Penarth, gyda’r enw amgen swyddogol De Caerdydd a Phenarth, yn adlewyrchu’r ardal ddaearyddol y byddai’r etholaeth argymelledig hon yn ei chynrychioli yn y ffordd orau.

# De Caerdydd a Phenarth



## 12. Cardiff West (Gorllewin Caerdydd)

Argymhelliad

**12.1 Mae'r Comisiwn yn argymell bod etholaeth fwrdeistrefol yn cael ei chreu o'r:**

**1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Caerdydd (sy'n ffurfio etholaeth fwrdeistrefol bresennol Cardiff West ar hyn o bryd):**

**Caerau (7,859), Treganna (11,457), Creigiau/Sain Ffagan (4,409), Trelái (9,576), y Tyllgoed (9,642), Llandaf (7,078), Pentyrch (2,819), Radur (5,425) a Glanyrafon (9,621); a**

**2. Ward etholiadol Pont-y-clun (6,061) o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Pontypridd ar hyn o bryd).**

**12.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 73,947 o etholwyr, sydd 0.8% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth.**

**12.3 Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw swyddogol Cardiff West ar gyfer yr etholaeth hon a'r enw amgen swyddogol Gorllewin Caerdydd.**

Cefndir

12.4 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiodd greu etholaeth fwrdeistrefol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Caerdydd (sy'n ffurfio etholaeth fwrdeistrefol bresennol Cardiff West ar hyn o bryd):

Caerau (7,859), Treganna (11,457), Creigiau/Sain Ffagan (4,409), Trelái (9,576), y Tyllgoed (9,642), Llandaf (7,078), Pentyrch (2,819), Radur (5,425) a Glanyrafon (9,621); a

2. Ward etholiadol Pont-y-clun (6,061) o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Pontypridd ar hyn o bryd).

12.5 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 73,947 o etholwyr, sydd 0.8% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Cardiff West. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd oedd Gorllewin Caerdydd.

12.6 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu cynnwys ward etholiadol Pont-y-clun yng Ngorllewin Caerdydd. Roedd y rhain yn dadlau bod Pont-y-clun o fewn ffin awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf a bod ganddi fwy o gysylltiadau cymunedol ag ardal Llantrisant a Thonysguboriau na Chaerdydd. Fodd bynnag, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn cefnogi ei etholaeth arfaethedig 'Gorllewin Caerdydd' ac yn gwrthod y gwrthgynigion gan y Blaid Geidwadol a'r Democratiaid Rhyddfrydol.

12.7 Cynigiodd y Blaid Geidwadol drosglwyddo ward etholiadol Glanyrafon o etholaeth arfaethedig 'Gorllewin Caerdydd' i etholaeth arfaethedig 'Canol Caerdydd' a chynnwys ward etholiadol Gogledd Llandaf yn etholaeth arfaethedig 'Gorllewin Caerdydd'. Cynigiodd Plaid Cymru greu set wahanol iawn o drefniadau ar draws Caerdydd, gydag etholaeth arfaethedig 'Gorllewin Caerdydd' yn derbyn wardiau etholiadol Gabalfa, Gogledd Llandaf a'r Eglwys Newydd a Thongwynlais, tra bod wardiau etholiadol Glanyrafon, Creigiau/Sain Ffagan, Pentyrch a Phont-y-clun yn trosglwyddo allan i etholaethau cymdogol. Roedd cynnig y Democratiaid Rhyddfrydol yn ymestyn etholaeth bresennol Gorllewin Caerdydd ymhellach i ardal awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf trwy gynnwys wardiau etholiadol Brynna, Llanharan a Llanhari, a throsglwyddo wardiau etholiadol Radur a Phentyrch i etholaeth arfaethedig 'Gogledd Caerdydd'. Ni chynigiodd Plaid Lafur Cymru unrhyw newidiadau i'r cynnig cychwynnol.

12.8 Cynigiodd adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol ddefnyddio etholaeth bresennol gyfan Gorllewin Caerdydd a chynnwys ward etholiadol Gogledd Llandaf o etholaeth bresennol Gogledd Caerdydd. Cynigiodd y Comisiynwyr Cynorthwyol gynnwys ward etholiadol Pont-y-clun mewn etholaeth amgen gymdogol, fel y cynigiwyd gan nifer o ymatebwyr.

12.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, cydnabu'r Comisiwn y gefnogaeth dros gynnwys Pont-y-clun mewn etholaeth arfaethedig 'Pontypridd' neu etholaeth arfaethedig 'Rhondda Cynon Taf'. Fodd bynnag, byddai'r newid hwn wedi'i gwneud yn anodd creu etholaethau cydlynol a fyddai'n cydymffurfio â Chwota Etholiadol y Deyrnas Unedig ar draws gweddill Caerdydd. Er y cyflwynwyd trefniadau amgen, prin oedd y cynrychiolaethau a oedd yn eu cefnogi. Cafodd y Comisiwn rywfaint o gefnogaeth i'r cynnig cychwynnol hefyd. Felly, penderfynodd y Comisiwn gadw ei gynnig cychwynnol.

12.10 Felly, yn ei gynigion diwygiedig, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Caerdydd (sy'n ffurfio etholaeth fwrdeistrefol bresennol Cardiff West ar hyn o bryd):
Caerau (7,859), Treganna (11,457), Creigiau/Sain Ffagan (4,409), Trelái (9,576), y Tyllgoed (9,642), Llandaf (7,078), Pentyrch (2,819), Radur (5,425) a Glanyrafon (9,621); a

2. Ward etholiadol Pont-y-clun (6,061) o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Pontypridd ar hyn o bryd).

12.11 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 73,947 o etholwyr, sydd 0.8% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Cardiff West. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd oedd Gorllewin Caerdydd.

12.12 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn 5 cynrychiolaeth yn gwrthwynebu cynnwys ward etholiadol Pont-y-clun yn ei etholaeth arfaethedig 'Gorllewin Caerdydd'. Cafodd y Comisiwn 3 cynrychiolaeth a oedd yn cefnogi'r etholaeth arfaethedig, gan gynnwys gan yr Aelod Seneddol presennol dros etholaeth Gorllewin Caerdydd a ddywedodd fod y cynigion yn synhwyrol, a bod y cyfuniad o gymunedau'n creu etholaeth gydlynol, hyd yn oed gan gynnwys Pont-y-clun o Rondda Cynon Taf. Roedd y Blaid Geidwadol yn cefnogi'r cynigion diwygiedig ar gyfer Gorllewin Caerdydd. Roedd yn cydnabod bod y cynnig wedi denu digon o gefnogaeth yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol a'r ail gyfnod ymgynghori, ac roedd o'r farn ei fod yn cyd-fynd â rheolau'r Arolwg (Rheol 5 (1) c).

12.13 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau a gafwyd ac mae wedi penderfynu argymell yr etholaeth fel y'i cynigiwyd yn ei adroddiad cynigion diwygiedig. Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod rhywfaint o wrthwynebiad i'r cynnig diwygiedig; fodd bynnag, nid yw'r Comisiwn yn gallu canfod dewis amgen addas nad yw'n tarfu'n sylweddol ar etholaethau ar draws de Cymru.

Enw argymelledig yr etholaeth

12.14 Yr enw a argymhellir ar gyfer yr etholaeth yw Cardiff West. Yr enw amgen swyddogol a argymhellir yw Gorllewin Caerdydd.


12.15 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn darparu dewisiadau amgen yn lle'r trefniadau daearyddol ar gyfer yr etholaeth arfaethedig; fodd bynnag, roedd y cynrychiolaethau'n cefnogi enw'r etholaeth arfaethedig.

12.16 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol gadw'r enw fel y'i cynigiwyd yn wreiddiol gan y Comisiwn.

12.17 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynigion diwygiedig, ni chafodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau ynglŷn ag enw'r etholaeth arfaethedig.

12.18 Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr enw Cardiff West, gyda'r enw amgen swyddogol Gorllewin Caerdydd, yn adlewyrchu'r ardal ddaearyddol y byddai'r etholaeth argymelledig hon yn ei chynrychioli yn y ffordd orau. Mae'r etholaeth bresennol gyfan yn cael ei chadw o fewn yr etholaeth argymelledig hon.

# Gorllewin Caerdydd



## 13. Ceredigion Preseli

Argymhelliad

**13.1 Mae'r Comisiwn yn argymell bod etholaeth sirol yn cael ei chreu o'r:**

**1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Ceredigion (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol Ceredigion ar hyn o bryd):**

**Aberaeron (1,088), Aberporth (1,839), Aberteifi/Cardigan-Mwldan (1,522), Aberteifi/ Cardigan-Rhyd-y-Fuwch (895), Aberteifi/Cardigan-Teifi (824), Aberystwyth Bronglais (936), Aberystwyth Canol/ Central (1,358), Aberystwyth Gogledd/North (1,478), Aberystwyth Penparcau (2,084), Aberystwyth Rheidol (1,776), Beulah (1,413), Borth (1,677), Capel Dewi (1,068), Ceulanamaesmawr (1,551), Ciliau Aeron (1,613), Faenor (1,985), Llanbedr Pont Steffan (1,660), Llanarth (1,222), Llanbadarn Fawr - Padarn (767), Llanbadarn Fawr - Sulien (973), Llandyfriog (1,466), Llandysilio-gogo (1,653), Tref Llandysul (1,067), Llanfarian (1,193), Llanfihangel Ystrad (1,666), Llangeitho (1,168), Llangybi (1,186), Llanrhystud (1,255), Llansantffraed (1,935), Llanwenog (1,419), Lledrod (1,812), Melindwr (1,578), Ceinewydd (810), Penbryn (1,762), Pen-parc (1,933), Tirymynach (1,403), Trefeurig (1,382), Tregaron (951), Troed-yr-aur (1,110) ac Ystwyth (1,673); a'r**

**2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Benfro (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Preseli Pembrokeshire ar hyn o bryd):**

**Cilgerran (1,594), Clydau (1,189), Crymych (2,099), Dinas (1,313), Gogledd-ddwyrain Abergwaun (1,495), Gogledd-orllewin Abergwaun (1,208), Wdig (1,509), Llanrhian (1,232), Maenclochog (2,462), Trefdraeth (878), Llandudoch (1,775) a Scleddau (1,158).**

**13.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 74,063 o etholwyr, sydd 0.9% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth.**

**13.3 Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw unigol Ceredigion Preseli ar gyfer yr etholaeth hon.**

Cefndir

13.4 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiodd greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Ceredigion (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol Ceredigion ar hyn o bryd):

Aberaeron (1,088), Aberporth (1,839), Aberteifi/Cardigan-Mwldan (1,522), Aberteifi/ Cardigan-Rhyd-y-Fuwch (895), Aberteifi/Cardigan-Teifi (824), Aberystwyth Bronglais (936), Aberystwyth Canol/Central (1,358), Aberystwyth Gogledd/North (1,478), Aberystwyth Penparcau (2,084), Aberystwyth Rheidol (1,776), Beulah (1,413), Borth (1,677), Capel Dewi (1,068), Ceulanamaesmawr (1,551), Ciliau Aeron (1,613), Faenor (1,985), Llanbedr Pont Steffan (1,660), Llanarth (1,222), Llanbadarn Fawr – Padarn (767), Llanbadarn Fawr – Sulien (973), Llandyfriog (1,466), Llandysilio-gogo (1,653), Tref Llandysul (1,067), Llanfarian (1,193), Llanfihangel Ystrad (1,666), Llangeitho (1,168), Llangybi (1,186), Llanrhystud (1,255), Llansantffraed (1,935), Llanwenog (1,419), Lledrod (1,812), Melindwr (1,578), Ceinewydd (810), Penbryn (1,762), Pen-parc (1,933), Tirymynach (1,403), Trefeurig (1,382), Tregaron (951), Troed-yr-aur (1,110) ac Ystwyth (1,673); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Benfro (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Preseli Pembrokeshire ar hyn o bryd):

Cilgerran (1,594), Clydau (1,189), Crymych (2,099), Dinas (1,313), Gogledd-ddwyrain Abergwaun (1,495), Gogledd-orllewin Abergwaun (1,208), Wdig (1,509), Treletert (1,873), Llanrhian (1,232), Trefdraeth (878), Tyddewi (1,521), Llandudoch (1,775), Scleddau (1,158) a Solfach (1,274).

13.5 Byddai'r etholaeth hon wedi cynnwys 76,269 o etholwyr, sydd 3.9% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Ceredigion Preseli.

13.6 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn datgan y dylai ward etholiadol Maenclochog gael ei chynnwys yn etholaeth Ceredigion Preseli ar y sail bod gan yr ardal i'r gogledd o Glunderwen gysylltiadau diwylliannol a chymdeithasol cryfach â'r etholaeth hon. Roedd cynrychiolaethau hefyd a oedd yn dadlau'r achos hwn ar sail ieithyddol ac yn awgrymu er mwyn cyflawni'r cwota etholiadol ar draws rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, y gallai Tyddewi gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Canol a De Sir Benfro. Dadleuodd y cynrychiolaethau hyn nad oes gan Dyddewi lawer yn gyffredin ag Aberystwyth. Cafodd y Comisiwn sawl cynrychiolaeth hefyd a oedd yn awgrymu creu etholaethau o ardal awdurdod lleol Sir Benfro yn unig neu o ardal awdurdod lleol Ceredigion. Fodd bynnag, roedd y ddwy etholaeth hyn y tu allan i'r cwota etholiadol.

13.7 Cynigiodd Plaid Lafur Cymru drosglwyddo Solfach a Thyddewi allan o etholaeth arfaethedig 'Ceredigion Preseli' a chynnwys Maenclochog yn lle hynny. Roedd Plaid Cymru yn cefnogi'r newidiadau hyn ond hefyd wedi cynnwys cymuned Treletert wrth gyfnewid rhwng y 2 etholaeth. Ni chynigiodd y Blaid Geidwadol a'r Democratiaid Rhyddfrydol unrhyw newidiadau i gynigion cychwynnol y Comisiwn.

13.8 Daeth adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad fod cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig cychwynnol. Gwnaethant gydnabod y pryderon a godwyd ynglŷn â maint daearyddol yr etholaeth. Fodd bynnag, roeddent yn cytuno bod yr etholaethau a grëwyd yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn yn dilyn y cysylltiadau ffyrdd mwyaf cyfleus sydd ar gael a'u bod yn gweddu orau i ffiniau gweinyddol a naturiol. Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol rai mân newidiadau i'r cynigion

cychwynnol. Gwnaethant argymell cyfnewid nifer fach o wardiau rhwng etholaethau arfaethedig 'Ceredigion Preseli' a 'Chanol a De Sir Benfro': cyfnewid Maenclochog am Dyddewi, Solfach a Threletert.

13.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, cytunodd y Comisiwn y gellid gwneud mân newidiadau i wella'r cynigion cychwynnol ar gyfer yr ardal ac adeiladu ar y cysylltiadau diwylliannol a chymdeithasol presennol. Felly, cynigiodd y Comisiwn ddileu Tyddewi, Solfach a Threletert o etholaeth arfaethedig 'Ceredigion Preseli' a chynnwys ward Maenclochog yn lle hynny.

13.10 Felly, yn ei gynigion diwygiedig, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Ceredigion (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol Ceredigion ar hyn o bryd):

Aberaeron (1,088), Aberporth (1,839), Aberteifi/Cardigan-Mwldan (1,522), Aberteifi/ Cardigan-Rhyd-y-Fuwch (895), Aberteifi/Cardigan-Teifi (824), Aberystwyth Bronglais (936), Aberystwyth Canol/Central (1,358), Aberystwyth Gogledd/North (1,478), Aberystwyth Penparcau (2,084), Aberystwyth Rheidol (1,776), Beulah (1,413), Borth (1,677), Capel Dewi (1,068), Ceulanamaesmawr (1,551), Ciliau Aeron (1,613), Faenor (1,985), Llanbedr Pont Steffan (1,660), Llanarth (1,222), Llanbadarn Fawr – Padarn (767), Llanbadarn Fawr – Sulien (973), Llandyfriog (1,466), Llandysilio-gogo (1,653), Tref Llandysul (1,067), Llanfarian (1,193), Llanfihangel Ystrad (1,666), Llangeitho (1,168), Llangybi (1,186), Llanrhystud (1,255), Llansantffraed (1,935), Llanwenog (1,419), Lledrod (1,812), Melindwr (1,578), Ceinewydd (810), Penbryn (1,762), Pen-parc (1,933), Tirymynach (1,403), Trefeurig (1,382), Tregaron (951), Troed-yr-aur (1,110) ac Ystwyth (1,673); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Benfro (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Preseli Pembrokeshire ar hyn o bryd):

Cilgerran (1,594), Clydau (1,189), Crymych (2,099), Dinas (1,313), Gogledd-ddwyrain Abergwaun (1,495), Gogledd-orllewin Abergwaun (1,208), Wdig (1,509), Llanrhian (1,232), Maenclochog (2,462), Trefdraeth (878), Llandudoch (1,775) a Scleddau (1,158).

13.11 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 74,063 o etholwyr, sydd 0.9% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol a gynigiwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Ceredigion Preseli.

13.12 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau yn erbyn y cynnig diwygiedig. Roedd y cynrychiolaethau'n gwrthwynebu cyfuno wardiau etholiadol o Geredigion a Sir Benfro ac yn dadlau y dylai fod 2 etholaeth, y dylai 1 ohonynt fod yn etholaeth wedi'i ffurfio o wardiau o ardal awdurdod lleol Sir Benfro yn unig. Cafodd y Comisiwn 1 gynrychiolaeth a oedd yn dweud bod gan ward etholiadol Tyddewi gysylltiadau agosach â'r wardiau etholiadol y cynigir eu trosglwyddo i etholaeth arfaethedig 'Ceredigion Preseli', ac felly y dylai ward Tyddewi gael ei chynnwys o fewn 'Ceredigion Preseli'. Ailgyflwynodd Cyngor Sir Ceredigion eu cyflwyniad gwreiddiol a oedd yn cynnig creu 3 etholaeth amgen yn yr ardal. Cafodd y Comisiwn 9 cynrychiolaeth a oedd yn llwyr yn erbyn y trefniant amgen a gynigiwyd gan Gyngor Sir Ceredigion; roedd y gwrthwynebiad hwn o ganlyniad i gynnwys wardiau o ogledd Sir Gaerfyrddin mewn etholaeth Ceredigion (dadleuwyd y byddai hyn yn achosi dryswch). Cafodd y Comisiwn 8 cynrychiolaeth o blaid ei gynigion diwygiedig ar gyfer etholaeth Ceredigion Preseli.

13.13 Roedd y Blaid Geidwadol yn cefnogi'r cynigion diwygiedig ar gyfer etholaeth arfaethedig 'Ceredigion Preseli'. Roedd y Blaid Geidwadol yn cefnogi trosglwyddo Maenclochog o etholaeth arfaethedig 'Canol a De Sir Benfro' i 'Geredigion Preseli', a hefyd trosglwyddo wardiau etholiadol Tyddewi, Solfach a Threletert o 'Geredigion Preseli' i etholaeth 'Canol a De Sir Benfro' fel diwygiadau synhwyrol i'r cynigion cychwynnol.

13.14 Roedd Plaid Lafur Cymru yn gryf o blaid y cynigion diwygiedig ar gyfer etholaeth arfaethedig 'Ceredigion Preseli' gan eu bod yn adlewyrchu awgrymiadau Plaid Lafur Cymru yn ystod y cyfnodau ymgynghori cychwynnol.

13.15 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau a gafwyd ac mae wedi penderfynu argymell yr etholaeth fel y'i cynigiwyd yn ei adroddiad cynigion diwygiedig. Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod rhywfaint o wrthwynebiad i'r cynnig diwygiedig; fodd bynnag, nid yw'r Comisiwn yn gallu canfod dewis amgen addas nad yw'n tarfu'n sylweddol ar etholaethau ar draws rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Enw argymelledig yr etholaeth

13.16 Yr enw unigol a argymhellir ar gyfer yr etholaeth hon yw Ceredigion Preseli.

13.17 Cynigiodd y Comisiwn yr enw Ceredigion Preseli i ddechrau. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn darparu dewisiadau amgen yn lle enw'r cynnig cychwynnol, gan gynnwys 'Ceredigion a Phreseli'.


13.18 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol gadw enw'r cynnig cychwynnol.

13.19 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynnig diwygiedig, cafodd y Comisiwn 1 gynrychiolaeth a oedd yn cynnig enwau amgen a threfniadau daearyddol amgen ar gyfer yr etholaethau yn yr ardal, sef 'Ceredigion a Dyffryn Teifi' a 'Sir Benfro'.

13.20 Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr enw Ceredigion Preseli yn adlewyrchu'r ardal ddaearyddol y byddai'r etholaeth argymelledig hon yn ei chynrychioli yn y ffordd orau. Mae'r enw'n cynrychioli'r ffaith bod ardal gyfan prif gyngor Ceredigion a'r ardal i'r gogledd o'r Preseli wedi'u cynnwys. Mae'r

Comisiwn o’r farn bod yr enw’n adnabyddadwy ac yn dderbyniol yn Gymraeg a Saesneg.

# Ceredigion Preseli



## 14. Clwyd East (Dwyrain Clwyd)

<u>Argymhelliad</u>

**14.1 Mae'r Comisiwn yn argymell bod etholaeth sirol yn cael ei chreu o'r:**

**1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir y Fflint (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Delyn ar hyn o bryd):**

**Argoed (2,167), Brynffordd (1,789), Caerwys (2,050), Cilcain (1,519), Ffynnongroyw (1,474), Maes-glas (1,983), Gronant (1,257), y Waun (1,646), Gwernymynydd (1,399), Helygain (1,427), Canol Treffynnon (1,465), Dwyrain Treffynnon (1,383) Gorllewin Treffynnon (1,762), Coed-llai (1,627), yr Wyddgrug: Broncoed (2,134), Dwyrain yr Wyddgrug (1,556), De yr Wyddgrug (2,201), Gorllewin yr Wyddgrug (1,956), Mostyn (1,458), New Brighton (2,414), Llaneurgain (2,596), Northop Hall (1,398), Trelawnyd a Gwaenysgor (1,496) a Chwitffordd (1,911);**

**2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Ddinbych (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Vale of Clwyd ar hyn o bryd):**

**Dyserth (1,882), Llandyrnog (1,765), Canol Prestatyn (2,829), Dwyrain Prestatyn (3,162), Prestatyn: Meliden (1,529), Gogledd Prestatyn (4,729), De-orllewin Prestatyn (2,861) a Thremeirchion (1,344);**

**3. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Ddinbych (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Clwyd West ar hyn o bryd):**

**Llanarmon-yn-Iâl/Llandegla (2,033), Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal (1,170), Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern (1,830) a Rhuthun (4,260);**

**4. Ward etholiadol Llangollen (3,302) o fewn Sir Ddinbych (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol Clwyd South ar hyn o bryd); a**

**5. Ward etholiadol Llangollen Wledig (1,631) o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol Clwyd South ar hyn o bryd).**

**14.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,395 o etholwyr, sydd 4.1% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth.**

**14.3 Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw swyddogol Clwyd East ar gyfer yr etholaeth hon a'r enw amgen swyddogol Dwyrain Clwyd.**

Cefndir

14.4 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiodd greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir y Fflint (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Delyn ar hyn o bryd):

Dwyrain Bagillt (1,413), Gorllewin Bagillt (1,625), Brynffordd (1,789), Caerwys (2,050), Cilcain (1,519), Ffynnongroyw (1,474), y Fflint: y Castell (1,426), y Fflint: Coleshill (2,938), y Fflint: Oakenholt (2,538), y Fflint: Trelawny (2,710), Maes-glas (1,983), Gronant (1,257), y Waun (1,646), Gwernymynydd (1,399), Helygain (1,427), Canol Treffynnon (1,465), Dwyrain Treffynnon (1,383) Gorllewin Treffynnon (1,762), yr Wyddgrug: Broncoed (2,134), Dwyrain yr Wyddgrug (1,556), De yr Wyddgrug (2,201), Gorllewin yr Wyddgrug (1,956), Mostyn (1,458), Llaneurgain (2,596), Northop Hall (1,398), Trelawnyd a Gwaenysgor (1,496) a Chwitffordd (1,911);

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Ddinbych (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Vale of Clwyd ar hyn o bryd):

Dyserth (1,882), Llandyrnog (1,765), Canol Prestatyn (2,829), Dwyrain Prestatyn (3,162), Prestatyn: Meliden (1,529), Gogledd Prestatyn (4,729), De-orllewin Prestatyn (2,861) a Thremeirchion (1,344); a'r

3. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Ddinbych (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Clwyd West ar hyn o bryd):

Llanarmon-yn-Iâl/Llandegla (2,033), Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal (1,170) a Rhuthun (4,260).

14.5 Byddai'r etholaeth hon wedi cynnwys 76,074 o etholwyr, sydd 3.7% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Delyn.

14.6 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn datgan y dylai ward etholiadol Rhuthun gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig 'Clwyd', gan nad yw preswylwyr y dref yn uniaethu â phreswylwyr yn Sir y Fflint a bod ganddynt fwy o gysylltiad ag ardaloedd yng Nghlwyd. Dadleuodd y cynrychiolaethau hyn y dylai etholaeth arfaethedig Clwyd gynnwys Llandyrnog, Llanbedr Dyffryn Clwyd yn ogystal â Rhuthun, gan ddatgan bod y lleoedd hyn yn ganolog i Ddyffryn Clwyd. Dywedodd yr Aelod Seneddol dros Ddyffryn Clwyd fod gan Landyrnog gysylltiadau cryf â Rhuthun a'i chefnwlad wledig ac y gallai etholaeth arfaethedig 'Delyn' greu cysylltiad hyfyw o gymunedau lled-wledig â diddordeb cyffredin mewn twristiaeth. Dadleuwyd hefyd nad yw cynnwys ardaloedd mwy trefol a diwydiannol o amgylch aber Afon Dyfrdwy yn cyd-fynd â'r etholaeth hon. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a oedd yn cefnogi cynnwys Rhuthun gyda wardiau etholiadol i'r de, fel Llandrillo a Chorwen. Dadleuwyd y dylai'r wardiau hyn gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig 'Sir Drefaldwyn a Glyndŵr' ar y sail bod ymdeimlad cryf iawn o gymuned rhwng yr ardaloedd hyn.

14.7 Cynigiodd y Blaid Geidwadol aildrefnu'r etholaethau yn yr ardal hon i greu 2 etholaeth newydd arfaethedig, sef 'Dwyrain Clwyd' a 'Gorllewin Clwyd', wedi'u ffurfio'n bennaf o etholaethau arfaethedig 'Delyn' a 'Chlwyd'. Cynhwyswyd ward etholiadol Rhuthun mewn etholaeth arfaethedig 'Dwyrain Clwyd' ynghyd â wardiau eraill Sir Ddinbych. Aildrefnodd Plaid Cymru yr etholaethau yn yr

ardal hefyd, gan gynnig cynnwys ward etholiadol Rhuthun yn eu hetholaeth arfaethedig 'Meirionnydd, Nant Conwy a Dinbych'. Roedd y Democratiaid Rhyddfrydol wedi cynnwys ward etholiadol Rhuthun yn eu hetholaeth arfaethedig 'Gogledd Sir Drefaldwyn a Glyndŵr'. Ni chynigiodd Plaid Lafur Cymru unrhyw newidiadau i gynigion cychwynnol y Comisiwn.

14.8 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau hefyd a oedd yn datgan y dylai ardaloedd Bagillt a'r Fflint gael eu dychwelyd i etholaeth arfaethedig 'Alun a Glannau Dyfrdwy' oherwydd bod gan yr ardaloedd hyn fwy yn gyffredin â'r etholaeth honno. Dadleuodd nifer sylweddol o gynrychiolaethau y dylai cyfansoddiad yr etholaethau arfaethedig yng ngogledd Cymru gael ei ddylunio yn ôl gwahanol ddiwylliannau'r ardaloedd, fel trefol, diwydiannol, gwledig ac arfordirol. Cynhwysodd y Blaid Geidwadol ardaloedd Bagillt a'r Fflint mewn etholaeth arfaethedig 'Alun a Glannau Dyfrdwy' hefyd. Rhannodd Plaid Cymru yr ardal, gan gynnwys y Fflint mewn etholaeth arfaethedig 'Alun a Glannau Dyfrdwy' a Bagillt mewn etholaeth arfaethedig 'Delyn'. Cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol gadw'r ardaloedd o fewn etholaeth 'Delyn'.

14.9 Cynigiodd adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol greu 2 etholaeth newydd. Roedd un yn cynnwys ardaloedd fel Conwy, ardal Llandudno, Bae Colwyn, Deganwy a Llandrillo-yn-Rhos, a'r llall yn cynnwys ardaloedd fel Dinbych, Bae Cinmel, Llanelwy, y Rhyl, Corwen a Llangollen. Dywedasant fod sawl cynrychiolaeth a oedd yn dadlau dros gynnwys wardiau'r Fflint a Bagillt mewn etholaeth arfaethedig 'Alun a Glannau Dyfrdwy'. Fodd bynnag, mae'r ardaloedd yn cynnwys mwy na 12,000 o etholwyr, felly byddai eu cynnwys yn golygu bod angen gwneud addasiadau mawr ar draws rhanbarth Gogledd Cymru er mwyn bodloni'r cwota etholiadol. O ganlyniad, nid oedd y Comisiynwyr Cynorthwyol wedi cynnwys y wardiau hyn yn eu hetholaeth arfaethedig 'Alun a Glannau Dyfrdwy'. Cynhwysodd y Comisiynwyr Cynorthwyol Ruthun mewn etholaeth gyda'r wardiau etholiadol i'r de ohoni.

14.10 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau a gafwyd ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, ceisiodd y Comisiwn fynd i'r afael â'r cynrychiolaethau, lle'r oedd yn bosibl, trwy greu etholaethau wedi'u seilio ar y gwahanol ddiwylliannau yng ngogledd Cymru, a chan ystyried yr awgrym ar gyfer etholaeth arfordirol yn bennaf sy'n cyfuno ardaloedd mwy poblog gogledd Cymru. Cytunodd y Comisiwn y dylai wardiau etholiadol y Fflint a Bagillt (gan gynnwys wardiau etholiadol Dwyrain Bagillt, Gorllewin Bagillt, y Fflint: y Castell, y Fflint: Coleshill, y Fflint: Oakenholt a'r Fflint: Trelawny) gael eu cynnwys mewn etholaeth arfaethedig 'Alun a Glannau Dyfrdwy' gan eu bod yn rhannu mwy o gysylltiadau lleol a chysylltiadau cyfathrebu â'r ardaloedd hynny. Roedd y Comisiwn hefyd yn cytuno bod gan Ruthun fwy yn gyffredin â'r cymunedau i'r de ohoni, sy'n edrych tuag at Ruthun ar gyfer eu gwasanaethau.

14.11 Felly, yn ei gynigion diwygiedig, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir y Fflint (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Delyn ar hyn o bryd):

Argoed (2,167), Brynffordd (1,789), Caerwys (2,050), Cilcain (1,519), Ffynnongroyw (1,474), Maes-glas (1,983), Gronant (1,257), y Waun (1,646), Gwernymynydd (1,399), Helygain (1,427), Canol Treffynnon (1,465), Dwyrain Treffynnon (1,383) Gorllewin Treffynnon (1,762), Coed-llai (1,627), yr Wyddgrug: Broncoed (2,134), Dwyrain yr Wyddgrug (1,556), De yr Wyddgrug (2,201), Gorllewin yr Wyddgrug (1,956), Mostyn (1,458), New Brighton (2,414), Llaneurgain (2,596), Northop Hall (1,398), Trelawnyd a Gwaenysgor (1,496) a Chwitffordd (1,911);

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Ddinbych (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Vale of Clwyd ar hyn o bryd):

Dyserth (1,882), Llandyrnog (1,765), Canol Prestatyn (2,829), Dwyrain Prestatyn (3,162), Prestatyn: Meliden (1,529), Gogledd Prestatyn (4,729), De-orllewin Prestatyn (2,861) a Thremeirchion (1,344);

3. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Ddinbych (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Clwyd West ar hyn o bryd);

Llanarmon-yn-Iâl/Llandegla (2,033), Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal (1,170), Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern (1,830) a Rhuthun (4,260);

4. Ward etholiadol Llangollen (3,302) o fewn Sir Ddinbych (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol Clwyd South ar hyn o bryd); a

5. Ward etholiadol Llangollen Wledig (1,631) o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol Clwyd South ar hyn o bryd).

14.12 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,395 o etholwyr, sydd 4.1% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigiwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Clwyd East. Yr enw amgen swyddogol a gynigiwyd oedd Dwyrain Clwyd.

14.13 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu'r etholaeth arfaethedig hon ar y sail nad oedd trefi'r Rhyl a Phrestatyn wedi cael eu cynnwys yn yr un etholaeth, gan ddadlau bod cysylltiadau cryf rhyngddynt. Dywedodd Cyngor Tref y Fflint y dylai'r Fflint a Bagillt gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig 'Dwyrain Clwyd' gan fod y cymunedau'n tueddu i edrych tuag at y gorllewin. Awgrymodd Plaid Lafur Cymru drosglwyddo ward etholiadol Llangollen Wledig i etholaeth arfaethedig 'Sir Drefaldwyn a Glyndŵr'. Roedd y Blaid Geidwadol yn cefnogi'r cynnig diwygiedig.

14.14 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau a gafwyd ac mae'n argymell cadw ei gynigion diwygiedig. Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod rhywfaint o wrthwynebiad i'r cynnig diwygiedig; fodd bynnag, nid yw'r Comisiwn yn gallu canfod dewis amgen addas nad yw'n tarfu'n sylweddol ar etholaethau ar draws rhanbarth Gogledd Cymru. Byddai'r trefniant amgen a gynigiwyd gan Blaid Lafur Cymru, er ei fod yn darparu etholaethau sy'n dod o fewn Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, yn golygu y byddai ward Esclusham, sy'n rhan o gymuned Ponciau, yn cael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig 'Wrecsam', gan ei rhannu oddi wrth weddill y gymuned.

Enw argymelledig yr etholaeth

14.15 Yr enw a argymhellir ar gyfer yr etholaeth yw Clwyd East. Yr enw amgen swyddogol a argymhellir yw Dwyrain Clwyd.


14.16 Cynigiodd y Comisiwn yr enw 'Delyn' i ddechrau; fodd bynnag, gan fod y Comisiwn wedi diwygio ei gynnig cychwynnol yn sylweddol yn seiliedig ar y cynrychiolaethau a gafwyd, roedd angen i'r trefniant daearyddol newydd gael ei adlewyrchu gan enw mwy priodol. Cafodd y Comisiwn sawl trefniant amgen ac enw amgen ar gyfer y cynigion yn yr ardal, fel creu etholaethau Dwyrain Clwyd a 'Gorllewin Clwyd', a 'Llandudno a Cholwyn'.

14.17 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol drefniant gwahanol ar gyfer yr etholaethau yn yr ardal ac felly gwnaethant ddarparu enwau amgen.

14.18 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynnig diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau ynglŷn ag enw'r etholaeth arfaethedig; roedd un gynrychiolaeth yn argymell bod yr enw 'Bryniau Clwyd' yn adlewyrchiad gwell o'r ardal ddaearyddol sydd wedi'i chynnwys yn yr etholaeth.

14.19 Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr enw Clwyd East, gyda'r enw amgen swyddogol Dwyrain Clwyd, yn adlewyrchu'r ardal ddaearyddol y byddai'r etholaeth argymelledig hon yn ei chynrychioli yn y ffordd orau, ac y byddai etholwyr yn teimlo mwy o gysylltiad ag ef.

# Dwyrain Clwyd



## 15. Clwyd North (Gogledd Clwyd)

Argymhelliad

**15.1 Mae'r Comisiwn yn argymell bod etholaeth sirol yn cael ei chreu o'r:**

**1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Ddinbych (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Vale of Clwyd ar hyn o bryd):**

**Bodelwyddan (1,612), Canol Dinbych (1,462), Dinbych Isaf (3,483), Dinbych Uchaf/ Henllan (2,265), Rhuddlan (2,913), Dwyrain y Rhyl (3,693), De y Rhyl (2,874), De-ddwyrain y Rhyl (6,253), De-orllewin y Rhyl (3,732), Gorllewin y Rhyl (3,283), Dwyrain Llanelwy (1,472), Gorllewin Llanelwy (1,290) a Threfnant (1,503); a'r**

**2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Conwy (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Clwyd West ar hyn o bryd):**

**Abergele Pensarn (1,959), Colwyn (3,373), Eirias (2,800), Gele (3,997), Glyn (3,088), Bae Cinmel (4,607), Llanddulas (1,353), Llandrillo-yn-Rhos (6,110), Llysfaen (1,906), Mochdre (1,425), Pentre Mawr (2,861), Rhiw (4,991) a Thowyn (1,845).**

**15.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,150 o etholwyr, sydd 3.8% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth.**

**15.3 Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw swyddogol Clwyd North ar gyfer yr etholaeth hon a'r enw amgen swyddogol Gogledd Clwyd.**

Cefndir

15.4 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiodd greu etholaeth sirol o’r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Ddinbych (sy’n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Vale of Clwyd ar hyn o bryd):

Bodelwyddan (1,612), Canol Dinbych (1,462), Dinbych Isaf (3,483), Dinbych Uchaf/ Henllan (2,265), Rhuddlan (2,913), Dwyrain y Rhyl (3,693), De y Rhyl (2,874), De-ddwyrain y Rhyl (6,253), De-orllewin y Rhyl (3,732), Gorllewin y Rhyl (3,283), Dwyrain Llanelwy (1,472), Gorllewin Llanelwy (1,290) a Threfnant (1,503);

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Ddinbych (sy’n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Clwyd West ar hyn o bryd):

Llanfair Dyffryn (1,830), Efenechtyd (1,321) a Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch (1,496); a’r

3. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Conwy (sy’n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Clwyd West ar hyn o bryd):

Abergele Pensarn (1,959), Betws-yn-Rhos (1,623), Colwyn (3,373), Eirias (2,800), Gele (3,997), Glyn (3,088), Bae Cinmel (4,607), Llanddulas (1,353), Llansannan (1,495), Llysfaen (1,906), Pentre Mawr (2,861), Rhiw (4,991) a Thowyn (1,845).

15.5 Byddai’r etholaeth hon wedi cynnwys 76,380 o etholwyr, sydd 4.1% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth hon oedd Clwyd.

15.6 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu'r ffaith bod Cyngor Tref Bae Colwyn yn cael ei rannu yn y cynigion cychwynnol. Mae'r cyngor tref hwn wedi'i ffurfio o nifer o gymunedau yn yr ardal. Roedd y cynrychiolaethau hyn yn galw am gadw ward etholiadol Llandrillo-yn-Rhos gyda'r cymunedau eraill sy'n ffurfio ardal y cyngor tref. Roedd nifer sylweddol o gynrychiolaethau a gafwyd yn dadlau y dylai cyfansoddiad yr etholaethau arfaethedig yng ngogledd Cymru gael ei ddylunio gan ystyried gwahanol ddiwylliannau'r ardal, fel trefol, diwydiannol, gwledig ac arfordirol.

15.7 Cynigiodd y Blaid Geidwadol greu 2 etholaeth newydd a oedd yn wahanol i etholaethau arfaethedig 'Delyn' a 'Chlwyd' y Comisiwn. Cynigiodd Plaid Cymru greu 2 etholaeth arall yng ngogledd Cymru hefyd a oedd yn wahanol iawn i'r rhai a amlinellwyd yn y cynigion cychwynnol, gyda 'Meirionnydd, Nant Conwy a Dinbych' arfaethedig yn ymestyn ar hyd ardal wledig gyfan gogledd Cymru. Roedd eu hetholaeth arfaethedig 'Llandudno a Cholwyn' yn ymestyn ar draws mwyafrif arfordir gogledd Cymru ac yn cael ei chyfuno ag ardal Llanelwy.

15.8 Argymhellodd adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol ddychwelyd ardal gyfan Cyngor Tref Bae Colwyn i un etholaeth. Fodd bynnag, byddai cymuned Abergele yn cael ei rhannu yn argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol. Cynigiodd y Comisiynwyr Cynorthwyol greu 2 etholaeth newydd, gydag un yn cynnwys ardaloedd fel Conwy, ardal Llandudno, Bae Colwyn, Deganwy a Llandrillo-yn-Rhos, a'r llall yn cynnwys ardaloedd fel Dinbych, Bae Cinmel, Llanelwy, y Rhyl, Corwen a Llangollen.

15.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, cytunodd y Comisiwn â'r cynrychiolaethau a oedd yn datgan na ddylai ardal Cyngor Tref Bae Colwyn gael ei rhannu rhwng etholaethau, ac felly diwygiodd ei gynigion i uno'r cymunedau hyn yn yr etholaeth

arfaethedig hon. Lle'r oedd yn bosibl, ceisiodd y Comisiwn fynd i'r afael â'r cynrychiolaethau a oedd yn datgan y dylai'r etholaethau gael eu seilio ar y gwahanol ddiwylliannau yng ngogledd Cymru. O ganlyniad, cynigiodd y Comisiwn greu'r etholaeth arfordirol hon yn bennaf sy'n cyfuno ardaloedd mwy poblog gogledd Cymru.

15.10 Felly, yn ei gynigion diwygiedig, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Ddinbych (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Vale of Clwyd ar hyn o bryd):

Bodelwyddan (1,612), Canol Dinbych (1,462), Dinbych Isaf (3,483), Dinbych Uchaf/ Henllan (2,265), Rhuddlan (2,913), Dwyrain y Rhyl (3,693), De y Rhyl (2,874), De-ddwyrain y Rhyl (6,253), De-orllewin y Rhyl (3,732), Gorllewin y Rhyl (3,283), Dwyrain Llanelwy (1,472), Gorllewin Llanelwy (1,290) a Threfnant (1,503); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Conwy (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Clwyd West ar hyn o bryd):

Abergele Pensarn (1,959), Colwyn (3,373), Eirias (2,800), Gele (3,997), Glyn (3,088), Bae Cinmel (4,607), Llanddulas (1,353), Llandrillo-yn-Rhos (6,110), Llysfaen (1,906), Mochdre (1,425), Pentre Mawr (2,861), Rhiw (4,991) a Thowyn (1,845).

15.11 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,150 o etholwyr, sydd 3.8% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigiwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Clwyd North. Yr enw amgen swyddogol a gynigiwyd oedd Gogledd Clwyd.

15.12 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig diwygiedig, yn bennaf gan breswylwyr Llandrillo-yn-Rhos a oedd yn dadlau bod eu hardal yn rhannu cysylltiadau gwell â'r ardaloedd sydd wedi'u cynnwys yn etholaeth arfaethedig Bangor Aberconwy. Roedd y Blaid Geidwadol yn cefnogi'r cynnig diwygiedig. Er nad oedd Plaid Lafur Cymru yn cefnogi'r etholaeth arfaethedig, ni chynigiodd drefniadau amgen ar gyfer yr ardal.

15.13 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau a gafwyd ac mae'n argymell cadw ei gynigion diwygiedig. Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod rhywfaint o wrthwynebiad i'r cynnig diwygiedig; fodd bynnag, mae'r newidiadau sydd wedi'u hadlewyrchu yn y cynnig diwygiedig yn ymateb i ddadleuon a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol na ddylai ardal Cyngor Tref Bae Colwyn gael ei rhannu ar draws 2 etholaeth, a dderbyniwyd gan y Comisiwn.

Enw argymelledig yr etholaeth

15.14 Yr enw a argymhellir ar gyfer yr etholaeth yw Clwyd North. Yr enw amgen swyddogol a argymhellir yw Gogledd Clwyd.

15.15 Cynigiodd y Comisiwn yr enw 'Clwyd' i ddechrau; fodd bynnag, gan fod y Comisiwn wedi diwygio ei gynnig cychwynnol yn sylweddol yn seiliedig ar y cynrychiolaethau a gafwyd, roedd angen i'r trefniant daearyddol newydd gael ei adlewyrchu gan enw mwy priodol. Cafodd y Comisiwn sawl trefniant amgen ac enw amgen ar gyfer y cynigion yn yr ardal, fel creu 2 etholaeth Dwyrain Clwyd a 'Gorllewin Clwyd', a 'Llandudno a Cholwyn'.


15.16 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol drefniant gwahanol ar gyfer yr etholaethau

yn yr ardal ac felly gwnaethant ddarparu enwau amgen.

15.17 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynnig diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau ynglŷn ag enw'r etholaeth arfaethedig; argymhellodd un gynrychiolaeth fod 'Colwyn a Chlwyd' yn enw gwell ar gyfer yr etholaeth arfaethedig.

15.18 Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr enw Clwyd North, gyda'r enw amgen swyddogol Gogledd Clwyd, yn adlewyrchu'r ardal ddaearyddol y byddai'r etholaeth argymelledig hon yn ei chynrychioli yn y ffordd orau, ac y byddai etholwyr yn teimlo mwy o gysylltiad ag ef.

# Gogledd Clwyd




1.Canol Dinbych (1,462)
2.Dinbych Uchaf/ Henllan (2,265)
3.De Y Rhyl (2,874)
4.De Ddwyrain Y Rhyl (6,253)
5.De Orllewin Y Rhyl (3,732)
6.Gorllewin Y Rhyl (3,283)
7.Dwyrain Llanelwy (1,472)
8.Gorllewin Llanelwy (1,290)
9.Abergele Pensarn (1,959)
10.Colwyn (3,373)
11.Llandrillo-yn-Rhos (6,110)
12.Mochdre (1,425)
13.Pentre Mawr (2,861)

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2023] OS [100047875]

## 16. Dwyfor Meirionnydd

Argymhelliad

**16.1 Mae'r Comisiwn yn argymell bod etholaeth sirol yn cael ei chreu o'r:**

**1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gwynedd (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol Dwyfor Meirionnydd ar hyn o bryd):**

**Aberdaron (698), Aberdyfi (907), Abererch (986), Abermaw (1,591), Abersoch (519), Bala (1,413), Botwnnog (734), Bowydd a'r Rhiw (1,235), Brithdir a Llanfachreth/y Ganllwyd/Llanelltud (1,132), Bryn-crug/Llanfihangel (772), Clynnog (736), Corris/Mawddwy (1,023), Cricieth (1,280), Diffwys a Maenofferen (779), Dolbenmaen (900), Gogledd Dolgellau (953), De Dolgellau (1,072), Dyffryn Ardudwy (1,169), Efail Newydd/Buan (1,026), Harlech (1,516), Llanaelhaearn (1,187), Llanbedr (768), Llanbedrog (709), Llandderfel (1,135), Llanengan (847), Llangelynin (1,625), Llanuwchllyn (686), Llanystumdwy (1,547), Morfa Nefyn (945), Nefyn (1,003), Penrhyndeudraeth (1,826), Dwyrain Porthmadog (1,178), Gorllewin Porthmadog (1,329), Porthmadog Tremadog (933), Gogledd Pwllheli (1,528), De Pwllheli (1,310), Teigl (1,355), Trawsfynydd (1,088), Tudweiliog (668) a Thywyn (2,476);**

**2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gwynedd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Arfon ar hyn o bryd):**

**Bethel (1,025), Bontnewydd (865), Cadnant (1,514), Cwm-y-Glo (753), Deiniolen (1,463), Groeslon (1,374), Llanberis (1,613), Llanllyfni (915), Llanrug (1,396), Llanwnda (1,507), Menai (Caernarfon) (1,724), Peblig (Caernarfon) (1,603), Penisarwaun (1,365), Pen-y-groes (1,369), Seiont (2,233), Tal-y-sarn (1,399), Waunfawr (1,298) a'r Felinheli (1,803); a'r**

**3. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Ddinbych (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Clwyd South ar hyn o bryd):**

**Corwen (1,799) a Llandrillo (931).**

16.2 **Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,533 o etholwyr, sydd 1.2% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth.**

16.3 **Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw unigol Dwyfor Meirionnydd ar gyfer yr etholaeth hon.**

Cefndir

16.4 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiodd greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gwynedd (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol Dwyfor Meirionnydd ar hyn o bryd):

Aberdaron (698), Aberdyfi (907), Abererch (986), Abermaw (1,591), Abersoch (519), Bala (1,413), Botwnnog (734), Bowydd a'r Rhiw (1,235), Brithdir a Llanfachreth/y Ganllwyd/Llanelltud (1,132), Bryn-crug/Llanfihangel (772), Clynnog (736), Corris/Mawddwy (1,023), Cricieth (1,280), Diffwys a Maenofferen (779), Dolbenmaen (900), Gogledd Dolgellau (953), De Dolgellau (1,072), Dyffryn Ardudwy (1,169), Efail Newydd/Buan (1,026), Harlech (1,516), Llanaelhaearn (1,187), Llanbedr (768), Llanbedrog (709), Llandderfel (1,135), Llanengan (847), Llangelynin (1,625), Llanuwchllyn (686), Llanystumdwy (1,547), Morfa Nefyn (945), Nefyn (1,003), Penrhyndeudraeth (1,826), Dwyrain Porthmadog (1,178), Gorllewin Porthmadog (1,329), Porthmadog Tremadog (933), Gogledd Pwllheli (1,528), De Pwllheli (1,310), Teigl (1,355), Trawsfynydd (1,088), Tudweiliog (668) a Thywyn (2,476); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gwynedd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Arfon ar hyn o bryd):

Bethel (1,025), Bontnewydd (865), Cadnant (1,514), Cwm-y-Glo (753), Deiniolen (1,463), Groeslon (1,374), Llanberis (1,613), Llanllyfni (915), Llanrug (1,396), Llanwnda (1,507), Menai (Caernarfon) (1,724), Peblig (Caernarfon) (1,603), Penisarwaun (1,365), Pentir (2,159), Pen-y-groes (1,369), Seiont

(2,233), Tal-y-sarn (1,399), Waunfawr (1,298) a'r Felinheli (1,803).

16.5 Byddai'r etholaeth hon wedi cynnwys 71,962 o etholwyr, sydd 1.9% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Dwyfor Meirionnydd.

16.6 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau ynglŷn â wardiau etholiadol Pentir, Ogwen, Gerlan ac Arllechwedd, gyda'r holl ymatebwyr yn dadlau bod y wardiau hyn yn rhan annatod o ardal Arfon o ran cysylltiadau lleol a hunaniaeth. Dywedodd rhai cynrychiolaethau fod y cynigion cychwynnol ar gyfer yr ardal yn rhannu Dinas Bangor rhwng 2 etholaeth, gan ddadlau bod ward etholiadol Pentir yn estyniad o Ddinas Bangor. Roedd llawer o'r cynrychiolaethau'n gwrthwynebu dileu Dinas Bangor o etholaeth Caernarfon. Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn cyfeirio at faint daearyddol yr etholaeth arfaethedig hefyd.

16.7 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a oedd yn awgrymu creu etholaethau yng ngogledd Cymru ar sail amgylcheddau diwylliannol tebyg. Roedd trefniant i'r perwyl hwn a dderbyniwyd yn rhan o gynrychiolaethau yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol yn cynnwys etholaethau a oedd y tu hwnt i'r amrediad etholwyr gofynnol. Fodd bynnag, roedd cynnig a gafwyd yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori yn cynnwys etholaethau a oedd yn bodloni'r meini prawf o ran y cwota etholiadol. Awgrymwyd mân newidiadau i gynigion cychwynnol y Comisiwn a oedd yn creu etholaethau o fewn y cwota etholiadol, ond heb fynd i'r afael â'r effeithiau pellgyrhaeddol y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar weddill Cymru.

16.8 Cynigiodd y Blaid Geidwadol newid bach i etholaeth arfaethedig 'Dwyfor Meirionnydd' trwy symud ward Pentir a'i chyfuno â gweddill Dinas Bangor mewn etholaeth arfaethedig 'Aberconwy'. Cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol gynnwys Pentir yn etholaeth arfaethedig 'Aberconwy' hefyd.

Roedd cynnig Plaid Cymru yn cynnwys ail-lunio ffiniau etholaethau yng ngogledd Cymru i greu etholaeth 'Menai' a oedd yn cynnwys Caernarfon a Bangor; fodd bynnag, roedd y cynllun hwn yn rhannu cymuned Conwy rhwng etholaethau.

16.9 Nododd adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol fod gwahaniaeth barn ynglŷn â ffurfweddiad yr etholaethau yn yr ardal. Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol gynnwys Pentir, Bethesda a Phenrhosgarnedd gyda gweddill Dinas Bangor ac etholaeth bresennol Arfon mewn etholaeth arfaethedig 'Menai'. Byddent hefyd wedi dychwelyd ardal gyfan Cyngor Tref Bae Colwyn i un etholaeth arfaethedig. Fodd bynnag, byddai creu'r etholaethau hyn wedi rhannu cymuned Abergele.

16.10 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau a gafwyd ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, cytunodd y Comisiwn â'r cynrychiolaethau a ddywedodd fod ward Pentir yn estyniad o Ddinas Bangor ac felly y dylai gael ei chynnwys yn yr un etholaeth. Roedd y Comisiwn o blaid y trefniadau amgen a gynigiwyd; fodd bynnag, nid oedd y Comisiwn o'r farn bod yr amgylchiadau'n cyfiawnhau rhannu cymuned Abergele. Roedd y Comisiwn o'r farn bod yr ardaloedd a oedd yn weddill yn ei etholaeth arfaethedig Dwyfor Meirionnydd ar ôl dileu Pentir wedi'u cysylltu'n dda trwy gysylltiadau trafnidiaeth a'u bod yn debyg o ran cymeriad. Felly, daeth y Comisiwn i'r casgliad y byddai ei drefniant diwygiedig bwriadedig yn creu etholaeth gydlynol.

16.11 Felly, yn ei gynigion diwygiedig, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gwynedd (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol Dwyfor Meirionnydd ar hyn o bryd):

Aberdaron (698), Aberdyfi (907), Abererch (986), Abermaw (1,591), Abersoch (519), Bala (1,413), Botwnnog (734), Bowydd a'r Rhiw (1,235), Brithdir a Llanfachreth/y Ganllwyd/Llanelltud (1,132), Bryn-crug/Llanfihangel (772), Clynnog (736), Corris/Mawddwy (1,023), Cricieth (1,280), Diffwys a

Maenofferen (779), Dolbenmaen (900), Gogledd Dolgellau (953), De Dolgellau (1,072), Dyffryn Ardudwy (1,169), Efail Newydd/Buan (1,026), Harlech (1,516), Llanaelhaearn (1,187), Llanbedr (768), Llanbedrog (709), Llandderfel (1,135), Llanengan (847), Llangelynin (1,625), Llanuwchllyn (686), Llanystumdwy (1,547), Morfa Nefyn (945), Nefyn (1,003), Penrhyndeudraeth (1,826), Dwyrain Porthmadog (1,178), Gorllewin Porthmadog (1,329), Porthmadog Tremadog (933), Gogledd Pwllheli (1,528), De Pwllheli (1,310), Teigl (1,355), Trawsfynydd (1,088), Tudweiliog (668) a Thywyn (2,476); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gwynedd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Arfon ar hyn o bryd):

Bethel (1,025), Bontnewydd (865), Cadnant (1,514), Cwm-y-Glo (753), Deiniolen (1,463), Groeslon (1,374), Llanberis (1,613), Llanllyfni (915), Llanrug (1,396), Llanwnda (1,507), Menai (Caernarfon) (1,724), Peblig (Caernarfon) (1,603), Penisarwaun (1,365), Pen-y-groes (1,369), Seiont (2,233), Tal-y-sarn (1,399), Waunfawr (1,298) a'r Felinheli (1,803).

16.12 Byddai'r etholaeth hon wedi cynnwys 69,803 o etholwyr, sydd 4.9% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol a gynigiwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Dwyfor Meirionnydd.

16.13 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn 7 cynrychiolaeth yn ymwneud â maint daearyddol yr etholaeth arfaethedig. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a oedd yn galaru dros golli etholaeth bresennol Arfon ac yn cynnig trefniadau amgen a oedd yn cadw'r etholaeth bresennol. Yn ogystal, cafodd y Comisiwn 4 cynrychiolaeth a gynigiodd fân ddiwygiad i'r etholaeth arfaethedig er mwyn cynnwys wardiau etholiadol Corwen a Llandrillo, ar sail cysylltiadau lleol. Gallai'r diwygiad hwn gael ei wneud gan barchu Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig yn y ddwy etholaeth dan sylw.

16.14 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau a gafwyd ac mae'n argymell cynnwys wardiau etholiadol Corwen a Llandrillo yn yr etholaeth argymelledig. Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod hyn yn cynyddu nifer yr awdurdodau lleol sydd wedi'u cynnwys yn yr etholaeth argymelledig. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn bod cynnwys y wardiau hyn mewn etholaeth Dwyfor Meirionnydd yn gwella'r cysylltedd ffyrdd o fewn yr etholaeth, ac yn parchu cysylltiadau lleol yn yr ardal yn ogystal â ffiniau sir hanesyddol Sir Feirionnydd.

Enw argymelledig yr etholaeth

16.15 Yr enw unigol a argymhellir ar gyfer yr etholaeth hon yw Dwyfor Meirionnydd.

16.16 Cafodd y Comisiwn sawl trefniant amgen ar gyfer yr ardal ac awgrymwyd enwau amgen ar eu cyfer. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a oedd yn cynnwys enwau amgen ar gyfer ei etholaeth arfaethedig, yn herio pam nad oedd cyfeiriad at Arfon yn enw'r etholaeth arfaethedig. Cafodd y Comisiwn awgrymiadau amgen fel 'Arfon Dwyfor Meirionnydd', 'Arfon Dwyfor', a 'Gwynedd'.


16.17 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol drefniant gwahanol ar gyfer yr etholaethau yn yr ardal ac felly gwnaethant ddarparu enwau amgen.

16.18 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynnig diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau ychwanegol a gynigiodd enwau amgen ar gyfer yr etholaeth arfaethedig. Yr enwau amgen a gynigiwyd oedd 'Arfon Dwyfor Meirionnydd', 'Caernarfon Meirionnydd', neu 'Gwynedd'.

16.19 Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr enw Dwyfor Meirionnydd yn adlewyrchu'r ardal ddaearyddol y byddai'r etholaeth argymelledig hon yn ei chynrychioli yn y ffordd orau, ac y byddai etholwyr yn debygol o deimlo mwy o gysylltiad ag ef. Mae'r etholaeth bresennol yn cael ei chadw'n gyfan gwbl o fewn yr etholaeth argymelledig. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr enw'n adnabyddadwy ac

yn dderbyniol yn Gymraeg a Saesneg.

# Dwyfor Meirionnydd



## 17. Gower (Gŵyr)

Argymhelliad

**17.1 Mae'r Comisiwn yn argymell bod etholaeth sirol yn cael ei chreu o'r:**

**1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Gower ar hyn o bryd):**

**Llandeilo Ferwallt (2,743), Fairwood (2,278), Gorseinon (3,340), Gŵyr (2,990), Tregŵyr (3,978), Kingsbridge (3,506), Llangyfelach (3,946), Casllwchwr Isaf (1,795), Mawr (1,438), Newton (2,894), Ystumllwynarth (3,313), Penclawdd (2,932), Penllergaer (2,553), Pennard (2,229), Penyrheol (4,621), Pontarddulais (4,954), Casllwchwr Uchaf (2,146) a West Cross (5,142); a'r**

**2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol bresennol Swansea West ar hyn o bryd):**

**Y Cocyd (10,473), Dyfnant (3,494), Gogledd Cilâ (2,031), De Cilâ (1,857) a Mayals (2,148).**

**17.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,801 o etholwyr, sydd 4.6% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth.**

**17.3 Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw swyddogol Gower ar gyfer yr etholaeth hon a'r enw amgen swyddogol Gŵyr.**

Cefndir

17.4 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiodd greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Gower ar hyn o bryd):

Llandeilo Ferwallt (2,743), Fairwood (2,278), Gorseinon (3,340), Gŵyr (2,990), Tregŵyr (3,978), Kingsbridge (3,506), Casllwchwr Isaf (1,795), Newton (2,894), Ystumllwynarth (3,313), Penclawdd (2,932), Pennard (2,229), Penyrheol (4,621), Casllwchwr Uchaf (2,146) a West Cross (5,142); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol bresennol Swansea West ar hyn o bryd):

Y Cocyd (10,473), Dyfnant (3,494), Gogledd Cilâ (2,031), De Cilâ (1,857), Mayals (2,148) a Sgeti (11,304).

17.5 Byddai'r etholaeth hon wedi cynnwys 75,214 o etholwyr, sydd 2.5% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Swansea West and Gower. Yr enw amgen a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Gorllewin Abertawe a Gŵyr.

17.6 Derbyniodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn cynnig gwrthgynnig ar gyfer 'Gorllewin Abertawe a Gŵyr', a 'Chanol a Gogledd Abertawe', gan ddatgan bod y trefniant amgen yn adlewyrchu cysylltiadau cymunedol yn well o fewn Dinas a Sir Abertawe o ran ffydd, addysg a diwylliant. Roedd rhywfaint o gefnogaeth i'r gwrthgynnig, gan ddadlau ei fod yn sicrhau na fyddai cymunedau lleiafrifol yn cael eu rhannu rhwng etholaethau ac y byddai myfyrwyr yn byw ac yn astudio yn yr un etholaeth.

17.7 Roedd y Blaid Geidwadol yn gryf o blaid cynigion cychwynnol y Comisiwn ar gyfer ardal Abertawe. Cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol drefniadau ychydig yn wahanol ar draws Abertawe i wneud iawn am eu newidiadau arfaethedig i'w hetholaethau arfaethedig 'Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd', ac 'Aberhonddu a Maesyfed'. Cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol greu etholaeth 'Gŵyr a Gorllewin Abertawe' a oedd yn cynnwys wardiau ychwanegol o ganol Abertawe, gyda wardiau Casllwchwr Uchaf, y Cocyd, Penyrheol, Casllwchwr Isaf, Kingsbridge a Gorseinon yn cael eu trosglwyddo

allan i etholaeth arfaethedig 'Gogledd Abertawe'. Cynigiodd cyflwyniad Plaid Cymru greu trefniant gwahanol ar gyfer Abertawe, gydag etholaeth 'Lliw a Thawe' wedi'i ffurfio o rannau o ogledd Abertawe a rhannau o Gwm Nedd. O ganlyniad i greu'r etholaeth arfaethedig 'Lliw a Thawe' hon, cynigiodd Plaid Cymru hefyd greu etholaethau 'Dwyrain Abertawe', a 'Gorllewin Abertawe a Gŵyr' o weddill Dinas a Sir Abertawe. Gwnaeth cyflwyniad Plaid Cymru newidiadau tebyg i rai'r Democratiaid Rhyddfrydol, gyda wardiau Kingsbridge, Gorseinon a Chasllwchwr yn cael eu trosglwyddo allan a ward fwy canolog Uplands yn cael ei throsglwyddo i mewn. Cynigiodd Plaid Lafur Cymru greu etholaeth 'Gŵyr a Gorllewin Abertawe' a oedd yn cynnwys wardiau etholiadol Mawr, Pontarddulais, Llangyfelach a Phenllergaer, ac yn dileu wardiau etholiadol Mayals a Sgeti.

17.8 Cynigiodd adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol drefniadau gwahanol i'r cynigion cychwynnol ar gyfer ardal Abertawe oherwydd eu bod yn credu'n gryf y dylai Cymoedd Tawe ac Aman Uchaf fod yn rhan o ardal Abertawe gan fod cysylltiadau cymdeithasol, economaidd, cymunedol a gweinyddol yr holl ardaloedd hyn gyda chytref Abertawe/Castell-nedd. Roedd hyn yn golygu bod angen siâp gwahanol ar gyfer yr etholaethau i fodloni'r amrediad etholwyr statudol. Roedd y newidiadau a gynigiodd y Comisiynwyr Cynorthwyol i gynnig cychwynnol y Comisiwn ar gyfer yr etholaeth hon yn adlewyrchu rhai o'r cynrychiolaethau a gafwyd. Byddai wardiau etholiadol Gorseinon a Phenyrheol yn cael eu dileu, a ward etholiadol Uplands yn cael ei hychwanegu, gan ei huno â ward Sgeti yn yr un etholaeth.

17.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, roedd y Comisiwn o blaid y trefniadau amgen a gynigiwyd. Fodd bynnag, byddai'r gwrthgynigion a gyflwynwyd gan Blaid Lafur Cymru a'r Comisiynwyr Cynorthwyol wedi rhannu cymuned y Mwmbwls neu gymuned Casllwchwr (yn ôl eu trefn), ac nid oedd y Comisiwn yn credu bod yr amgylchiadau'n cyfiawnhau hynny. Roedd y Comisiwn hefyd o'r farn ei bod yn amhriodol creu etholaethau ar sail ffydd, gwahaniaethau hiliol neu statws addysgol, a fyddai wedi digwydd trwy ddilyn dewisiadau amgen a gynigiwyd yn ystod

y cam ymgynghori ynglŷn â'r cynigion cychwynnol.

17.10 Felly, yn ei gynigion diwygiedig, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Gower ar hyn o bryd):

Llandeilo Ferwallt (2,743), Fairwood (2,278), Gorseinon (3,340), Gŵyr (2,990), Tregŵyr (3,978), Kingsbridge (3,506), Casllwchwr Isaf (1,795), Newton (2,894), Ystumllwynarth (3,313), Penclawdd (2,932), Pennard (2,229), Penyrheol (4,621), Casllwchwr Uchaf (2,146) a West Cross (5,142); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol bresennol Swansea West ar hyn o bryd):

Y Cocyd (10,473), Dynfant (3,494), Gogledd Cilâ (2,031), De Cilâ (1,857), Mayals (2,148) a Sgeti (11,304).

17.11 Byddai'r etholaeth hon wedi cynnwys 75,214 o etholwyr, sydd 2.5% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Swansea West and Gower. Yr enw amgen a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Gorllewin Abertawe a Gŵyr.

17.12 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn 12 cynrychiolaeth a oedd yn gwrthwynebu etholaeth arfaethedig 'Canol a Gogledd Abertawe', a 'Gorllewin Abertawe a Gŵyr'. Cafodd y Comisiwn 3 gwrthgynnig ar gyfer yr ardal. Roedd y gwrthgynnig cyntaf yn cynnig defnyddio wardiau llywodraeth leol newydd, sydd y tu allan i gwmpas yr arolwg hwn. Gwnaed yr ail a'r trydydd gwrthgynnig gan yr Aelod Seneddol dros etholaeth bresennol Gorllewin Abertawe. Yr opsiwn a ffafriwyd gan yr Aelod Seneddol oedd trosglwyddo wardiau etholiadol Mawr, Pontarddulais a Phenllergaer o etholaeth arfaethedig 'Canol a Gogledd Abertawe' i etholaeth newydd 'Gŵyr' (mae'r

wardiau hyn yn etholaeth bresennol Gŵyr ar hyn o bryd), a throsglwyddo ward etholiadol Sgeti i etholaeth arfaethedig ‘Gorllewin Abertawe’. Y trydydd gwrthgynnig oedd trosglwyddo Sgeti i etholaeth arfaethedig ‘Gorllewin Abertawe’ a symud wardiau Pontarddulais, Penllergaer a Llangyfelach i etholaeth newydd ‘Gŵyr’. Byddai’r ddau gynnig yn golygu bod etholaethau’n cydymffurfio â Chwota Etholiadol y Deyrnas Unedig a byddai ganddynt gysylltiadau ffyrdd a chyfathrebu da.

17.13 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau a gafwyd. Mae argymhelliad y Comisiwn ar gyfer yr etholaeth hon yn adlewyrchu’n fras y trydydd gwrthgynnig o’r cyfnod ymgynghori ynglŷn â’r cynigion diwygiedig, a ddisgrifir uchod. Fodd bynnag, mae’r Comisiwn hefyd wedi cynnwys tref Sgiwen yn ei etholaeth argymelledig Castell-nedd a Dwyrain Abertawe, sy’n golygu bod ward etholiadol Glandŵr wedi’i chynnwys yn etholaeth argymelledig Gorllewin Abertawe a bod ward etholiadol Mawr wedi’i chynnwys yn etholaeth argymelledig Gŵyr er mwyn sicrhau bod pob etholaeth argymelledig yn bodloni Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig. Mae’r trefniant hwn yn dychwelyd nifer o wardiau etholiadol a gynhwyswyd yn etholaeth arfaethedig ‘Gŵyr a Gorllewin Abertawe’ i etholaethau newydd ‘Gŵyr’ a ‘Gorllewin Abertawe’ ac mae’n ychwanegu at y cysylltiadau cymunedol sy’n bodoli yn yr ardal, ar yr un pryd â golygu y gellir bodloni Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig ar draws etholaethau yn ne Cymru ar y cyd â newidiadau a wnaed i etholaethau eraill.

<u>Enw argymelledig yr etholaeth</u>

17.14 Yr enw a argymhellir ar gyfer yr etholaeth yw Gower. Yr enw amgen swyddogol a argymhellir ar gyfer yr etholaeth yw Gŵyr.

17.15 Cafodd y Comisiwn dystiolaeth a oedd yn argymell rhai mân newidiadau i’r cynnig cychwynnol, a chafodd rai cynigion sylweddol wahanol ar draws Abertawe gyfan hefyd o ganlyniad i gynnwys ardal Cwm-tawe yng nghynigion Abertawe. Cynigiwyd enwau amgen gan y Blaid Geidwadol a Chymdeithas Gŵyr a oedd yn credu y dylai’r etholaeth arfaethedig gael ei henwi’n ‘Gŵyr a Gorllewin

Abertawe’ gan ei bod yn cynnwys ardal gyfan etholaeth bresennol Gŵyr yn ei chyfanrwydd.

17.16 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol drefniant gwahanol ar gyfer yr etholaethau yn yr ardal ac felly gwnaethant ddarparu enwau amgen.

17.17 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â’r cynnig diwygiedig, ni chafodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau ynglŷn ag enw’r etholaeth arfaethedig. O ran yr etholaeth argymelledig, yr enw a awgrymwyd yn y gwrthgynnig oedd ‘Gŵyr’.

17.18 Mae’r Comisiwn o’r farn bod yr enw Gower, ynghyd â’r enw amgen swyddogol Gŵyr, yn adlewyrchu’r ardal ddaearyddol y byddai’r etholaeth argymelledig hon yn ei chynrychioli yn y ffordd orau, ac y byddai etholwyr yn fwy tebygol o deimlo cysylltiad ag ef. Byddai ardal gyfan etholaeth bresennol Gŵyr yn cael ei chynnwys yn yr etholaeth argymelledig.


# Gŵyr

0 5

Cilomedrau

Graddfa 1:138,100

1. Llandeilo Ferwallt (2,743)
2. Dyfnant (3,494)
3. Gorseinon (3,340)
4. Gogledd Cilâ (2,031)
5. De Cilâ (1,857)
6. Pontybrenin (3,506)
7. Llwchwr Isaf (1,795)
8. Newton (2,849)
9. Ystumllwynarth (3,313)
10. Llwchwr Uchaf (2,146)
11. Penlle'r-gaer (2,553)




Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2023] OS [100047875]

## 18. Llanelli

Argymhelliad

**18.1 Mae'r Comisiwn yn argymell bod etholaeth sirol yn cael ei chreu o'r:**

**1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gaerfyrddin (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol Llanelli ar hyn o bryd):**

**Bigyn (4,544), Porth Tywyn (3,278), Bynea (3,282), Dafen (2,456), Elli (2,357), Felinfoel (1,334), Glan-y-môr (4,312), Glyn (1,661), Hendy (2,697), Hengoed (3,352), Cydweli (2,818), Llangennech (3,954), Llannon (4,079), Lliedi (3,825), Llwynhendy (3,010), Pen-bre (3,417), Pontyberem (2,154), Swiss Valley (2,097), Trimsaran (1,887), Tycroes (1,862) a Thyisha (2,390); a'r**

**2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gaerfyrddin (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Carmarthen East and Dinefwr ar hyn o bryd):**

**Gors-las (3,906), Llangyndeyrn (2,905) a Llanismel (2,318).**

**18.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 69,895 o etholwyr, sydd 4.8% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth.**

**18.3 Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw unigol Llanelli ar gyfer yr etholaeth hon.**

Cefndir

18.4 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiodd greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gaerfyrddin (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol Llanelli ar hyn o bryd):

Bigyn (4,544), Porth Tywyn (3,278), Bynea (3,282), Dafen (2,456), Elli (2,357), Felinfoel (1,334), Glan-y-môr (4,312), Glyn (1,661), Hendy (2,697), Hengoed (3,352), Cydweli (2,818), Llangennech (3,954), Llannon (4,079), Lliedi (3,825), Llwynhendy (3,010), Pen-bre (3,417), Pontyberem (2,154), Swiss Valley (2,097), Trimsaran (1,887), Tycroes (1,862) a Thyisha (2,390); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gaerfyrddin (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Carmarthen East and Dinefwr ar hyn o bryd):

Gors-las (3,906), Llangynnwr (2,077), Llangyndeyrn (2,905) a Llanismel (2,318).

18.5 Byddai'r etholaeth hon wedi cynnwys 71,972 o etholwyr, sydd 1.9% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Llanelli.

18.6 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn cefnogi creu 2 etholaeth yn cynnwys wardiau etholiadol o Sir Gaerfyrddin yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, roedd cryn wrthwynebiad i gynnwys ward Llangynnwr yn etholaeth arfaethedig Llanelli, ar y sail bod gorsaf drenau Caerfyrddin o fewn ward etholiadol Llangynnwr. Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau hefyd a oedd yn gwrthwynebu cynnwys yr ardaloedd o etholaeth bresennol Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr mewn etholaeth arfaethedig 'Llanelli' o ganlyniad i'r gwahaniaethau rhwng y ddwy ardal.

18.7 Cafodd y Comisiwn 5 cynrychiolaeth yn yr ail gyfnod ymgynghori a oedd yn gwrthwynebu cynnwys ardaloedd gwledig o Gaerfyrddin yn etholaeth arfaethedig 'Llanelli'. Roedd y gwrthwynebiad hwn wedi'i seilio'n bennaf ar y gwahaniaethau rhwng y ddwy ardal.

18.8 Ystyriodd adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol nifer o drefniadau amgen, ond daethant i'r casgliad nad oeddent yn adlewyrchu cysylltiadau lleol. Felly, roedd y Comisiynwyr

Cynorthwyol yn cefnogi'r cynnig cychwynnol gyda newid i un ward etholiadol, gan argymell bod Llangynnwr yn cael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig 'Caerfyrddin' yn seiliedig ar y dadleuon a wnaed yn y cynrychiolaethau.

18.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, cydnabu'r Comisiwn y dryswch a fyddai'n cael ei greu trwy beidio â chynnwys ward etholiadol Llangynnwr, sy'n cynnwys gorsaf drenau Tref Caerfyrddin, yn etholaeth arfaethedig 'Caerfyrddin'. Yn anffodus, o ganlyniad i'r angen i gynnig etholaeth sy'n bodloni'r meini prawf statudol, nid oedd y Comisiwn yn gallu mynd i'r afael â'r pryderon eraill ynglŷn â chynnwys y wardiau etholiadol o etholaeth bresennol Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr yn etholaeth arfaethedig 'Llanelli'. Derbyniodd y Comisiwn fod gwahaniaethau rhwng yr ardaloedd; fodd bynnag, mae'r ddwy etholaeth arfaethedig yn dod yn gyfan gwbl o fewn ardal prif gyngor Sir Gaerfyrddin.

18.10 Felly, yn ei gynigion diwygiedig, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gaerfyrddin (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol Llanelli ar hyn o bryd):
Bigyn (4,544), Porth Tywyn (3,278), Bynea (3,282), Dafen (2,456), Elli (2,357), Felinfoel (1,334), Glan-y-môr (4,312), Glyn (1,661), Hendy (2,697), Hengoed (3,352), Cydweli (2,818), Llangennech (3,954), Llannon (4,079), Lliedi (3,825), Llwynhendy (3,010), Pen-bre (3,417), Pontyberem (2,154), Swiss Valley (2,097), Trimsaran (1,887), Tycroes (1,862) a Thyisha (2,390); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gaerfyrddin (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Carmarthen East and Dinefwr ar hyn o bryd):
Gors-las (3,906), Llangyndeyrn (2,905) a Llanismel (2,318).

18.11 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 69,895 o etholwyr, sydd 4.8% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol a gynigiwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Llanelli.

18.12 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn 1 gynrychiolaeth yn datgan y dylai ward etholiadol Llangyndeyrn gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig 'Caerfyrddin' ac nid yn etholaeth arfaethedig 'Llanelli'. Cafodd y Comisiwn rai cynrychiolaethau o blaid ei fân ddiwygiad i'w gynigion cychwynnol i gynnwys ward etholiadol Llangynnwr yn ei etholaeth arfaethedig 'Caerfyrddin', gan gynnwys gan y Blaid Geidwadol a Phlaid Lafur Cymru.

18.13 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau a gafwyd ac mae'n argymell cadw ei gynnig diwygiedig gan ei fod yn cyfuno ardaloedd sy'n dod yn gyfan gwbl o fewn ardal Cyngor Sir Caerfyrddin ac sy'n rhannu cysylltiadau trafnidiaeth da. Nid yw'r Comisiwn wedi argymell dileu ward Llangyndeyrn o'r etholaeth hon, o ganlyniad i'r angen i gydymffurfio â Chwota Etholiadol y Deyrnas Unedig. Mae'r Comisiwn wedi mynd i'r afael â mater Llangynnwr a godwyd mewn cyfnodau ymgynghori blaenorol ac mae'n credu bod y trefniant argymelledig yn darparu etholaeth gydlynol.

Enw argymelledig yr etholaeth

18.14 Yr enw unigol a argymhellir ar gyfer yr etholaeth hon yw Llanelli.

18.15 Ni chafodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau ynglŷn â'r enw.


18.16 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol gadw enw arfaethedig yr etholaeth.

18.17 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynnig diwygiedig, ni chafodd y Comisiwn

unrhyw gynrychiolaethau ynglŷn ag enw'r etholaeth arfaethedig.

18.18 Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr enw Llanelli yn adlewyrchu'r ardal ddaearyddol y byddai'r etholaeth argymelledig hon yn ei chynrychioli yn y ffordd orau. Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr enw'n adnabyddadwy ac yn dderbyniol yn Gymraeg a Saesneg.

# Llanelli


0
5
Cilomedrau
Graddfa 1:120,300
1.Bigyn (4,544)
2.Porth Tywyn (3,278)
3.Dafen (2,456)
4.Elli (2,357)
5.Felin-foel (1,334)
6.Lliedi (3,825)
7.Llwynhendy (3,010)
8.Tyisha (2,390)
Gorslas (3,906)
Llangyndeyrn (2,905)
Llanismel (2,318)
Pontyberem (2,154)
Llan-non (4,079)
Tŷ-croes (1,862)
Cydweli (2,818)
Glyn (1,661)
Trimsaran (1,887)
Hendy (2,697)
Swiss Valley (2,097)
Pen-bre (3,417)
Hengoed (3,352)
Llangennech (3,954)
Bynea (3,282)
Glan-y-môr (4,312)
1
2
3
4
5
6
7
8
Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2023] OS [100047875]

## 19. Merthyr Tydfil and Aberdare (Merthyr Tudful ac Aberdâr)

Argymhelliad

**19.1 Mae'r Comisiwn yn argymell bod etholaeth sirol yn cael ei chreu o:**

**1. Ardal gyfan prif gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Merthyr Tydfil and Rhymney ar hyn o bryd):**

**Bedlinog (2,977), Cyfarthfa (5,457), Dowlais (5,014), Gurnos (3,477), Ynysowen (2,798), y Parc (3,296), Penydarren (3,818), Plymouth (4,096), y Dref (5,998), Treharris (5,270) a Faenor (2,880); a'r**

**2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol Cynon Valley ar hyn o bryd):**

**Gogledd Aberaman (3,609), De Aberaman (3,541), Dwyrain Aberdâr (4,909), Gorllewin Aberdâr/ Llwydcoed (7,404), Cwm-bach (3,751), Hirwaun (3,167), Pen-y-waun (1,973) a Rhigos (1,370).**

**19.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 74,805 o etholwyr, sydd 1.9% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth.**

**19.3 Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw swyddogol Merthyr Tydfil and Aberdare ar gyfer yr etholaeth hon a'r enw amgen swyddogol Merthyr Tudful ac Aberdâr.**

Cefndir

19.4 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiodd greu etholaeth sirol o:

1. Ardal gyfan prif gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Merthyr Tydfil and Rhymney ar hyn o bryd):

Bedlinog (2,977), Cyfarthfa (5,457), Dowlais (5,014), Gurnos (3,477), Ynysowen (2,798), y Parc (3,296), Penydarren (3,818), Plymouth (4,096), y Dref (5,998), Treharris (5,270) a Faenor (2,880);

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol Cynon Valley ar hyn o bryd):

Dwyrain Aberdâr (4,909), Gorllewin Aberdâr/Llwydcoed (7,404), Cwm-bach (3,751), Hirwaun (3,167), Pen-y-waun (1,973) a Rhigos (1,370); a

3. Ward etholiadol Nelson (3,563) o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Caerphilly ar hyn o bryd).

19.5 Byddai'r etholaeth hon wedi cynnwys 71,218 o etholwyr, sydd 3% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Merthyr Tydfil and Aberdare. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Merthyr Tudful ac Aberdâr.

19.6 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig cychwynnol i rannu etholaeth bresennol Cwm Cynon. Amlygodd nifer o'r cynrychiolaethau y cysylltiadau lleol agos sy'n bodoli rhwng ardaloedd yng Nghwm Cynon, fel Aberpennar, Aberdâr ac Aberaman, yn ogystal â'r cysylltiadau rhwng yr ardal hon a wardiau Hirwaun a Rhigos. Dadleuodd cynrychiolaethau eraill fod anghenion tref gyfagos Merthyr Tudful yn drech na phryderon ac anghenion preswylwyr Cwm Cynon. Dadleuodd rhai cynrychiolaethau fod y ddwy ardal yn sylweddol wahanol ac yn haeddu eu cynrychiolaeth unigol eu hunain. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd yn dadlau yn erbyn cyfuno hanner isaf Cwm Cynon ag ardal Pontypridd.

19.7 Cynigiodd y Blaid Geidwadol fynd i'r afael â phryderon preswylwyr Cwm Cynon yn rhannol trwy drosglwyddo wardiau Gogledd a De Aberaman o etholaeth arfaethedig 'Pontypridd' i'w hetholaeth arfaethedig 'Merthyr Tudful ac Aberdâr', a chynnwys ward Cwm-bach mewn etholaeth arfaethedig 'Pontypridd'. Ceisiodd Plaid Cymru fynd i'r afael â phryderon preswylwyr Cwm Cynon hefyd trwy gynnwys wardiau etholiadol Gogledd Aberaman, De Aberaman, Dwyrain Aberpennar, Gorllewin Aberpennar a Phenrhiw-ceibr mewn etholaeth arfaethedig 'Aberdâr a Merthyr Tudful', gyda wardiau etholiadol Nelson, Treharris, Bedlinog ac Ynysowen yn cael eu trosglwyddo i etholaeth gymdogol. Cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol fynd i'r afael â phryderon Cwm Cynon trwy ychwanegu wardiau etholiadol Gogledd Aberaman a De Aberaman o etholaeth arfaethedig 'Pontypridd' at eu hetholaeth arfaethedig 'Merthyr Tudful ac Aberdâr', gyda Nelson yn cael ei throsglwyddo i'w hetholaeth arfaethedig 'Islwyn'.

19.8 Roedd adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol yn cefnogi cyfansoddiad sylfaenol etholaeth arfaethedig 'Merthyr Tudful ac Aberdâr'. Fodd bynnag, gwnaethant ganolbwyntio ar fynd i'r afael â gwrthwynebiadau lleol ar lefel ward ac felly argymell cynnwys wardiau etholiadol Gogledd Aberaman a De Aberaman yn yr etholaeth hon a throsglwyddo ward etholiadol Nelson allan i etholaeth arfaethedig 'Caerffili'. Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol o blaid trin ardal Aberpennar mewn ffordd debyg, ond fe'u hataliwyd gan y cwota statudol. O ran Cwm Cynon yn ei gyfanrwydd, ystyriodd y Comisiynwyr Cynorthwyol y pwyntiau a wnaed gan yr Aelod Seneddol a gwrthgynnig manwl ar wahân, ond canfuont fod yr amryw opsiynau a amlinellwyd yn y gwrthgynnig yn ddiffygiol, gyda chanlyniadau pellgyrhaeddol a negyddol i sawl etholaeth amgylchynol.

19.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, cydnabu'r Comisiwn y gwrthwynebiad i rannu etholaeth bresennol Cwm Cynon. Fodd bynnag, ni chyflwynwyd unrhyw ddewisiadau amgen hyfyw a fyddai'n cadw'r etholaeth gyfan yn gyflawn o fewn cyfyngiadau'r ddeddfwriaeth. Cytunodd y Comisiwn â'r Comisiynwyr Cynorthwyol y gallai newidiadau bach gael eu

gwneud i'r etholaeth hon i liniaru rhai o'r pryderon. Y newidiadau mwyaf priodol y gellid eu hargymell ar yr un pryd â chynnal yr etholaethau cymdogol a gefnogir yn dda oedd dychwelyd 2 ward Aberaman i etholaeth arfaethedig 'Merthyr Tudful a Chynon Uchaf', gan felly ddod â 2 ward o ardal Cwm Cynon yn ôl i'r etholaeth, a chynnwys 'Cynon' yn enw'r etholaeth. Cynigiodd y Comisiwn drosglwyddo ward Nelson i'w etholaeth arfaethedig 'Caerffili', er mwyn bodloni'r amrediad etholwyr statudol ac am y rhesymau a roddwyd uchod mewn perthynas â'r etholaeth honno.

19.10 Felly, yn ei gynigion diwygiedig, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o:

1. Ardal gyfan prif gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Merthyr Tydfil and Rhymney ar hyn o bryd): Bedlinog (2,977), Cyfarthfa (5,457), Dowlais (5,014), Gurnos (3,477), Ynysowen (2,798), y Parc (3,296), Penydarren (3,818), Plymouth (4,096), y Dref (5,998), Treharris (5,270) a Faenor (2,880); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Cynon Valley ar hyn o bryd):
Gogledd Aberaman (3,609), De Aberaman (3,541), Dwyrain Aberdâr (4,909), Gorllewin Aberdâr/Llwydcoed (7,404), Cwm-bach (3,751), Hirwaun (3,167), Pen-y-waun (1,973) a Rhigos (1,370).

19.11 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 74,805 o etholwyr, sydd 1.9% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigiwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Merthyr Tydfil and Upper Cynon. Yr enw amgen swyddogol a gynigiwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Merthyr Tudful a Chynon Uchaf.

19.12 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn 10 cynrychiolaeth, gan gynnwys deiseb â 628 o lofnodion, a oedd yn gwrthwynebu rhannu Cwm Cynon.

Roedd y cynrychiolaethau'n dadlau y dylai Cwm Cynon gael ei etholaeth ei hun o ganlyniad i'w hunaniaeth leol gref. Darparodd 1 gynrychiolaeth drefniant amgen i gadw ardal gyfan Cwm Cynon o fewn un etholaeth, ond nid oedd y gwrthgynnig hwn yn ystyried yr effaith ar etholaethau eraill yn yr ardal. I'r gwrthwyneb, cafodd y Comisiwn 7 cynrychiolaeth o blaid yr etholaeth arfaethedig, gan gynnwys gan y Blaid Geidwadol a Phlaid Lafur Cymru.

19.13 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau a gafwyd ac mae wedi penderfynu argymell yr etholaeth fel y'i cynigiwyd yn ei adroddiad cynigion diwygiedig, ond gyda'r enw a gynigiwyd yn wreiddiol gan y Comisiwn yn ei gynigion cychwynnol. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y gwrthwynebiad i'r cynnig diwygiedig; fodd bynnag, nid yw'r Comisiwn yn gallu canfod dewis amgen addas na fyddai'n tarfu'n sylweddol ar etholaethau ledled de Cymru.

<u>Enw argymelledig yr etholaeth</u>

19.14 Yr enw a argymhellir ar gyfer yr etholaeth yw Merthyr Tydfil and Aberdare. Yr enw amgen swyddogol a argymhellir ar gyfer yr etholaeth yw Merthyr Tudful ac Aberdâr.

19.15 Cynigiodd y Comisiwn yr enw Merthyr Tudful ac Aberdâr i ddechrau. Cafodd y Comisiwn drefniadau amgen ar gyfer yr ardal ac awgrymwyd enwau amgen ar eu cyfer. Cafodd y Comisiwn rai dewisiadau amgen i'r enw hefyd, sef yn bennaf rhoi'r enw yn nhrefn yr wyddor fel Aberdâr a Merthyr Tudful.

19.16 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol gadw'r enw fel y'i cynigiwyd yn y cam cynigion cychwynnol.

19.17 Yn ei gynigion diwygiedig, cynigiodd y Comisiwn yr enw Merthyr Tydfil and Upper Cynon, gyda'r enw amgen swyddogol Merthyr Tudful a Chynon Uchaf, am y rhesymau a roddwyd uchod.

19.18 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynnig diwygiedig, cafodd y Comisiwn 2 gynrychiolaeth ynglŷn ag enw'r etholaeth arfaethedig. Awgrymodd 1 gynrychiolaeth drefniant daearyddol amgen gyda'r enw awgrymedig 'Cynon Dar Tydfil Fechan'. Yr enw amgen arall a awgrymwyd oedd dychwelyd i'r enw a gynigiwyd yn wreiddiol, sef 'Merthyr Tudful ac Aberdâr', ar y sail bod yr enw'n fwy adnabyddadwy i'r ardal.

19.19 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau hyn, mae'r Comisiwn yn cytuno bod yr enw Merthyr Tydfil and Aberdare, gyda'r enw amgen swyddogol Merthyr Tudful ac Aberdâr, yn adlewyrchu'r ardal ddaearyddol y byddai'r etholaeth argymelledig hon yn ei chynrychioli yn y ffordd orau. Mae'r enw'n cynrychioli'r ddau brif anheddiad yn yr ardaloedd yr argymhellir eu cyfuno yn yr etholaeth.

# Merthyr Tudful ac Aberdâr



## 20. Mid and South Pembrokeshire (Canol a De Sir Benfro)

Argymhelliad

**20.1 Mae'r Comisiwn yn argymell bod etholaeth sirol yn cael ei chreu o'r:**

**1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Benfro (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Preseli Pembrokeshire ar hyn o bryd):**

**Burton (1,503), Camros (2,190), Hwlffordd: y Castell (1,674), Hwlffordd: Garth (1,660), Hwlffordd: Portfield (1,765), Hwlffordd: Prendergast (1,628), Hwlffordd: y Priordy (1,907), Johnston (2,044), Treletert (1,873), Llangwm (1,814), Pont Fadlen (1,619), Canol Aberdaugleddau (1,578), Dwyrain Aberdaugleddau (1,571), Aberdaugleddau: Hakin (1,774), Aberdaugleddau: Hubberston (2,004), Gogledd Aberdaugleddau (2,047), Gorllewin Aberdaugleddau (1,523), Dwyrain Neyland (1,793), Gorllewin Neyland (1,590), Rudbaxton (945), Tyddewi (1,521), Llanisan-yn-Rhos (1,125), Solfach (1,274), yr Aberoedd (1,196) a Chas-wis (1,581); a'r**

**2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Benfro (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Carmarthen West and South Pembrokeshire ar hyn o bryd):**

**Amroth (992), Caeriw (1,179), Dwyrain Williamston (1,965), Hundleton (1,416), Cilgeti/Begeli (1,830), Llanbedr Felffre (1,284), Llandyfái (1,429), Maenorbŷr (1,655), Martletwy (1,603), Arberth (1,704), Arberth Wledig (1,293), Canol Doc Penfro (1,091), Doc Penfro: Llanion (1,915), Doc Penfro: y Farchnad (1,357), Doc Penfro: Pennar (2,442), Penfro: Cil-maen (1,022), Penfro: Gogledd St Mary (1,675), Penfro: De St Mary (1,063), Penfro: St. Michael (2,082), Penalun (1,398), Saundersfoot (1,904), Gogledd Dinbych-y-pysgod (1,658) a De Dinbych-y-pysgod (1,664).**

**20.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,820 o etholwyr, sydd 4.7% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth.**

**20.3 Mae’r Comisiwn yn argymell yr enw swyddogol Mid and South Pembrokeshire ar gyfer yr etholaeth hon a’r enw amgen swyddogol Canol a De Sir Benfro.**

Cefndir

20.4 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiodd greu etholaeth sirol o’r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Benfro (sy’n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Preseli Pembrokeshire ar hyn o bryd):
Burton (1,503), Camros (2,190), Hwlffordd: y Castell (1,674), Hwlffordd: Garth (1,660), Hwlffordd: Portfield (1,765), Hwlffordd: Prendergast (1,628), Hwlffordd: y Priordy (1,907), Johnston (2,044), Llangwm (1,814), Maenclochog (2,462), Pont Fadlen (1,619), Canol Aberdaugleddau (1,578), Dwyrain Aberdaugleddau (1,571), Aberdaugleddau: Hakin (1,774), Aberdaugleddau: Hubberston (2,004), Gogledd Aberdaugleddau (2,047), Gorllewin Aberdaugleddau (1,523), Dwyrain Neyland (1,793), Gorllewin Neyland (1,590), Rudbaxton (945), Llanisan-yn-Rhos (1,125), yr Aberoedd (1,196) a Chas-wis (1,581); a’r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Benfro (sy’n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Carmarthen West and South Pembrokeshire ar hyn o bryd):
Amroth (992), Caeriw (1,179), Dwyrain Williamston (1,965), Hundleton (1,416), Cilgeti/Begeli (1,830), Llanbedr Felffre (1,284), Llandygái (1,429), Maenorbŷr (1,655), Martletwy (1,603), Arberth (1,704), Arberth Wledig (1,293), Canol Doc Penfro (1,091), Doc Penfro: Llanion (1,915), Doc Penfro: y Farchnad (1,357), Doc Penfro: Pennar (2,442), Penfro: Cil-maen (1,022), Penfro: Gogledd St Mary (1,675), Penfro: De St Mary (1,063), Penfro: St. Michael (2,082), Penalun (1,398), Saundersfoot (1,904), Gogledd Dinbych-y-pysgod (1,658) a De Dinbych-y-pysgod (1,664).

20.5 Byddai’r etholaeth hon wedi cynnwys 74,614 o etholwyr, sydd 1.7% uwchlaw Cwota

Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Mid and South Pembrokeshire. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd oedd Canol a De Sir Benfro.

20.6 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn dweud y dylai ward etholiadol Maenclochog gael ei chynnwys o fewn etholaeth arfaethedig 'Ceredigion Preseli' ar y sail bod gan yr ardal i'r gogledd o Glunderwen gysylltiadau diwylliannol a chymdeithasol cryfach â'r etholaeth honno. Roedd cynrychiolaethau hefyd a oedd yn dadlau'r achos hwn ar sail ieithyddol ac yn awgrymu er mwyn cyflawni'r cwota etholiadol ar draws rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, dylai Tyddewi gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig 'Canol a De Sir Benfro' gan nad oes ganddi lawer yn gyffredin ag Aberystwyth. Cafodd y Comisiwn sawl cynrychiolaeth hefyd a oedd yn creu etholaethau o awdurdod lleol Sir Benfro yn unig neu o ardal awdurdod lleol Ceredigion yn unig; fodd bynnag, roedd y ddwy etholaeth ganlyniadol y tu allan i'r cwota etholiadol.

20.7 Cynigiodd Plaid Lafur Cymru drosglwyddo Solfach a Thyddewi o etholaeth arfaethedig 'Ceredigion Preseli' a chynnwys Maenclochog yn lle hynny. Roedd Plaid Cymru yn cefnogi'r awgrym hwn, ond cynhwysodd gymuned Treletert wrth gyfnewid rhwng y 2 etholaeth hefyd. Ni chynigiodd y Blaid Geidwadol na'r Democratiaid Rhyddfrydol unrhyw newidiadau i gynigion cychwynnol y Comisiwn.

20.8 Daeth adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad fod cefnogaeth gyffredinol i gynnig cychwynnol y Comisiwn. Cydnabu'r Comisiynwyr Cynorthwyol y pryderon a godwyd ynglŷn â maint daearyddol yr etholaeth, ond roeddent yn cytuno bod yr etholaeth arfaethedig 'Ceredigion Preseli' a grëwyd yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn yn dilyn y cysylltiadau ffyrdd mwyaf cyfleus sydd ar gael a'i bod yn cyd-fynd orau â ffiniau gweinyddol a naturiol. Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol rai mân newidiadau i'r cynigion cychwynnol, sef yn benodol cyfnewid nifer fach wardiau

rhwng etholaethau arfaethedig ‘Ceredigion Preseli’ a ‘Chanol a De Sir Benfro’. Gwnaethant argymell cyfnewid Maenclochog am Dyddewi, Solfach a Threletert.

20.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, cytunodd y Comisiwn y gallai rhai mân newidiadau gael eu gwneud i wella’r cynigion cychwynnol ar gyfer yr ardal, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol. Felly, cynigiodd y Comisiwn ddileu Maenclochog o’r etholaeth a gynigiwyd yn wreiddiol a chynnwys Tyddewi, Solfach a Threletert yn ei lle.

20.10 Felly, yn ei gynigion diwygiedig, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o’r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Benfro (sy’n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Preseli Pembrokeshire ar hyn o bryd):
Burton (1,503), Camros (2,190), Hwlffordd: y Castell (1,674), Hwlffordd: Garth (1,660), Hwlffordd: Portfield (1,765), Hwlffordd: Prendergast (1,628), Hwlffordd: y Priordy (1,907), Johnston (2,044), Treletert (1,873), Llangwm (1,814), Pont Fadlen (1,619), Canol Aberdaugleddau (1,578), Dwyrain Aberdaugleddau (1,571), Aberdaugleddau: Hakin (1,774), Aberdaugleddau: Hubberston (2,004), Gogledd Aberdaugleddau (2,047), Gorllewin Aberdaugleddau (1,523), Dwyrain Neyland (1,793), Gorllewin Neyland (1,590), Rudbaxton (945), Tyddewi (1,521), Llanisan-yn-Rhos (1,125), Solfach (1,274), yr Aberoedd (1,196) a Chas-wis (1,581); a’r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Benfro (sy’n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Carmarthen West and South Pembrokeshire ar hyn o bryd):
Amroth (992), Caeriw (1,179), Dwyrain Williamston (1,965), Hundleton (1,416), Cilgeti/Begeli (1,830), Llanbedr Felffre (1,284), Llandygái (1,429), Maenorbŷr (1,655), Martletwy (1,603), Arberth (1,704), Arberth Wledig (1,293), Canol Doc Penfro (1,091), Doc Penfro: Llanion (1,915), Doc Penfro: y Farchnad

(1,357), Doc Penfro: Pennar (2,442), Penfro: Cil-maen (1,022), Penfro: Gogledd St Mary (1,675), Penfro: De St Mary (1,063), Penfro: St. Michael (2,082), Penalun (1,398), Saundersfoot (1,904), Gogledd Dinbych-y-pysgod (1,658) a De Dinbych-y-pysgod (1,664).

20.11 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,820 o etholwyr, sydd 4.7% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigiwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Mid and South Pembrokeshire. Yr enw amgen swyddogol a gynigiwyd oedd Canol a De Sir Benfro.

20.12 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn 1 gynrychiolaeth a oedd yn datgan bod gan ward etholiadol Tyddewi gysylltiadau agosach â'r wardiau etholiadol y cynigir eu trosglwyddo i etholaeth arfaethedig 'Ceredigion Preseli', ac felly y dylai gael ei chynnwys o fewn etholaeth arfaethedig 'Ceredigion Preseli'. Ailgyflwynodd Cyngor Sir Ceredigion eu cyflwyniad gwreiddiol, a oedd yn cynnig creu 3 etholaeth amgen yn yr ardal. Cafodd y Comisiwn 9 cynrychiolaeth a oedd yn llwyr yn erbyn y trefniant amgen a gynigiwyd gan Gyngor Sir Ceredigion.

20.13 Roedd y Blaid Geidwadol yn cefnogi cynigion diwygiedig y Comisiwn ar gyfer etholaeth 'Canol a De Sir Benfro'. Roedd y Blaid Geidwadol yn cefnogi trosglwyddo Maenclochog o etholaeth arfaethedig 'Canol a De Sir Benfro' i etholaeth 'Ceredigion Preseli', a hefyd trosglwyddo wardiau etholiadol Tyddewi, Solfach a Threletert o 'Geredigion Preseli' i 'Ganol a De Sir Benfro' fel diwygiadau synhwyrol i'r cynigion cychwynnol.

20.14 Roedd Plaid Lafur Cymru yn gryf o blaid y cynigion diwygiedig ar gyfer etholaeth arfaethedig 'Canol a De Sir Benfro' gan eu bod yn adlewyrchu awgrymiadau Plaid Lafur Cymru yn ystod y cyfnodau ymgynghori cychwynnol.

20.15 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau a gafwyd ac mae wedi penderfynu argymell yr etholaeth fel y'i cynigiwyd yn ei adroddiad cynigion diwygiedig. Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod rhywfaint o wrthwynebiad i'r cynnig diwygiedig; fodd bynnag, nid yw'r Comisiwn yn gallu canfod dewis amgen addas na fyddai'n tarfu'n sylweddol ar drefniadau etholaethau ar draws rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Enw argymelledig yr etholaeth

20.16 Yr enw a argymhellir ar gyfer yr etholaeth yw Mid and South Pembrokeshire. Yr enw amgen swyddogol a argymhellir yw Canol a De Sir Benfro.

20.17 Ni chafodd y Comisiwn unrhyw enwau amgen ar gyfer y cynnig cychwynnol.


20.18 Ni argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol unrhyw newid i'r enw fel y'i cynigiwyd yn y cynigion cychwynnol.

20.19 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynnig diwygiedig, cafodd y Comisiwn 1 gynrychiolaeth a oedd yn cynnig enw amgen a threfniant daearyddol amgen ar gyfer yr etholaeth, gan awgrymu'r enw 'Sir Benfro'. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth hefyd a oedd yn awgrymu y dylid galw'r etholaeth yn 'Canol a De Sir Benfro'.

20.20 Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr enw Mid and South Pembrokeshire, gyda'r enw amgen swyddogol Canol a De Sir Benfro, yn adlewyrchu'r ardal ddaearyddol y byddai'r etholaeth argymelledig hon yn ei chynrychioli yn y ffordd orau. Byddai'r etholaeth argymelledig yn gyfan gwbl o fewn ardal prif gyngor Sir Benfro. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'r enw argymelledig yn adlewyrchu'r wardiau etholiadol yn yr etholaeth arfaethedig yn gywir ac y byddai'n gwahaniaethu'r ardal o wardiau etholiadol gogleddol ardal prif gyngor Sir Benfro, nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr etholaeth argymelledig.

would accurately reflect the electoral wards in the proposed constituency and would differentiate the area from the northern electoral wards of Pembrokeshire principal council area, which are not included within the recommended constituency.

# Canol a De Sir Benfro



## 21. Monmouthshire (Sir Fynwy)

Argymhelliad

**21.1 Mae'r Comisiwn yn argymell bod etholaeth sirol yn cael ei chreu o'r:**

**1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Fynwy (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Monmouth ar hyn o bryd):**

**Caer-went (1,699), Cantref (1,668), Castell (1,611), Croesonnen (1,609), Crucornau (1,773), Devauden (1,228), Dixton gydag Osbaston (1,968), Drybridge (3,034), Goetre Fawr (2,045), Grofield (1,308), Lansdown (1,644), Larkfield (1,484), Llanbadog (1,099), Llanelly Hill (3,286), Llanfoist Fawr (1,971), Llangybi Fawr (1,477), Llanofer (1,781), Llandeilo Gresynni (1,527), Llanwenarth Ultra (1,128), Maerdy (1,430), Llanfihangel Troddi (985), Overmonnow (1,662), Porthsgiwed (1,885), Priory (1,546), Raglan (1,618), Llanarfan (1,304), St. Christopher's (1,756), Llangynfarch (2,346), St Mary's (1,539), Drenewydd Gelli-farch (1,850), Thornwell (1,961), Tryleg Unedig (2,249), Brynbuga (1,930) a Wyesham (1,701); a'r**

**2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Fynwy (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Newport East ar hyn o bryd):**

**Castell Cil-y-coed (1,768), Llanddewi (1,404), Green Lane (1,482), Mill (2,256), Rogiet (1,365), Hafren (1,325), The Elms (2,523) a West End (1,456).**

**21.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,681 o etholwyr, sydd 1% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth.**

**21.3 Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw swyddogol Monmouthshire ar gyer yr etholaeth hon a'r enw amgen swyddogol Sir Fynwy.**

Cefndir

21.4 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiodd greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Fynwy (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Monmouth ar hyn o bryd):

Caer-went (1,699), Cantref (1,668), Castell (1,611), Croesonnen (1,609), Crucornau (1,773), Devauden (1,228), Dixton gydag Osbaston (1,968), Drybridge (3,034), Goetre Fawr (2,045), Grofield (1,308), Lansdown (1,644), Larkfield (1,484), Llanbadog (1,099), Llanelly Hill (3,286), Llanfoist Fawr (1,971), Llangybi Fawr (1,477), Llanofer (1,781), Llandeilo Gresynni (1,527), Llanwenarth Ultra (1,128), Maerdy (1,430), Llanfihangel Troddi (985), Overmonnow (1,662), Porthsgiwed (1,885), Priory (1,546), Raglan (1,618), Llanarfan (1,304), St. Christopher's (1,756), Llangynfarch (2,346), St Mary's (1,539), Drenewydd Gelli-farch (1,850), Thornwell (1,961), Tryleg Unedig (2,249), Brynbuga (1,930) a Wyesham (1,701); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Fynwy (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Newport East ar hyn o bryd):

Castell Cil-y-coed (1,768), Llanddewi (1,404), Green Lane (1,482), Mill (2,256), Rogiet (1,365), Hafren (1,325), The Elms (2,523) a West End (1,456).

21.5 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,681 o etholwyr, sydd 1% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigiwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Monmouthshire. Yr enw amgen swyddogol a gynigiwyd oedd Sir Fynwy.

21.6 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn cefnogi'r etholaeth arfaethedig ar y sail y byddai'n cydffinio â ffin yr awdurdod lleol. Cefnogwyd yr etholaeth arfaethedig gan y Blaid Geidwadol, Plaid Lafur Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol, yn ogystal â'r Aelodau Seneddol presennol ar gyfer Mynwy a Dwyrain Casnewydd. Cefnogwyd y cynnig cychwynnol hefyd gan bob un

o’r 4 grŵp trawsbleidiol yng Nghyngor Sir Fynwy.

21.7 Awgrymodd rhai cynrychiolaethau, gan gynnwys honno a gyflwynwyd gan Blaid Cymru, drefniadau amgen. Roedd cyflwyniad Plaid Cymru yn cyfuno’r ardal i’r gogledd o’r etholaeth arfaethedig ag ardaloedd o Bowys, a wardiau etholiadol yn ne’r etholaeth arfaethedig â wardiau i’r dwyrain mewn etholaeth arfaethedig ‘Casnewydd’. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau gan breswylwyr yn ardal Cil-y-coed hefyd, a gododd bryderon ynglŷn â chael eu trosglwyddo i etholaeth arfaethedig ‘Sir Fynwy’, gan eu bod yn credu eu bod yn cael eu gwasanaethu’n dda gan eu Haelod Seneddol presennol.

21.8 Argymhellodd adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol gadw’r cynnig cychwynnol. Ar ôl ystyried y cynigion amgen, daethant i’r casgliad pendant, ar sail cysylltiadau lleol, ffurfweddiad y rhwydwaith ffyrdd a ffactorau statudol eraill, fod y cynnig cychwynnol yn amgenach.

21.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, cynigiodd y Comisiwn gadw ei gynnig cychwynnol ar gyfer yr etholaeth hon. Mae’r etholaeth arfaethedig yn adnabyddadwy i’r etholwyr, a bydd yr awdurdod lleol cyfan yn cael ei wasanaethu’n dda o fewn un etholaeth Seneddol. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion amgen; fodd bynnag, mae’r Comisiwn o’r farn bod y trefniadau amgen hyn yn llai dymunol gan eu bod yn cynnwys awdurdod lleol ychwanegol. Teimlai hefyd fod y trefniant yn y cynnig cychwynnol yn fwy cydnaws â Rheol 5 y ddeddfwriaeth ac yn rhoi eglurder i’r etholwyr. Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau o blaid y cynnig cychwynnol.

21.10 Felly, yn ei gynigion diwygiedig, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o’r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Fynwy (sy’n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Monmouth ar hyn o bryd):

Caer-went (1,699), Cantref (1,668), Castell (1,611), Croesonnen (1,609), Crucornau (1,773), Devauden (1,228), Dixton gydag Osbaston (1,968), Drybridge (3,034), Goetre Fawr (2,045), Grofield (1,308), Lansdown (1,644), Larkfield (1,484), Llanbadog (1,099), Llanelly Hill (3,286), Llanfoist Fawr (1,971), Llangybi Fawr (1,477), Llanofer (1,781), Llandeilo Gresynni (1,527), Llanwenarth Ultra (1,128), Maerdy (1,430), Llanfihangel Troddi (985), Overmonnow (1,662), Porthsgiwed (1,885), Priory (1,546), Raglan (1,618), Llanarfan (1,304), St. Christopher's (1,756), Llangynfarch (2,346), St Mary's (1,539), Drenewydd Gelli-farch (1,850), Thornwell (1,961), Tryleg Unedig (2,249), Brynbuga (1,930) a Wyesham (1,701); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Fynwy (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Newport East ar hyn o bryd):

Castell Cil-y-coed (1,768), Llanddewi (1,404), Green Lane (1,482), Mill (2,256), Rogiet (1,365), Hafren (1,325), The Elms (2,523) a West End (1,456).

21.11 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 72,681 o etholwyr, sydd 1% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigiwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Monmouthshire. Yr enw amgen swyddogol a gynigiwyd oedd Sir Fynwy.

21.12 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn 7 cynrychiolaeth o blaid yr etholaeth arfaethedig. Roedd y cynrychiolaethau'n cynnwys cefnogaeth gan Gyngor Sir Fynwy, y Blaid Geidwadol a Phlaid Lafur Cymru.

21.13 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau a gafwyd ac mae wedi penderfynu argymell yr etholaeth fel y'i cynigiwyd yn ei adroddiad cynigion diwygiedig. Mae'r etholaeth argymelledig yn cael ei chefnogi ac mae'n adnabyddadwy i etholwyr, a byddai'r awdurdod lleol cyfan yn cael ei wasanaethu'n dda o fewn un etholaeth Seneddol.

Enw argymelledig yr etholaeth

21.14 Yr enw a argymhellir ar gyfer yr etholaeth yw Monmouthshire. Yr enw amgen swyddogol a argymhellir yw Sir Fynwy.


21.15 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a awgrymodd fod enw'r etholaeth yn synhwyrol gan ei fod yn cyd-fynd â ffiniau'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth a awgrymodd y dylai'r etholaeth arfaethedig gael ei henwi'n 'Ddwyrain Mynwy' oherwydd bod ardal awdurdod lleol Sir Fynwy yn rhychwantu rhan ddwyreiniol Sir Fynwy hanesyddol yn unig.

21.16 Ni argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol unrhyw newid i'r enw fel y'i cynigiwyd yn y cynigion cychwynnol.

21.17 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynnig diwygiedig, ni chafodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau ynglŷn ag enw'r etholaeth arfaethedig.

21.18 Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr enw Monmouthshire, gyda'r enw amgen swyddogol Sir Fynwy, yn adlewyrchu'r ardal ddaearyddol y byddai'r etholaeth argymelledig hon yn ei chynrychioli yn y ffordd orau. Byddai ffin yr etholaeth argymelledig yn cydffinio ag ardal prif gyngor Sir Fynwy.

# Sir Fynwy



0
10
Cilomedrau
Graddfa: 1: 193,600
Ardal Cas-gwent
14
15
8
13
16
Crucornau Fawr
(1,773)
1
Y Maerdy
(1,430)
Llandeilo Gresynni
(1,527)
Bryn
Llanelli
3,286)
9
Llan-ffwyst
Fawr
(1,971)
Llanofer
(1,781)
4
5
18
10
Llanfihangel Troddi
(985)
7
3
12
6
2
Ardal Y Fenni
Rhaglan
(1,618)
Goetre Fawr
(2,045)
Tryleg Unedig
(2.249)
Llanbadoc
(1,099)
17
Ardal Cil-y-coed
20
19
21
22
24
Devauden
(1,228)
St.
Arvans
(1,304)
Llangybi Fawr
(1,477)
Drenewydd
Gelli-farch
(1,850)
Caer-went
(1,699)
23
11
Mill
(2,256)
Rogiet
(1,365)
1.Cantref (1,668)
2.Y Castell (1,611)
3.Croesonnen (1,609)
4.Dixton gydag Osbaston (1,968)
5.Drybridge (3,034)
6.Grofield (1,308)
7.Lansdown (1,644)
8.Larkfield (1,484)
9.Llanwenarth Tu Draw (1,128)
10.Overmonnow (1,662)
11.Porth Sgiwed (1,885)
12.Y Priordy (1,546)
13.St. Christopher's (1,756)
14.St. Kingsmark (2,346)
15.St Mary's (1,539)
16.Thornwell (1,961),
17.Brynbuga (1,930)
18.Wyesham (1,701)
19.Castell Caldicot (1,768)
20. Dewstow (1,404)
21.Green Lane (1,482)
22.Hafren (1,325)
23.The Elms (2,523)
24.West End (1,456)
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2023] OS [100047875]

## 22. Montgomeryshire and Glyndŵr (Maldwyn a Glyndŵr)

Argymhelliad

**22.1 Mae'r Comisiwn yn argymell bod etholaeth sirol yn cael ei chreu o'r:**

**1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Powys (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol Montgomeryshire ar hyn o bryd):**

**Banwy (847), Aberriw (1,102), Blaen Hafren (1,876), Caersŵs (1,831), yr Ystog (1,292), Dolforwyn (1,652), Forden (1,215), Glantwymyn (1,701), Cegidfa (1,827), Ceri (1,607), Llanbrynmair (798), Llandinam (1,155), Llandrinio (1,763), Llandysilio (1,441), Llanfair Caereinion (1,301), Llanfihangel (895), Llanfyllin (1,217), Llanidloes (2,149), Llanwddyn (846), Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin (1,815), Llansantffraid (1,563), Machynlleth (1,701), Meifod (1,069), Trefaldwyn (1,107), Canol y Drenewydd (2,122), Dwyrain y Drenewydd (1,401), Gogledd y Drenewydd: Llanllwchaiarn (1,796), Gorllewin y Drenewydd: Llanllwchaiarn (1,447), De'r Drenewydd (1,215), Rhiwcynon (1,724), Tre-wern (1,066), y Trallwng: Castell (962), y Trallwng: Gungrog (1,995), a'r Trallwng: Llanerchyddol (1,602); a'r**

**2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Clwyd South ar hyn o bryd):**

**Cefn (3,768), Dyffryn Ceiriog/Ceiriog Valley (1,685), Gogledd y Waun (1,846), De'r Waun (1,503), Esclusham (2,013), Johnstown (2,461), Pant (1,528), Pen-y-cae (1,525), Pen-y-cae a De Rhiwabon (2,026), Plas Madoc (1,169), Ponciau (3,521) a Rhiwabon (2,078).**

**22.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 74,223 o etholwyr, sydd 1.1% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth.**

**22.3 Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw swyddogol Montgomeryshire and Glyndŵr ar gyfer yr etholaeth hon a'r enw amgen swyddogol Maldwyn a Glyndŵr.**

Cefndir

22.4 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiodd greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Powys (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol Montgomeryshire ar hyn o bryd):

Banwy (847), Aberriw (1,102), Blaen Hafren (1,876), Caersŵs (1,831), yr Ystog (1,292), Dolforwyn (1,652), Forden (1,215), Glantwymyn (1,701), Cegidfa (1,827), Ceri (1,607), Llanbrynmair (798), Llandinam (1,155), Llandrinio (1,763), Llandysilio (1,441), Llanfair Caereinion (1,301), Llanfihangel (895), Llanfyllin (1,217), Llanidloes (2,149), Llanwddyn (846), Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin (1,815), Llansantffraid (1,563), Machynlleth (1,701), Meifod (1,069), Trefaldwyn (1,107), Canol y Drenewydd (2,122), Dwyrain y Drenewydd (1,401), Gogledd y Drenewydd: Llanllwchaiarn (1,796), Gorllewin y Drenewydd: Llanllwchaiarn (1,447), De'r Drenewydd (1,215), Rhiwcynon (1,724), Tre-wern (1,066), y Trallwng: Castell (962), y Trallwng: Gungrog (1,995), a'r Trallwng: Llanerchyddol (1,602);

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Clwyd South ar hyn o bryd):

Cefn (3,768), Dyffryn Ceiriog/Ceiriog Valley (1,685), Gogledd y Waun (1,846), De'r Waun (1,503), Llangollen Wledig (1,631), Pen-y-cae (1,525), Pen-y-cae a De Rhiwabon (2,026), Plas Madoc (1,169) a Rhiwabon (2,078); a'r

3. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Ddinbych (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Clwyd South ar hyn o bryd):

Corwen (1,799), Llandrillo (931) a Llangollen (3,302).

22.5 Byddai'r etholaeth hon wedi cynnwys 72,363 o etholwyr, sydd 1.4% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth

oedd Montgomeryshire and Glyndŵr. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd oedd Maldwyn a Glyndŵr.

22.6 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig cychwynnol, gyda rhai cynrychiolaethau'n awgrymu y dylai Rhuthun gael ei chyfuno ag ardaloedd fel Llandrillo a Chorwen. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a oedd yn argymell ychwanegu wardiau etholiadol Ponciau, Pant a Johnstown at ei gynnig cychwynnol ar gyfer yr etholaeth hon, er bod nifer o gynrychiolaethau'n dadlau bod gan yr ardaloedd hynny gysylltiadau cryf â Wrecsam yn lle hynny. Cafodd y Comisiwn gryn gefnogaeth i'r cynnig cychwynnol hefyd; roedd y gefnogaeth hon yn canolbwyntio ar gadw etholaeth bresennol Sir Drefaldwyn o fewn yr etholaeth arfaethedig. Dywedodd llawer o'r ymatebwyr fod gan Sir Drefaldwyn gysylltiadau da â'r ardaloedd yn etholaeth bresennol De Clwyd i'r gogledd o'r etholaeth bresennol.

22.7 Cynigiodd y Blaid Geidwadol newidiadau i'r cynnig cychwynnol a theimlai y gellid cyflawni canlyniad dymunol trwy rannu ward etholiadol Ponciau a lleoli elfennau Rhosllanerchrugog a Phonciau o'r ward yn etholaeth arfaethedig 'Sir Drefaldwyn a Glyndŵr', ac elfen Esclusham yn etholaeth arfaethedig 'Wrecsam'. Roedd cefnogaeth i'r cynnig hwn, a dadleuodd cynrychiolaethau fod rhaniad clir rhwng Rhosllanerchrugog ac Esclusham, felly byddai hyn yn ffordd synhwyrol o rannu'r ardal. Cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol rannu etholaeth bresennol Sir Drefaldwyn trwy ymestyn etholaeth bresennol Brycheiniog a Sir Faesyfed i'r gogledd, gan gynnwys y Drenewydd a'r cymunedau amgylchynol. Yna, gwnaethant gynnig ymestyn etholaeth bresennol Sir Drefaldwyn i etholaeth arfaethedig De Clwyd. Cynigiodd Plaid Cymru newid ffiniau etholaeth bresennol Sir Drefaldwyn trwy osod wardiau etholiadol Machynlleth, Glantwymyn, Llanbrynmair, Llandrillo a Chorwen mewn etholaeth arfaethedig 'Meirionnydd Nant Conwy'.

22.8 Cynigiodd adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol mai'r peth gorau fyddai cynnwys

rhannau o etholaeth bresennol Sir Drefaldwyn mewn etholaeth arfaethedig gydag etholaeth bresennol Brycheiniog a Sir Faesyfed o ganlyniad i'r cysylltiadau â Chyngor Sir Powys. Cydnabu'r Comisiynwyr Cynorthwyol y gefnogaeth gref dros gadw etholaeth bresennol Sir Drefaldwyn, am resymau diwylliannol a hanesyddol yn y bôn, ond nid oeddent o'r farn bod hyn yn dyngedfennol. Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol greu etholaeth 'Sir Drefaldwyn a Meirionnydd' drwy gyfuno rhai o'r wardiau o etholaeth bresennol Sir Drefaldwyn â rhai o'r wardiau o Sir Feirionnydd hanesyddol.

22.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, roedd y Comisiwn o'r farn bod cryn gefnogaeth dros gadw etholaeth bresennol Sir Drefaldwyn a'i chyfuno â wardiau i'r gogledd yn Sir Ddinbych ac ar gyrion Wrecsam. Nid oedd y Comisiwn yn cytuno â'r cynrychiolaethau o blaid rhannu ward etholiadol Ponciau, ac felly cynigiodd etholaeth sy'n cynnwys ward etholiadol Ponciau i gyd.

22.10 Felly, yn ei adroddiad cynigion diwygiedig, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Powys (sy'n ffurfio etholaeth sirol bresennol Montgomeryshire ar hyn o bryd):
Banwy (847), Aberriw (1,102), Blaen Hafren (1,876), Caersŵs (1,831), yr Ystog (1,292), Dolforwyn (1,652), Forden (1,215), Glantwymyn (1,701), Cegidfa (1,827), Ceri (1,607), Llanbrynmair (798), Llandinam (1,155), Llandrinio (1,763), Llandysilio (1,441), Llanfair Caereinion (1,301), Llanfihangel (895), Llanfyllin (1,217), Llanidloes (2,149), Llanwddyn (846), Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin (1,815), Llansantffraid (1,563), Machynlleth (1,701), Meifod (1,069), Trefaldwyn (1,107), Canol y Drenewydd (2,122), Dwyrain y Drenewydd (1,401), Gogledd y Drenewydd: Llanllwchaiarn (1,796), Gorllewin y Drenewydd: Llanllwchaiarn (1,447), De'r Drenewydd (1,215), Rhiwcynon (1,724), Tre-wern (1,066), y Trallwng: Castell (962), y Trallwng: Gungrog (1,995), a'r Trallwng: Llanerchyddol (1,602);

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Clwyd South ar hyn o bryd):

Cefn (3,768), Dyffryn Ceiriog/Ceiriog Valley (1,685), Gogledd y Waun (1,846), De'r Waun (1,503), Esclusham (2,013), Johnstown (2,461), Pant (1,528), Pen-y-cae (1,525), Pen-y-cae a De Rhiwabon (2,026), Plas Madoc (1,169), Ponciau (3,521) a Rhiwabon (2,078); a'r

3. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Ddinbych (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Clwyd South ar hyn o bryd):

Corwen (1,799) a Llandrillo (931).

22.11 Byddai'r etholaeth hon wedi cynnwys 76,953 o etholwyr, sydd 4.9% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigiwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Montgomeryshire and Glyndŵr. Yr enw amgen swyddogol a gynigiwyd oedd Maldwyn a Glyndŵr.

22.12 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn nifer sylweddol o gynrychiolaethau gan breswylwyr ardaloedd y Waun, Rhiwabon a Rhosllanerchrugog a oedd yn gwrthwynebu'r cynigion diwygiedig ar gyfer etholaeth arfaethedig 'Sir Drefaldwyn a Glyndŵr'. Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn bod gan yr ardaloedd gysylltiadau cryfach â Wrecsam ac y dylent gael eu cynnwys mewn etholaeth arfaethedig 'Wrecsam'. Dywedasant hefyd nad oedd llawer o gysylltiadau ffyrdd da rhwng Sir Drefaldwyn a Wrecsam ac y gallai fod angen teithio trwy Loegr i deithio o un pen o'r etholaeth i'r llall. Cafodd y Comisiwn 1 gwrthgynnig gan aelod o'r cyhoedd, a geisiodd fynd i'r afael â'r pryder hwn. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a oedd yn dadlau y dylai wardiau etholiadol Corwen a Llandrillo gael eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig 'Dwyfor Meirionnydd' o ganlyniad i'r cysylltiadau lleol a'r nodweddion tebyg. Fodd bynnag, cafodd y Comisiwn

gryn gefnogaeth i'r etholaeth arfaethedig hefyd. Roedd yr ymatebwyr yn falch o weld etholaeth hanesyddol Sir Drefaldwyn yn cael ei chadw a'i hymestyn i gynnwys etholwyr o etholaeth bresennol De Clwyd.

22.13 Roedd y Blaid Geidwadol yn cefnogi cadw etholaeth Sir Drefaldwyn a'i hymestyn i gynnwys wardiau o ardal Awdurdod Lleol Wrecsam. Cynigiodd Plaid Lafur Cymru fân ddiwygiad i etholaeth arfaethedig 'Sir Drefaldwyn a Glyndŵr', sef trosglwyddo ward etholiadol Llangollen Wledig i'w hetholaeth arfaethedig 'Sir Drefaldwyn a Glyndŵr' o etholaeth arfaethedig 'Dwyrain Clwyd', a throsglwyddo ward Esclusham o'u hetholaeth arfaethedig 'Sir Drefaldwyn a Glyndŵr' i etholaeth arfaethedig 'Wrecsam'. Mae'r gwrthgynnig hwn yn creu rhaniad yng nghymuned Esclusham.

22.14 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau a gafwyd ac mae wedi penderfynu argymell mân newid i'r etholaeth fel y'i cynigiwyd yn ei adroddiad cynigion diwygiedig. Bydd y Comisiwn yn dileu wardiau etholiadol Corwen a Llandrillo o'r etholaeth ddiwygiedig ac yn cynnwys y wardiau hyn yn ei etholaeth argymelledig 'Dwyfor Meirionnydd' yn unol â'r cynrychiolaethau a ddadleuodd fod gan y wardiau etholiadol hyn fwy yn gyffredin a mwy o gysylltiadau lleol ag ardaloedd fel y Bala. Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod rhywfaint o wrthwynebiad i'w gynnig diwygiedig; fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn bod y dadleuon a wnaed o blaid y cynnig diwygiedig yn drech na'r dadleuon a wnaed yn erbyn y cynnig diwygiedig oherwydd byddai'r etholaeth argymelledig yn osgoi rhannu unrhyw gymunedau a byddai'n ychwanegu at gysylltiadau lleol rhwng Llandrillo, Corwen a Dwyfor Meirionnydd.

Enw argymelledig yr etholaeth

22.15 Yr enw a argymhellir ar gyfer yr etholaeth yw Montgomeryshire and Glyndŵr. Yr enw amgen swyddogol a argymhellir yw Maldwyn a Glyndŵr.


22.16 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn cynnig trefniadau daearyddol amgen gydag enwau amgen. Ystyriodd y Comisiwn yr enw 'Sir Drefaldwyn a Berwyn' hefyd.

22.17 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol drefniant gwahanol ar gyfer yr etholaethau yn yr ardal ac felly gwnaethant ddarparu enwau amgen.

22.18 Yn ystod y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn 1 gynrychiolaeth a gynigiodd enw amgen a mân ddiwygiad i gyfansoddiad daearyddol yr etholaeth arfaethedig. Yr enw a awgrymwyd oedd 'Sir Drefaldwyn a'r Dyffrynnoedd', ac roedd y gynrychiolaeth yn honni bod yr enw hwnnw'n cynrychioli'r etholaeth yn well oherwydd bod Dyffryn Ceiriog a Dyffryn Llangollen wedi'u cynnwys.

22.19 Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr enw Montgomeryshire and Glyndŵr, ynghyd â'r enw amgen swyddogol Maldwyn a Glyndŵr, yn adlewyrchu'r ardal ddaearyddol y byddai'r etholaeth argymelledig hon yn ei chynrychioli yn y ffordd orau.

# Maldwyn a Glyndŵr




1. Cefn (3,768)
2. Gogledd Y Waun (1,846)
3. De'r Waun (1,503)
4. Yr Ystog (1,292)
5. Esclusham (2,013)
6. Ffordun (1,215)
7. Johnstown (2,461)
8. Llandysilio (1,441)
9. Llanidloes (2,149)
10. Machynlleth (1,701)
11. Trefaldwyn (1,107)
12. Canol y Drenewydd (2,122)
13. Dwyrain y Drenewydd (1,401)
14. Y Drenewydd Gogledd Llanllwchaearn (1,796)
15. Y Drenewydd Gorllewin Llanllwchaearn (1,447)
16. De y Drenewydd (1,215)
17. Pant (1,528)
18. Pen-y-cae (1,525)
19. Pen-y-Cae a De Ruabon (2,026)
20. Plas Madoc (1,169)
21. Ponciau (3,521)
22. Rhiwabon (2,078)
23. Y Trallwng Castell (962)
24. Y Trallwng Gungrog (1,995)
25. Y Trallwng Llannerchyddol (1,602)

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2023] OS [100047875]

## 23. Neath and Swansea East (Castell-nedd a Dwyrain Abertawe)

Argymhelliad

**23.1 Mae'r Comisiwn yn argymell bod etholaeth sirol yn cael ei chreu o'r:**

**1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o fwrdeistref sirol bresennol Swansea East ar hyn o bryd):**

**Bôn-y-maen (5,391), Llansamlet (11,107) a St. Thomas (5,514);**

**2. Ward etholiadol Clydach (5,821) o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol Gower ar hyn o bryd).**

**3. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Neath ar hyn o bryd):**

**Aberdulais (1,712), Blaengwrach (1,491), Gogledd Bryn-coch (1,787), De Bryn-coch (4,547), Llangatwg (1,365), Cimla (3,107), Creunant (1,508), Dyffryn (2,447), Glyn-nedd (2,577), Dwyrain Castell-nedd (4,468), Gogledd Castell-nedd (2,931), De Castell-nedd (3,694), Onllwyn (935), Resolfen (2,387), Blaendulais (1,554) a Thonna (2,072).**

**4. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Aberavon ar hyn o bryd):**

**Canol Coed-ffranc (2,892), Gogledd Coed-ffranc (1,811), a Gorllewin Coed-ffranc (3,587).**

**23.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 74,705 o etholwyr, sydd 1.8% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth.**

**23.3 Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw swyddogion Neath and Swansea East ar gyfer yr etholaeth hon a'r enw swyddogol amgen Castell-nedd a Dwyrain Abertawe.**

Cefndir

23.4 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiodd greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol bresennol Swansea East ar hyn o bryd):

Bôn-y-maen (5,391), Llansamlet (11,107) a St. Thomas (5,514);

2. Ward etholiadol Clydach (5,821) o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol Gower ar hyn o bryd).

3. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Aberavon ar hyn o bryd):

Canol Coed-ffranc (2,892), Gogledd Coed-ffranc (1,811) a Gorllewin Coed-ffranc West (3,587); a'r

4. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Neath ar hyn o bryd):

Aberdulais (1,712), Blaengwrach (1,491), Gogledd Bryn-coch (1,787), De Bryn-coch (4,547), Llangatwg (1,365), Cimla (3,107), Creunant (1,508), Dyffryn (2,447), Glyn-nedd (2,577), Dwyrain Castell-nedd (4,468), Gogledd Castell-nedd (2,931), De Castell-nedd (3,694), Onllwyn (935), Pelenna (936), Resolfen (2,387), Blaendulais (1,554) a Thonna (2,072).

23.5 Byddai'r etholaeth hon wedi cynnwys 75,641 o etholwyr, sydd 3.1% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw awgrymedig ar gyfer yr

etholaeth oedd Swansea East and Neath. Yr enw swyddogol amgen a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd.

23.6 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu cynnwys ardal Cwm Tawe Uchaf mewn etholaeth arfaethedig 'Aberhonddu a Maesyfed'. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo bod gan yr ardal gysylltiadau gwell â gweddill Cwm Tawe a'i bod yn edrych tua'r de i Abertawe/Castell-nedd fel cytrefi. Yn yr un modd, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu'r trefniant ar gyfer etholaeth 'Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd', ar y sail y dylid ymestyn yr etholaeth i gynnwys ardal Cwm Tawe Uchaf, nad oes ganddi lawer o gysylltiadau ag etholaeth Aberhonddu a Maesyfed, sydd eisoes yn etholaeth fawr. Fodd bynnag, roedd y cynrychiolaethau hyn yn cytuno y dylid cynnwys rhai wardiau, fel Canol Coed-ffranc, Gorllewin Coed-ffranc a Gogledd Coed-ffranc, yn ogystal â wardiau Clydach, St Thomas a Bôn-y-maen, fel ychwanegiadau synhwyrol i etholaeth bresennol Castell-nedd. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a oedd yn gwrthwynebu ei gynigion cychwynnol ar gyfer etholaeth 'Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd', wedi'u seilio ar y ddadl bod wardiau etholiadol Abertawe yn edrych tuag at ganol dinas Abertawe yn bennaf ac y dylid eu cadw mewn etholaeth wedi'i seilio ar Abertawe, yn hytrach nag ymuno â wardiau o ardal awdurdod lleol gwahanol. Fodd bynnag, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn cefnogi ei gynigion cychwynnol ar gyfer yr etholaeth hefyd.

23.7 Roedd y Blaid Geidwadol yn cefnogi cynigion cychwynnol y Comisiwn ar gyfer ardal Abertawe yn gryf. Roedd cyflwyniad y Democratiaid Rhyddfrydol yn cyfuno Cwm Tawe Uchaf â rhannau o etholaeth arfaethedig 'Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd' i ffurfio etholaeth arfaethedig 'Castell-nedd gyda Gogledd-orllewin Abertawe'. Roedd y Democratiaid Rhyddfrydol yn cynnig trosglwyddo wardiau etholiadol Gogledd Coed-ffranc, Gorllewin Coed-ffranc a De Coed-ffranc, St Thomas a Bôn-y-maen, a'u disodli â'r 9 ward etholiadol yng Nghwm Tawe Uchaf. Ni chynigiodd Plaid Lafur Cymru unrhyw newidiadau i'r cynigion cychwynnol. Roedd cyflwyniad Plaid Cymru yn cynnig creu etholaeth

‘Lliw a Thawe’, a oedd yn cynnwys llawer o ogledd Abertawe a rhan ogledd-orllewinol etholaeth bresennol Castell nedd. Roedd hefyd yn cynnig creu etholaeth ‘Castell-nedd ac Aberafan’ o weddill etholaeth Castell-nedd. Roedd cynnig Plaid Cymru yn rhannu Cymuned Coed-ffranc.

23.8 Roedd adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol yn cynnig creu etholaeth ‘Dyffryn Lliw’ a oedd yn cynnwys, yn fras, ardal hen Gyngor Bwrdeistref Dosbarth Dyffryn Lliw, a oedd yn bodoli o 1974 hyd 1996. Roedd yn cynnwys rhannau o Orllewin Abertawe a Chanol Abertawe, ynghyd ag ardaloedd o Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Roedd hyn yn debyg i’r cynnig ‘Lliw a Thawe’ a wnaed gan Blaid Cymru, a oedd yn cynnwys Cwm Tawe Uchaf mewn etholaeth wedi’i seilio ar Abertawe/Castell-nedd. Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol hefyd yn cynnig creu etholaeth o’r enw ‘Castell-nedd, Aberafan a Maesteg’, gan ddefnyddio llawer o’r cynnig cychwynnol ar gyfer etholaeth ‘Aberafan Porthcawl’, heb gynnwys ardal Porthcawl ac yn cynnwys wardiau etholiadol Caerau, Dwyrain Maesteg a Gorllewin Maesteg. Roedd yr etholaeth arfaethedig hon yn cynnwys rhan o Gwm Nedd hefyd.

23.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, mae’r Comisiwn wedi penderfynu cynnig mân newid i’w gynnig cychwynnol trwy ddychwelyd 3 ward Coed-ffranc i etholaeth sy’n cynnwys wardiau eraill o etholaeth bresennol Aberavon mewn etholaeth arfaethedig ‘Aberafan Porthcawl’, a disodli’r wardiau hynny â ward etholiadol Glandŵr. Ystyriodd y Comisiwn y trefniadau amgen a gynigiwyd gan Blaid Cymru a’r Comisiynwyr Cynorthwyol, ond roedd o’r farn bod rhannu Cwm Nedd rhwng 2 etholaeth yn creu ffin braidd yn anghyffredin rhyngddynt. Roedd y Comisiwn yn cydnabod bod ei newidiadau arfaethedig i Ddwyrain Abertawe a Chastell-nedd yn arwain at gysylltiad ffordd tenau rhwng rhannau o’r etholaeth. Fodd bynnag, mae’r Comisiwn o’r farn bod mater y cysylltiad ffordd yn un o ganlyniadau anffodus natur ddaearyddol rhwydweithiau teithio’r Cwm, a bod y newidiadau’n cael eu cynnig fel ffordd i fynd i’r afael â’r cynrychiolaethau yn ymwneud â rhannau eraill o’r rhanbarth.

23.10 Felly, yn ei gynigion diwygiedig, roedd y Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol bresennol Swansea East ar hyn o bryd):

Bôn-y-maen (5,391), Glandŵr (4,821), Llansamlet (11,107) a St. Thomas (5,514);

2. Ward etholiadol Clydach (5,821) o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol Gower ar hyn o bryd); a'r

3. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Neath ar hyn o bryd):

Aberdulais (1,712), Blaengwrach (1,491), Gogledd Bryn-coch (1,787), De Bryn-coch (4,547), Llangatwg (1,365), Cimla (3,107), Creunant (1,508), Dyffryn (2,447), Glyn-nedd (2,577), Dwyrain Castell-nedd (4,468), Gogledd Castell-nedd (2,931), De Castell-nedd (3,694), Onllwyn (935), Pelenna (936), Resolfen (2,387), Blaendulais (1,554) a Thonna (2,072).

23.11 Byddai'r etholaeth hon wedi cynnwys 72,172 o etholwyr, sydd 1.7% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw awgrymedig ar gyfer yr etholaeth oedd Swansea East and Neath. Yr enw swyddogol amgen a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd.

23.12 Yn ystod cyfnod ymgynghori'r cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu etholaeth Castell-nedd a Dwyrain Abertawe. Roedd y cynrychiolaethau'n gwrthwynebu cynnwys ward etholiadol Glandŵr gyda Chastell-nedd ac roedd eraill yn gwrthwynebu cynnwys wardiau etholiadol Coed-ffranc mewn etholaeth arfaethedig 'Aberafan Porthcawl', gan ddatgan y dylai'r wardiau hyn fod mewn etholaeth arfaethedig 'Abertawe' neu 'Gastell-nedd'. Mae'r

Comisiwn wedi trosglwyddo ward etholiadol Glandŵr i etholaeth argymelledig Gorllewin Abertawe a wardiau etholiadol Coed ffranc i'r etholaeth argymelledig hon, gan adeiladu ar y cysylltiadau lleol sy'n bodoli yn yr ardal.

23.13 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau a gafwyd ac mae wedi penderfynu gwneud newidiadau i'r ardal sy'n adlewyrchu cyflwyniadau aelod o'r cyhoedd a'r AS ar gyfer etholaeth bresennol Dwyrain Abertawe. Mae'r trefniadau argymelledig yn mynd i'r afael â'r prif bryderon yn y cynrychiolaethau a gafwyd mewn perthynas â'r etholaeth arfaethedig.

Enw argymelledig yr etholaeth

23.14 Yr enw a argymhellir ar gyfer yr etholaeth yw Neath and Swansea East. Yr enw amgen swyddogol a argymhellir ar gyfer yr etholaeth yw Castell-nedd a Dwyrain Abertawe.

23.15 Yn wreiddiol, cynigiodd y Comisiwn yr enw 'Swansea East and Neath'. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn cynnig enwau amgen, gan gynnwys gan y Blaid Geidwadol a oedd yn teimlo y dylid rhoi'r enw 'Neath and Swansea East' i'r etholaeth arfaethedig i adlewyrchu'n well y ffaith mai Castell-nedd sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o'r etholaeth arfaethedig hon.


23.16 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol drefniant gwahanol ar gyfer yr etholaethau yn yr ardal ac felly gwnaethant awgrymu enwau amgen.

23.17 Yn ystod cyfnod ymgynghori'r cynnig diwygiedig, ni chafodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau yn ymwneud ag enw'r etholaeth arfaethedig. O ran yr etholaeth awgrymedig, yr enw a awgrymwyd yn y gwrthgynnig oedd Neath and Swansea East.

23.18 Mae'r Comisiwn o'r farn bod yr enw Neath and Swansea East, ynghyd â'r enw amgen

swyddogol Castell-nedd a Dwyrain Abertawe, yn adlewyrchu'r ardal ddaearyddol y byddai'r etholaeth awgrymedig hon yn ei chynrychioli orau ac y byddai'n fwy tebygol o olygu bod gan etholwyr fwy o gysylltiad ag ef. Mae'r enw'n cynrychioli'r 2 ardal yr argymhellir eu cyfuno yn yr etholaeth.

# Castell-nedd a Dwyrain Abertawe



## 24. Newport East (Dwyrain Casnewydd)

<u>Argymhelliad</u>

**24.1 Mae'r Comisiwn yn argymell bod etholaeth sirol yn cael ei chreu o'r:**

**1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas Casnewydd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Newport East ar hyn o bryd):**

**Alway (5,931), Beechwood (5,611), Langstone (3,878), Llyswyry (9,110), Llan-wern (3,544), Ringland (5,968), Sain Silian (6,287) a Victoria (5,121); a'r**

**2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas Casnewydd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Newport West ar hyn o bryd):**

**Betws (5,656), Caerllion (6,603), Malpas (6,114), Pilgwenlli (5,174), Shaftesbury (3,778) a Stow Hill (3,384).**

**24.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,159 o etholwyr, sydd 3.8% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth.**

**24.3 Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw swyddogol Newport East ar gyfer yr etholaeth hon a'r enw amgen swyddogol Dwyrain Casnewydd.**

<u>Cefndir</u>

24.4 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiodd greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas Casnewydd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Newport East ar hyn o bryd):

Alway (5,931), Beechwood (5,611), Langstone (3,878), Llyswyry (9,110), Llan-wern (3,544), Ringland (5,968), Sain Silian (6,287) a Victoria (5,121); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas Casnewydd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Newport West ar hyn o bryd):

Betws (5,656), Caerllion (6,603), Malpas (6,114), Pilgwenlli (5,174), Shaftesbury (3,778) a Stow Hill (3,384).

24.5 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,159 o etholwyr, sydd 3.8% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Newport East. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd oedd Dwyrain Casnewydd.

24.6 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau gan breswylwyr yn ardal Cil-y-coed a oedd yn gwrthwynebu symud yr ardal honno o etholaeth bresennol Dwyrain Casnewydd i etholaeth arfaethedig Sir Fynwy. Roedd y gwrthwynebiad hwnnw wedi'i seilio ar gynrychiolaeth draddodiadol etholaeth Sir Fynwy a'r teimlad bod preswylwyr wedi cael cynrychiolaeth ragorol gan gynrychiolydd Dwyrain Casnewydd. Fodd bynnag, roedd 3 o'r 4 plaid wleidyddol gymwys yn cefnogi'r cynnig cychwynnol. Cafodd cynigion cychwynnol y Comisiwn gefnogaeth gan ASau presennol Dwyrain Casnewydd a Sir Fynwy hefyd.

24.7 Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol yn cefnogi'r cynnig cychwynnol ac yn nodi bod yr holl bleidiau gwleidyddol heblaw Plaid Cymru yn ei gefnogi hefyd.

24.8 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, roedd y Comisiwn o'r farn bod cadw'r etholaeth arfaethedig yn creu'r etholaethau mwyaf priodol a chydlynus ar draws yr ardal. Mae'r holl wardiau etholiadol o fewn Dinas Casnewydd ac mae pob un o'r wardiau a

drosglwyddwyd o etholaeth bresennol Newport East o ardal prif gyngor Sir Fynwy ac yn cael eu cyfuno â wardiau eraill o ardal y prif gyngor hwnnw.

24.9 Felly, yn ei gynigion diwygiedig, roedd y Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas Casnewydd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Newport East ar hyn o bryd):
Alway (5,931), Beechwood (5,611), Langstone (3,878), Llyswyry (9,110), Llan-wern (3,544), Ringland (5,968), Sain Silian (6,287) a Victoria (5,121); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas Casnewydd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Newport West ar hyn o bryd):
Betws (5,656), Caerllion (6,603), Malpas (6,114), Pilgwenlli (5,174), Shaftesbury (3,778) a Stow Hill (3,384).

24.10 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 76,159 o etholwyr, sydd 3.8% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Newport East. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd oedd Dwyrain Casnewydd.

24.11 Yn ystod cyfnod ymgynghori'r cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn 3 chynrychiolaeth yn ymwneud â'r etholaeth arfaethedig gan Gyngor Sir Fynwy, Plaid Lafur Cymru a'r Blaid Geidwadol, a oedd yn cefnogi'r etholaeth fel y'i cynigiwyd.

24.12 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau a gafwyd ac mae wedi penderfynu argymell yr etholaeth fel y'i cynigiwyd yn ei adroddiad cynigion diwygiedig. Mae cefnogaeth dda i'r etholaeth argymelledig a byddai'r etholaeth yn cynnwys wardiau etholiadol sydd wedi'u lleoli'n gyfan

gwbl mewn ardal un awdurdod lleol.

<u>Enw argymelledig yr etholaeth</u>


24.13 Yr enw a argymhellir ar gyfer yr etholaeth yw Newport East. Yr enw amgen swyddogol a argymhellir yw Dwyrain Casnewydd.

24.14 Cafodd y Comisiwn dystiolaeth a oedd yn cefnogi cadw'r enw a'r trefniadau ar gyfer yr etholaeth arfaethedig hon. Hyd yn oed pan gynigiwyd trefniadau amgen, roedd y cynigion yn cadw enw arfaethedig yr etholaeth.

24.15 Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol yn argymell cadw enw'r etholaeth arfaethedig.

24.16 Yn ystod cyfnod ymgynghori'r cynigion diwygiedig, ni chafodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau yn ymwneud ag enw'r etholaeth arfaethedig.

24.17 Mae'r Comisiwn o'r farn mai'r enw Newport East, a'r enw amgen swyddogol Dwyrain Casnewydd, sy'n adlewyrchu'r ardal ddaearyddol y byddai'r etholaeth argymelledig hon yn ei chynrychioli orau.


Dwyrain Casnewydd
1. Alway (5,931)
2. Beechwood (5,611)
3. Malpas (6,114)
4. Ringland (5,968)
5. Shaftesbury (3,778)
6. Sain Silian (6,287)
7. Stow Hill (3,384)
8. Victoria (5,121)
Langstone (3,878)
Caerllion (6,603)
Llan-wern (3,544)
Liswerry (9,110)
Pilgwenlli (5,174)
Betws (5,656)
NEWPORT / CASNEWYDD
0
5
Cilomedrau
Graddfa 1:82,280
Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2023] OS [100047875]

## 25. Newport West and Islwyn (Gorllewin Casnewydd ac Islwyn)

Recommendation

**25.1 Mae'r Comisiwn yn argymell bod etholaeth sirol yn cael ei chreu o'r:**

**1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas Casnewydd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth bresennol Newport West ar hyn o bryd):**

**Allt-yr-ynn (7,088), Gaer (6,543), Graig (5,053), Maerun (4,897), Tŷ-du (9,421) a Pharc Tredegar (3,329); a'r**

**2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Islwyn ar hyn o bryd):**

**Aber-carn (4,139), Argoed (2,035), Coed-duon (6,330), Cefn Fforest (2,845), Crosskeys (2,527), Crymlyn (4,332), Trecelyn (4,892), Penmaen (4,219), Dwyrain Rhisga (4,611) a Gorllewin Rhisga (3,973).**

**25.2 Byddai'r etholaeth yn cynnwys 76,234 o etholwyr, sydd 3.9% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth.**

**25.3 Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw swyddogol Newport West and Islwyn ar gyfer yr etholaeth hon a'r enw amgen swyddogol Gorllewin Casnewydd ac Islwyn.**

Cefndir

25.4 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiodd greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas Casnewydd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Newport West ar hyn o bryd):

Allt-yr-ynn (7,088), Gaer (6,543), Graig (5,053), Maerun (4,897), Tŷ-du (9,421) a Pharc Tredegar (3,329); a’r

2. Wardiau etholiadol o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy’n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Caerphilly ar hyn o bryd):

Cwm Aber (4,655), Bedwas, Trethomas a Machen (7,902), Morgan Jones (5,636), Penyrheol (9,021), St. James (4,267) a Sant Martin (6,582).

25.5 Byddai’r etholaeth hon wedi cynnwys 74,394 o etholwyr, sydd 1.4% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Newport West and Caerphilly. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd oedd Gorllewin Casnewydd a Chaerffili.

25.6 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu’r cynigion cychwynnol yn yr ardal hon a chafodd drefniant amgen a enillodd gefnogaeth sylweddol yn yr ardal leol. Roedd y trefniant amgen hwn yn cyfuno etholaeth Islwyn â rhan o etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd ac yn cynnig etholaeth newydd ‘Caerffili’ hefyd. Roedd y gefnogaeth i’r trefniant amgen hwn wedi’i seilio ar gysylltiadau lleol a chysylltiadau teithio yn yr ardal. Roedd rhywfaint o gefnogaeth i’r cynigion cychwynnol yn yr ardal, gan gynnwys gan rai Aelodau Seneddol.

25.7 Roedd Plaid Lafur Cymru yn cefnogi’r cynigion cychwynnol. Roedd y Blaid Geidwadol yn cefnogi’r cynigion cychwynnol ar gyfer yr ardal hefyd ac yn gwrthwynebu’r gwrthgynnig yn gryf. Roedd o’r farn nad yw’r cysylltiadau yn yr ardal sydd dan sylw yn y gwrthgynnig mor gryf â’r cysylltiadau yn y cynigion cychwynnol. Cododd y Blaid Geidwadol y broblem a grëwyd gan y cynigion cychwynnol yn ymwneud â ward “amddifad” Nelson (sef yr unig ward etholiadol o Fwrdeistref Sirol Caerffili a oedd wedi’i chynnwys yn etholaeth Merthyr Tudful ac Aberdâr a gynigiwyd gan y Comisiwn), nad oedd

y trefniant amgen yn mynd i'r afael â hi. Cafodd y Comisiwn wrthwynebiad pellach i'r gwrthgynnig hefyd, gyda rhai sylwadau'n gwrthwynebu cynnwys Coed-duon a Phontllanfraith mewn etholaeth arfaethedig 'Caerffili' oherwydd eu cysylltiadau ag Islwyn.

25.8 Cynigiodd Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol newidiadau sylweddol i'r cynigion cychwynnol. Cynigiodd Plaid Cymru etholaeth 'Gorllewin Casnewydd' a oedd yn cynnwys wardiau etholiadol Dwyrain Rhisga, Gorllewin Rhisga a Crosskeys yn unig o Fwrdeistref Sirol Caerffili, ac etholaeth 'Caerffili' a oedd yn cynnwys llawer o fasn Caerffili a rhannau o Islwyn. Cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol 2 etholaeth sef 'Caerffili a Gogledd Islwyn' a 'Gorllewin Casnewydd gydag Islwyn', a oedd yn drefniant gwahanol i'r gwrthgynnig a grybwyllwyd yn 25.6 uchod.

25.9 Daeth adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad fod Islwyn yn rhan fwy uniongyrchol o gyffiniau Casnewydd na Chaerffili, yn enwedig o ran cysylltiadau rheilffordd a'r rhwydwaith ffyrdd wedi'i seilio ar yr A467. Roeddent yn cytuno â'r trefniant amgen a gynigiwyd ac yn ei argymell ar sail cysylltiadau lleol rhwng y dref a'r ardal uniongyrchol gyfagos.

25.10 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, cytunodd y Comisiwn y byddai'n fwy naturiol i Gaerffili pe byddai etholaeth yn cael ei chreu sydd wedi'i ffurfio'n gyfan gwbl o wardiau etholiadol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Roedd y Comisiwn yn derbyn bod mwy o gysylltiadau lleol rhwng etholaethau presennol Gorllewin Casnewydd ac Islwyn na rhwng Gorllewin Casnewydd a basn Caerffili, ac felly cynigiodd etholaeth a oedd yn adlewyrchu'r dystiolaeth a gafwyd. Aeth y Comisiwn i'r afael â ward amddifad Nelson hefyd.

25.11 Felly, yn ei gynigion diwygiedig, roedd y Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas Casnewydd (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol

bresennol Newport West ar hyn o bryd):

Allt-yr-ynn (7,088), Gaer (6,543), Graig (5,053), Maerun (4,897), Tŷ-du (9,421) a Pharc Tredegar (3,329); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Islwyn ar hyn o bryd):

Aber-carn (4,139), Argoed (2,035), Coed-duon (6,330), Crosskeys (2,527), Crymlyn (4,332), Trecelyn (4,892), Penmaen (4,219), Dwyrain Rhisga (4,611), Gorllewin Rhisga (3,973) ac Ynys-ddu (2,978).

25.12 Byddai'r etholaeth hon wedi cynnwys 76,367 o etholwyr, sydd 4.1% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw arfaethedig ar gyfer yr etholaeth oedd Newport West and Islwyn. Yr enw amgen swyddogol arfaethedig oedd Gorllewin Casnewydd ac Islwyn.

25.13 Yn ystod cyfnod ymgynghori'r cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn rywfaint o wrthwynebiad i'w gynigion diwygiedig yn yr ardal hon. Cynigiwyd cynigion diwygiedig y Comisiwn o ganlyniad i'r gwrthwynebiad sylweddol a gafwyd i'w gynigion cychwynnol, a oedd yn cyfuno ardaloedd Gorllewin Casnewydd a Chaerffili. Yn ystod cyfnod ymgynghori'r cynigion diwygiedig, roedd rhai o'r cynrychiolaethau a gafwyd yn amlygu bod Cymuned Coed-duon yn cynnwys ward gymunedol Dwyrain Cefn Fforest, sy'n eistedd yn naturiol â ward etholiadol gyfagos Cefn Fforest. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhannu ardal gymunedol gan fod ward Dwyrain Cefn Fforest yn rhan o Gymuned Coed-duon. Fodd bynnag, roedd y cynrychiolaethau'n dadlau bod cysylltiadau clir rhwng y 2 gymuned. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd yn datgan y dylid cyfuno wardiau etholiadol Coed-duon, Trecelyn a Phontllanfraith yn yr un etholaeth oherwydd y cysylltiadau lleol sy'n bodoli. Cafodd y Comisiwn wrthgynnig a oedd yn cynnig creu 2 etholaeth yn yr ardal gan ddefnyddio Pont Bedwas fel y ffin, sef y ffin hanesyddol rhwng Gwent a Morgannwg.

25.14 Cafodd y Comisiwn 28 o gynrychiolaethau yn cefnogi'r cynigion diwygiedig ar gyfer Dwyrain Casnewydd ac Islwyn. Er bod y Blaid Geidwadol a Phlaid Lafur Cymru yn cefnogi'r cynnig cychwynnol yn wreiddiol, roedd y ddwy ohonynt yn cydnabod y gwrthwynebiad a gafodd y Comisiwn i'r cynnig cychwynnol a'r gefnogaeth a gafwyd i'r cynnig diwygiedig.

25.15 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau a gafwyd ac mae'n cydnabod ei bod yn gall argymell etholaeth sy'n cyfuno wardiau etholiadol Cefn Fforest a Choed-duon mewn 1 etholaeth. Felly, mae'r Comisiwn wedi trosglwyddo ward Cefn Fforest i etholaeth awgrymedig Dwyrain Casnewydd ac Islwyn ac, er mwyn cadw at Gwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, wedi trosglwyddo ward etholiadol Ynys-ddu o etholaeth arfaethedig 'Newport West and Islwyn' i etholaeth argymelledig Caerffili. Ar y sail honno, mae'r Comisiwn o'r farn bod cysylltiadau ffordd a chysylltedd da ar draws yr etholaethau argymelledig yn yr ardal. Mae'r Comisiwn o'r farn bod y gwrthgynnig a gyflwynwyd yn fwy aflonyddgar ac yn llai dymunol, gan y byddai'n cynnwys ardaloedd mwy o brif gynghorau. Ystyriodd y Comisiwn y cynrychiolaethau a oedd yn awgrymu y dylid cyfuno Coed-duon, Trecelyn a Phontllanfraith yn yr un etholaeth hefyd, ond byddai hyn yn effeithio ar etholaethau sydd â chefnogaeth dda ar draws de Cymru.

<u>Enw argymelledig yr etholaeth</u>

25.16 Yr enw a argymhellir ar gyfer yr etholaeth yw Newport West and Islwyn. Yr enw amgen swyddogol a argymhellir yw Gorllewin Casnewydd ac Islwyn.


25.17 Yn wreiddiol, cynigiodd y Comisiwn yr enw 'Newport West and Caerphilly'. Cafodd y Comisiwn dystiolaeth a oedd yn cefnogi newid i'r trefniant ac yn awgrymu y dylid newid enw'r etholaeth hefyd i adlewyrchu'r trefniant newydd. Cafodd y Comisiwn yr enw amgen 'Newport West and Newbridge' hefyd.

25.18 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol drefniant gwahanol. Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol newid i'r enw i adlewyrchu'r trefniant newydd a gwnaethant argymell Newport West and Islwyn.

25.19 Yn ystod cyfnod ymgynghori'r cynigion diwygiedig, ni chafodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau yn ymwneud ag enw'r etholaeth arfaethedig.

25.20 Mae'r Comisiwn o'r farn mai'r enw Newport West and Islwyn, a'r enw amgen swyddogion Gorllewin Casnewydd ac Islwyn, sy'n adlewyrchu orau yr ardal ddaearyddol y byddai'r etholaeth argymelledig hon yn ei chynrychioli. Mae'r enw'n cynrychioli'r 2 ardal yr argymhellir eu cyfuno yn yr etholaeth.

# Gorllewin Casnewydd ac Islwyn



## 26. Pontypridd

Argymhelliad

**26.1 Mae'r Comisiwn yn argymell bod etholaeth sirol yn cael ei chreu o'r:**

**1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Pontypridd ar hyn o bryd):**

**Beddau (3,172), Pentre'r Eglwys (4,424), Graig (1,885), Y Ddraenen-wen (3,180), Llanhari (199), Tref Llantrisant (3,187), Llanilltud Faerdref (4,825), Tref Pontypridd (2,208), Rhondda (3,458), Canol Rhydfelen/Ilan (3,037), Tonysguboriau (1,965), Ton-teg (3,183), Trallwng (2,824), Trefforest (2,862) a Thyn-y-nant (2,454);**

**2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Cynon Valley ar hyn o bryd):**

**Abercynon (4,441), Cilfynydd (2,110), Glyn-coch (2,006), Dwyrain Aberpennar (2,254), Gorllewin Aberpennar (3,123), Penrhiw-ceibr (4,056) ac Ynys-y-bwl (3,433); a'r**

**3. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Ogmore ar hyn o bryd):**

**Brynna (3,616), Llanharan (2,819) a Llanhari (3,022)**

**26.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 73,743 o etholwyr, sydd 0.5% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth.**

**26.3 Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw unigol Pontypridd ar gyfer yr etholaeth hon.**

Cefndir

26.4 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiodd greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Pontypridd ar hyn o bryd):

Beddau (3,172), Pentre'r Eglwys (4,424), Graig (1,885), Y Ddraenen-wen (3,180), Tref Llantrisant (3,187), Llanilltud Faerdref (4,825), Tref Pontypridd (2,208), Rhondda (3,458), Canol Rhydfelen/Ilan (3,037), Tonysguboriau (1,965), Ton-teg (3,183), Trallwng (2,824), Trefforest (2,862) a Thyn-y-nant (2,454); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Cynon Valley ar hyn o bryd):

Gogledd Aberaman (3,609), De Aberaman (3,541), Abercynon (4,441), Cilfynydd (2,110), Glyn-coch (2,006), Dwyrain Aberpennar (2,254), Gorllewin Aberpennar (3,123), Penrhiw ceibr (4,056) ac Ynys-y-bwl (3,433).

26.5 Byddai'r etholaeth hon wedi cynnwys 71,237 o etholwyr, sydd 2.9% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Pontypridd.

26.6 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn dadlau yn erbyn cynnwys ardaloedd o Gwm Cynon mewn etholaeth â Phontypridd. Roedd y dadleuon yn gwrthwynebu rhannu Cwm Cynon, yn bennaf. Roedd cynrychiolaethau eraill a gafwyd yn dadlau y dylid cynnwys Pont-y-clun mewn etholaeth arfaethedig 'Pontypridd' ac roedd rhai cynrychiolaethau'n dadlau y dylid cynnwys Ffynnon Taf mewn etholaeth yn ardal prif gyngor Rhondda Cynon Taf. Fodd bynnag, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd o blaid ychwanegu Ffynnon Taf at etholaeth arfaethedig 'Gogledd Caerdydd', gan gynnwys gan yr Aelod Seneddol presennol ar gyfer Gogledd Caerdydd.

26.7 Roedd Plaid Lafur Cymru yn cefnogi'r cynigion cychwynnol yn yr ardal. Roedd y Blaid Geidwadol yn cynnig aduno ward etholiadol Ffynnon Taf mewn etholaeth arfaethedig 'Pontypridd',

ond ni aeth i'r afael â'r cynrychiolaethau yn ymwneud â Phont-y-clun. Fodd bynnag, aeth y Blaid Geidwadol i'r afael yn rhannol â phryderon preswylwyr Cwm Cynon trwy drosglwyddo wardiau Gogledd a De Aberaman o etholaeth arfaethedig 'Pontypridd' i'w hetholaeth arfaethedig 'Merthyr Tudful ac Aberdâr', a chynnwys ward Cwm-bach yn etholaeth arfaethedig 'Pontypridd'. Roedd Plaid Cymru yn cynnig mynd i'r afael â phryderon preswylwyr ym Mhont-y-clun a Ffynnon Taf trwy roi'r wardiau etholiadol hyn yn etholaeth Pontypridd. Aeth Plaid Cymru i'r afael â phryderon preswylwyr yng Nghwm Cynon hefyd trwy gynnwys wardiau etholiadol Gogledd Aberaman, De Aberaman, Dwyrain Aberpennar, Gorllewin Aberpennar a Phenrhiw-ceibr mewn etholaeth arfaethedig 'Aberdâr a Merthyr Tudful'. Ni aeth y Democratiaid Rhyddfrydol i'r afael â'r cynrychiolaethau a oedd yn cyfeirio at Bont-y-clun na Ffynnon Taf. Fodd bynnag, gwnaethant gynnig mynd i'r afael â'r pryderon yn ymwneud â Chwm Cynon trwy ychwanegu wardiau etholiadol Gogledd a De Aberaman at etholaeth arfaethedig 'Merthyr Tudful ac Aberdâr'. Cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol gynnwys wardiau etholiadol Dwyrain Tonyrefail a Gorllewin Tonyrefail o etholaeth arfaethedig 'Rhondda' yn eu hetholaeth arfaethedig 'Pontypridd gyda Chynon Isaf'.

26.8 Roedd adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol yn cynnig cynnwys wardiau etholiadol Pont y clun a Ffynnon Taf yn eu hetholaeth arfaethedig 'Pontypridd a Llantrisant'. Roedd y cynnig yn creu etholaeth a oedd yn cynnwys Llantrisant, Pont-y-clun a Phontypridd, ynghyd â Ffynnon Taf ac ardal Cwm Cynon Isaf. Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol hefyd yn cynnig trosglwyddo wardiau etholiadol Gogledd Aberaman a De Aberaman allan o'r etholaeth i wneud iawn am gynnwys Ffynnon Taf a Phont-y-clun.

26.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, roedd y Comisiwn yn cydymdeimlo â'r cynrychiolaethau yn datgan y dylid cadw Cwm Cynon mewn un etholaeth. Fodd bynnag, mae effaith hyn ar etholaethau eraill yn rhanbarth de Cymru yn bellgyrhaeddol ac yn arwain at ddeilliannau llai dymunol. Trosglwyddodd y Comisiwn rai wardiau etholiadol yng Nghwm Cynon i etholaeth arfaethedig 'Merthyr Tudful a Chynon Uchaf' (Gogledd Aberaman a De Aberaman yn

benodol). Fodd bynnag, nid oedd modd iddo gadw Cwm Cynon yn ei gyfanrwydd mewn 1 etholaeth. Roedd y Comisiwn hefyd yn cydymdeimlo â'r cynrychiolaethau yn datgan y dylid cynnwys Pont-y-clun a Ffynnon Taf mewn etholaeth arfaethedig 'Pontypridd'. Fodd bynnag, roedd y Comisiwn o'r farn, i greu etholaethau cydlynus ar draws y rhanbarth, y byddai'n well eu rhoi mewn etholaethau yng Nghaerdydd, yn unol â'r cynigion.

26.10 Felly, yn ei gynigion diwygiedig, roedd y Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Pontypridd ar hyn o bryd):

Beddau (3,172), Pentre'r Eglwys (4,424), Graig (1,885), Y Ddraenen-wen (3,180), Llanhari (199), Tref Llantrisant (3,187), Llanilltud Faerdref (4,825), Tref Pontypridd (2,208), Rhondda (3,458), Canol Rhydfelen/Ilan (3,037), Tonysguboriau (1,965), Ton-teg (3,183), Trallwng (2,824), Trefforest (2,862) a Thyn-y-nant (2,454);

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Cynon Valley ar hyn o bryd):

Abercynon (4,441), Cilfynydd (2,110), Glyn-coch (2,006), Dwyrain Aberpennar (2,254), Gorllewin Aberpennar (3,123), Penrhiw-ceibr (4,056) ac Ynys-y-bwl (3,433); a'r

3. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Ogmore ar hyn o bryd):

Brynna (3,616), Llanharan (2,819) a Llanhari (3,022)

26.11 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 73,743 o etholwyr, sydd 0.5% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol a gynigiwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Pontypridd.

26.12 Yn ystod cyfnod ymgynghori'r cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn 2 gynrychiolaeth, gan gynnwys gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, a oedd yn gwrthwynebu'r cynigion diwygiedig. Roedd y cynrychiolaethau hyn yn dadlau na ddylid gwahanu ward etholiadol Ffynnon Taf a Phont-y-clun oddi wrth weddill Rhondda Cynon Taf.

26.13 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau a gafwyd ac mae wedi penderfynu argymell yr etholaeth fel y'i cynigiwyd yn ei adroddiad cynigion diwygiedig. Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod rhywfaint o wrthwynebiad i'r cynnig diwygiedig; fodd bynnag, ni all y Comisiwn ddod o hyd i gynnig amgen addas na fyddai'n achosi aflonyddwch mawr i etholaethau ledled de Cymru.

Enw argymelledig yr etholaeth

26.14 Yr enw unigol a argymhellir ar gyfer yr etholaeth hon yw Pontypridd.


26.15 Cafodd y Comisiwn dystiolaeth a oedd yn cefnogi gwneud newidiadau i'r cynnig cychwynnol; fodd bynnag, er mwyn creu etholaethau ar draws y rhanbarth sy'n gydlynus ac yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, ni fu'n bosibl iddo wneud newidiadau mor bellgyrhaeddol â'r rhai a awgrymwyd yn y cynrychiolaethau. Cafodd y Comisiwn enwau amgen ar gyfer y cynnig hefyd, fel 'Pontypridd and Llantrisant' a 'Pontypridd and Lower Cynon'.

26.16 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol drefniant gwahanol ar gyfer yr etholaethau yn yr ardal ac felly gwnaethant gynnig enwau amgen.

26.17 Yn ystod cyfnod ymgynghori'r cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn 2 enw amgen ar gyfer etholaeth arfaethedig Pontypridd. Cynigiodd yr Aelod Seneddol ar gyfer etholaeth bresennol 'Pontypridd and Llantrisant', a oedd yn cefnogi'r awgrym a wnaed gan y Comisiynwyr Cynorthwyol yn eu hadroddiad argymhellion, a chynigiodd Plaid Lafur Cwm Cynon yr enw amgen 'Lower Cynon and Pontypridd.'

26.18 Mae’r Comisiwn o’r farn mai’r enw Pontypridd sy’n adlewyrchu orau yr ardal ddaearyddol y byddai’r etholaeth argymelledig hon yn ei chynrychioli. Mae’r Comisiwn o’r farn bod yr enw’n adnabyddadwy ac yn dderbyniol yn y Gymraeg a Saesneg.

# Pontypridd


0
5
Cilomedrau
Graddfa 1:88,180
1. Pentre'r Eglwys (4,424)
2. Glyncoch (2,006)
3. Y Ddraenen Wen (3,180)
4. Dwyrain Aberpennar (2,254)
5. Gorllewin Aberpennar (3,123)
6. Penrhiw-ceibr (4,056)
7. Tref Pontypridd (2,208)
8. Canol Rhydfelen / Ilan (3,037)
9. Tonysguboriau (1,965)
10. Trefforest (2,862)
11. Tyn-y-nant (2,454)
Ynys-y-bwl (3,433)
Abercynon (4,441)
Cilfynydd (2,110)
Rhondda (3,458)
Trallwng (2,824)
Graig (1,885)
Ton-teg (3,183)
Tref Llantrisant (3,187)
Beddau (3,172)
Llanilltud Faerdref (4,825)
Llanharan (2,819)
Brynna (3,616)
Llanhari (3,221)
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2023] OS [100047875]

## 27. Rhondda and Ogmore (Rhondda ac Ogwr)

Argymhelliad

**27.1 Mae'r Comisiwn yn argymell bod etholaeth sirol yn cael ei chreu o'r:**

**1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Rhondda ar hyn o bryd):**

**Cwm Clydach (1,987), Y Cymer (3,977), Glynrhedynog (3,114), Llwynypia (1,637), Maerdy (2,283), Pentre (3,902), Pen-y-graig (3,929), Porth (4,282), Tonypandy (2,686), Trealaw (2,895), Treherbert (4,158), Treorci (5,693), Tylorstown (3,054), Ynys-hir (2,380) ac Ystrad (4,285);**

**2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Pontypridd ar hyn o bryd):**

**Dwyrain Tonyrefail (4,433) a Gorllewin Tonyrefail (4,896);**

**3. Ward etholiadol Gilfach Goch (2,437) o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Ogmore ar hyn o bryd); a'r**

**4. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Pen-y-bont ar Ogwr (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Ogmore ar hyn o bryd):**

**Betws (1,595), Melin Ifan Ddu (1,839), Blaengarw (1,333), Llangeinwyr (887), Nant y moel (1,745), Cwmogwr (2,357) a Phontycymer (1,773).**

**27.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 73,557 o etholwyr, sydd 0.2% uwchlaw Cwota Etholiadol y DU, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth.**

**27.3 Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw swyddogol Rhondda and Ogmore ar gyfer yr etholaeth hon a'r enw amgen swyddogol Rhondda ac Ogwr.**

Cefndir

27.4 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiodd greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Rhondda ar hyn o bryd):
Cwm Clydach (1,987), Y Cymer (3,977), Glynrhedynog (3,114), Llwynypia (1,637), Maerdy (2,283), Pentre (3,902), Pen-y-graig (3,929), Porth (4,282), Tonypandy (2,686), Trealaw (2,895), Treherbert (4,158), Treorci (5,693), Tylorstown (3,054), Ynys-hir (2,380) ac Ystrad (4,285);

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Ogmore ar hyn o bryd):
Brynna (3,616), Gilfach Goch (2,437), Llanharan (2,819) a Llanhari (3,022); a'r

3. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Pontypridd ar hyn o bryd):
Llanhari (199), Dwyrain Tonyrefail (4,433) a Gorllewin Tonyrefail (4,896).

27.5 Byddai'r etholaeth hon wedi cynnwys 71,684 o etholwyr, sydd 2.3% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol swyddogol a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Rhondda.

27.6 Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynigion cychwynnol ymhlith y pleidiau gwleidyddol a'r cynrychiolaethau a gafwyd. Fodd bynnag, roedd y Democratiaid Rhyddfrydol yn cynnig cynnwys wardiau etholiadol Dwyrain Tonyrefail a Gorllewin Tonyrefail o etholaeth arfaethedig 'Rhondda' mewn etholaeth arfaethedig 'Pontypridd gyda Chynon Isaf'. O ganlyniad, roeddent yn cynnig cyfuno rhan o

etholaeth bresennol Rhondda â Chwm Ogwr mewn etholaeth arfaethedig 'Rhondda ac Ogwr'.

27.7 Roedd adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol yn cefnogi'r cynigion cychwynnol ar gyfer etholaeth arfaethedig 'Rhondda' yn eu cyfanrwydd.

27.8 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, gan gynnwys argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, roedd y Comisiwn o'r farn o hyd y byddai'r cynnig cychwynnol yn creu etholaeth gydlynus. Fodd bynnag, er mwyn ymdrin ag etholaethau diwygiedig mewn rhannau eraill o dde Cymru, gwnaeth y Comisiwn fân newidiadau i'r cynnig cychwynnol. Cadwodd y Comisiwn etholaeth bresennol Rhondda i gyd yn yr etholaeth arfaethedig.

27.9 Felly, yn ei gynigion diwygiedig, roedd y Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Rhondda ar hyn o bryd):
Cwm Clydach (1,987), Y Cymer (3,977), Glynrhedynog (3,114), Llwynypia (1,637), Maerdy (2,283), Pentre (3,902), Pen-y-graig (3,929), Porth (4,282), Tonypandy (2,686), Trealaw (2,895), Treherbert (4,158), Treorci (5,693), Tylorstown (3,054), Ynys-hir (2,380) ac Ystrad (4,285);

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Pontypridd ar hyn o bryd):
Dwyrain Tonyrefail (4,433) a Gorllewin Tonyrefail (4,896);

3. Ward etholiadol Gilfach Goch (2,437) o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Ogmore ar hyn o bryd); a'r

4. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Pen-y-bont ar Ogwr (sy'n ffurfio rhan o etholaeth

sirol bresennol Ogmore ar hyn o bryd):

Felindre (2,087), Hendre (3,175) a Phen-prysg (2,474).

27.10 Byddai'r etholaeth hon wedi cynnwys 69,764 o etholwyr, sydd 4.9% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol swyddogol a gynigiwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Rhondda.

27.11 Yn ystod cyfnod ymgynghori'r cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn wrthwynebiad sylweddol i gynnwys tref Pencoed yn etholaeth arfaethedig 'Rhondda'. Roedd y sylwadau'n datgan bod Pencoed yn rhan o Ben-y-bont ar Ogwr ac yn rhannu ei chymuned a chysylltiadau lleol ag ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Cafodd y Comisiwn wrthgynnig a oedd yn galluogi cynnwys Pencoed mewn etholaeth arfaethedig 'Pen-y-bont'. Y gwrthgynnig oedd trosglwyddo Cwm Ogwr a Chwm Garw i etholaeth arfaethedig 'Rhondda' a throsglwyddo Pencoed i etholaeth arfaethedig 'Pen-y-bont'.

27.12 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau a gafwyd ac mae'n cytuno mai'r etholaeth fwyaf priodol ar gyfer tref Pencoed (wardiau etholiadol Felindre, Hendre a Phen-prysg) yw etholaeth arfaethedig 'Pen-y-bont', gan ei fod yn ardal yr un prif gyngor. Er mwyn cadw etholaethau sy'n bodloni Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, mae'r Comisiwn wedi argymell cynnwys Cwm Garw a Chwm Ogwr (wardiau etholiadol Betws, Melin Ifan Ddu, Blaengarw, Llangeinwyr, Nant-y-moel, Cwmogwr a Phontycymer) yn etholaeth arfaethedig 'Rhondda', gan adeiladu ar hunaniaethau cytûn cymunedau'r cymoedd.

Enw argymelledig yr etholaeth

27.13 Yr enw a argymhellir ar gyfer yr etholaeth yw Rhondda and Ogmore. Yr enw amgen swyddogol a argymhellir yw Rhondda ac Ogwr.


27.14 Cafodd y Comisiwn dystiolaeth a oedd yn cefnogi cadw'r cynnig cychwynnol. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni etholaethau a oedd yn bodloni rhai o'r cynrychiolaethau eraill a gafwyd, roedd rhaid i'r Comisiwn gynnig newidiadau i'r cynnig cychwynnol. Cafodd y Comisiwn drefniant amgen gan y Democratiaid Rhyddfrydol, a awgrymodd yr enw amgen Rhondda ac Ogwr hefyd, a oedd yn adlewyrchu eu trefniant amgen yn well.

27.15 Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol yn argymell cadw'r enw.

27.16 Yn ystod cyfnod ymgynghori'r cynigion diwygiedig, ni chafodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau yn ymwneud ag enw'r etholaeth arfaethedig. Fodd bynnag, yr enw a awgrymwyd yn y gwrthgynnig a gyflwynwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol oedd Rhondda ac Ogwr.

27.17 Mae'r Comisiwn o'r farn mai'r enw Rhondda and Ogmore sy'n adlewyrchu orau'r ardal ddaearyddol y byddai'r etholaeth argymelledig hon yn ei chynrychioli. Mae'r enw'n cynrychioli'r 2 ardal yr argymhellir eu cyfuno yn yr etholaeth.

# Rhondda ac Ogwr




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2023] OS [100047875]

## 28. Swansea West (Gorllewin Abertawe)

<u>Argymhelliad</u>

**28.1 Mae'r Comisiwn yn argymell bod etholaeth sirol yn cael ei chreu o'r:**

**1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol bresennol Swansea East ar hyn o bryd):**

**Cwmbwrla (5,622), Glandŵr (4,821), Treforys (12,105), Mynydd-bach (6,625) a Phenderi (7,397); a'r**

**2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol bresennol Swansea West ar hyn o bryd):**

**Y Castell (10,312), Sgeti (11,304), Townhill (5,592) ac Uplands (10,834).**

**28.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 74,612 o etholwyr, sydd 1.7% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth.**

**28.3 Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw swyddogol Swansea West ar gyfer yr etholaeth hon a'r enw amgen swyddogol Gorllewin Abertawe.**

<u>Cefndir</u>

28.4 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiodd greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Gower ar hyn o bryd):

Llangyfelach (3,946), Mawr (1,438), Penlle'r-gaer (2,553) a Phontarddulais (4,954);

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o etholaeth

fwrdeistrefol bresennol Swansea East ar hyn o bryd):

Cwmbwrla (5,622), Glandŵr (4,821), Treforys (12,105), Mynydd-bach (6,625) a Phenderi (7,397); a'r

3. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol bresennol Swansea West ar hyn o bryd):

Y Castell (10,312), Townhill (5,592) ac Uplands (10,834).

28.5 Byddai'r etholaeth hon wedi cynnwys 76,199 o etholwyr, sydd 3.8% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Swansea Central and North. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Canol a Gogledd Abertawe.

28.6 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn cyflwyno gwrthgynnig ar gyfer etholaethau arfaethedig 'Gorllewin Abertawe a Gŵyr' a 'Chanol a Gogledd Abertawe'. Roedd y cynrychiolaethau'n dadlau bod y trefniant amgen yn adlewyrchu cysylltiadau cymunedol yn Ninas a Sir Abertawe yn well, ar sail ffydd, addysg a diwylliant. Roedd rhywfaint o gefnogaeth i'r gwrthgynnig, gan ddadlau ei fod yn sicrhau nad yw cymunedau lleiafrifol yn cael eu rhannu rhwng etholaethau a bod myfyrwyr yn byw ac yn astudio yn yr un etholaeth. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a oedd yn gwrthwynebu cynnwys ardal Cwm Tawe Uchaf (Pontardawe a'r ardal gyfagos) mewn etholaeth arfaethedig 'Aberhonddu a Maesyfed'. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo bod gan yr ardal gysylltiadau gwell â gweddill Cwm Tawe.

28.7 Roedd y Blaid Geidwadol yn cefnogi cynigion cychwynnol y Comisiwn ar gyfer ardal Abertawe yn gryf. Cynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol drefniadau ychydig yn wahanol ar draws Abertawe i wneud iawn am eu newidiadau arfaethedig i etholaethau arfaethedig 'Dwyrain Abertawe

a Chastell-nedd’ ac ‘Aberhonddu a Maesyfed’. Roedd y Democratiaid Rhyddfrydol yn cynnig creu etholaeth ‘Gŵyr a Gorllewin Abertawe’ a oedd yn cynnwys wardiau ychwanegol o ganol Abertawe (Townhill, Y Castell ac Uplands), gyda wardiau Casllwchwr Uchaf, Y Cocyd, Penyrheol, Casllwchwr Isaf, Pontybrenin a Gorseinon yn cael eu trosglwyddo i etholaeth arfaethedig ‘Gogledd Abertawe’. Roedd Plaid Cymru, o ganlyniad i greu ei hetholaeth arfaethedig ‘Lliw a Thawe’, yn cynnig creu etholaethau ‘Dwyrain Abertawe’ a Gorllewin Abertawe a Gŵyr’ o weddill Dinas a Sir Abertawe. Roedd cyflwyniad Plaid Cymru yn cynnig ymestyn etholaeth bresennol Aberhonddu a Maesyfed i ardal awdurdod lleol Sir Fynwy i gyfuno ag ardal Y Fenni, er mwyn i ardal Dyffryn Aman gael ei chynnwys mewn etholaeth arfaethedig ‘Lliw a Thawe’ a fyddai’n cynnwys llawer o ogledd Abertawe. Roedd Plaid Lafur Cymru yn cynnig creu etholaeth ‘Gŵyr a Gorllewin Abertawe’ a oedd yn cynnwys wardiau etholiadol Mawr, Pontarddulais, Llangyfelach a Phenlle’r-gaer, ar draul wardiau etholiadol Mayals a Sgeti. Roedd y newid canlyniadol i etholaeth arfaethedig ‘Canol a Gogledd Abertawe’ yn golygu symud wardiau Mawr, Pontarddulais, Llangyfelach a Phenlle’r-gaer i etholaeth arfaethedig ‘Gŵyr a Gorllewin Abertawe, a bod ward Treforys wedi’i chynnwys yn etholaeth arfaethedig ‘Castell-nedd a Dwyrain Abertawe’. Roedd y cynnig yn rhannu Cymuned y Mwmbwls rhwng etholaeth arfaethedig ‘Gorllewin Abertawe a Gŵyr’ ac etholaeth arfaethedig ‘Canol Abertawe’.

28.8 Roedd adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol yn cynnig trefniadau gwahanol i’r cynigion cychwynnol ar gyfer ardal Abertawe ac yn dadlau’n gryf y dylai Cwm Tawe a Dyffryn Aman Uchaf fod yn rhan o ardal Abertawe, ar sail y farn bod holl gysylltiadau cymdeithasol, economaidd, cymunedol a gweinyddol yr ardal hon â chytref Abertawe/Castell-nedd. Roedd hyn yn golygu y byddai angen siâp gwahanol ar yr etholaethau er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni’r amrediad etholwyr statudol, er bod y newidiadau i etholaeth arfaethedig Canol a Gogledd Abertawe y Comisiwn yn weddol gyfyngedig: tynnwyd wardiau etholiadol Gorseinon a Phenyrheol, ac ychwanegol ward etholiadol Uplands, gan ei huno â ward Sgeti yn yr un etholaeth.

28.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, roedd y Comisiwn o blaid y trefniadau amgen a gynigiwyd. Fodd bynnag, nid oedd y Comisiwn yn teimlo bod yr amgylchiadau'n cyfiawnhau rhannu Cymuned y Mwmbwls na Chymuned Llwchwr, fel rhan o'r gwrthgynnig a gyflwynwyd gan Blaid Lafur Cymru a'r Comisiynwyr Cynorthwyol yn y drefn honno. Roedd y Comisiwn o'r farn y byddai'r cynigion i gynnwys Cwm Tawe mewn etholaeth arfaethedig 'Abertawe' yn cael effaith bellgyrhaeddol ar ei allu i greu etholaethau cydlynus ar draws gweddill y wlad o fewn cyfyngiadau'r ddeddfwriaeth. Roedd y Comisiwn hefyd o'r farn ei bod yn amhriodol creu etholaethau ar sail ffyrdd, gwahaniaethau hiliol neu statws addysgol.

28.10 Felly, yn ei gynigion diwygiedig, roedd y Comisiwn yn cynnig cadw ei gynigion cychwynnol ar gyfer yr etholaeth hon yn bur ddigyfnewid. Fodd bynnag, cynigiodd y Comisiwn drosglwyddo ward Glandŵr i etholaeth arfaethedig Castell-nedd a Dwyrain Abertawe, am y rhesymau a roddwyd uchod mewn perthynas â'r etholaeth honno. Felly, roedd y Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Gower ar hyn o bryd):

Llangyfelach (3,946), Mawr (1,438), Penlle'r-gaer (2,553) a Phontarddulais (4,954);

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol bresennol Swansea East ar hyn o bryd):

Cwmbwrla (5,622), Treforys (12,105), Mynydd-bach (6,625) a Phenderi (7,397); a'r

3. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o etholaeth fwrdeistrefol bresennol Swansea West ar hyn o bryd):

Y Castell (10,312), Townhill (5,592) ac Uplands (10,834).

28.11 Byddai'r etholaeth hon wedi cynnwys 71,378 o etholwyr, sydd 2.7% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Swansea Central and North. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Canol a Gogledd Abertawe.

28.12 Yn ystod cyfnod ymgynghori'r cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn 12 o gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu etholaethau arfaethedig 'Canol a Gogledd Abertawe' a 'Gŵyr a Gorllewin Abertawe'. Cafodd y Comisiwn 3 gwrthgynnig ar gyfer yr ardal. Roedd y gwrthgynnig cyntaf yn cynnwys defnyddio wardiau newydd llywodraeth leol, sydd y tu allan i gwmpas yr arolwg hwn. Gwnaed yr ail a'r trydydd gwrthgynnig gan Aelod Seneddol etholaeth bresennol Gorllewin Abertawe. Roedd opsiwn dewisol yr Aelod Seneddol yn trosglwyddo wardiau etholiadol Mawr, Pontarddulais a Phenlle'r-gaer o etholaeth arfaethedig 'Canol a Gogledd Abertawe' i etholaeth newydd 'Gŵyr' (mae'r wardiau hyn yn etholaeth bresennol Gŵyr ar hyn o bryd) ac yn trosglwyddo ward etholiadol Sgeti i etholaeth arfaethedig 'Gorllewin Abertawe'. Y trydydd gwrthgynnig oedd trosglwyddo Sgeti i ward 'Gorllewin Abertawe' a symud wardiau Pontarddulais, Penlle'r-gaer a Llangyfelach i etholaeth newydd 'Gŵyr'. Byddai'r ddau gynnig yn arwain at etholaethau sy'n cydymffurfio â Chwota Etholiadol y Deyrnas Unedig ac sydd â chysylltiadau ffordd a chyfathrebu da.

28.13 Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr holl gynrychiolaethau a gafwyd. Mae argymhelliad y Comisiwn ar gyfer yr etholaeth hon yn adlewyrchu'n fras y trydydd gwrthgynnig o gyfnod ymgynghori'r cynigion diwygiedig, a ddisgrifiwyd uchod. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn hefyd wedi cynnwys tref Sgiwen yn etholaeth argymelledig Castell-nedd a Dwyrain Abertawe ac, o ganlyniad, mae ward etholiadol Glandŵr wedi'i chynnwys yn etholaeth argymelledig Gorllewin Abertawe a ward etholiadol Mawr wedi'i chynnwys yn etholaeth argymelledig Gŵyr, er mwyn sicrhau bod pob un o'r etholaethau a argymhellir yn bodloni Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig. Mae'r trefniant hwn yn dychwelyd nifer

o’r wardiau etholiadol a oedd wedi’u cynnwys yn etholaeth arfaethedig ‘Gŵyr a Gorllewin Abertawe’ i etholaethau ‘Gŵyr’ a ‘Gorllewin Abertawe’ ac yn adeiladu ar y cysylltiadau a’r rhwymau cymunedol presennol yn yr ardal, wrth alluogi i Gwota Etholiadol y Deyrnas Unedig gael ei fodloni ar draws etholaethau yn ne Cymru, ar y cyd â newidiadau a wnaed i etholaethau eraill.

<u>Enw argymelledig yr etholaeth</u>

28.14 Yr enw a argymhellir ar gyfer yr etholaeth yw Swansea West. Yr enw amgen swyddogol a argymhellir ar gyfer yr etholaeth yw Gorllewin Abertawe.

28.15 Yn wreiddiol, cynigiodd y Comisiwn yr enw ‘Swansea Central and North’. Cafodd y Comisiwn dystiolaeth a oedd yn argymell mân newidiadau i’r cynnig cychwynnol ac fe gafodd rai cynigion gwahanol iawn ar draws Abertawe i gyd o ganlyniad i gynnwys ardal Cwm Tawe yng nghynigion Abertawe. Cynigiwyd enwau amgen, gan gynnwys gan Blaid Lafur Cymru a gynigiodd yr enw ‘Canol Abertawe’.


28.16 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol drefniant gwahanol ar gyfer yr etholaethau yn yr ardal, felly gwnaethant gynnig enwau amgen.

28.17 Yn ystod cyfnod ymgynghori’r cynigion diwygiedig, ni chafodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau yn ymwneud ag enw’r etholaeth arfaethedig. Yr enw a awgrymwyd yn y gwrthgynnig oedd Gorllewin Abertawe.

28.18 Mae’r Comisiwn o’r farn mai’r enw Swansea West a’r enw amgen swyddogol Gorllewin Abertawe sy’n adlewyrchu orau yr ardal ddaearyddol y byddai’r etholaeth argymelledig hon yn ei chynrychioli. Mae’r Comisiwn o’r farn y byddai’r enw argymelledig yn adlewyrchu’r wardiau etholiadol

yn yr etholaeth arfaethedig yn gywir ac y byddai'n gwahaniaethu'r ardal oddi wrth y wardiau etholiadol eraill yn ardal prif gyngor Abertawe, nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr etholaeth argymelledig.

# Gorllewin Abertawe



## 29. Torfaen

Argymhelliad

**29.1 Mae'r Comisiwn yn argymell bod etholaeth sirol yn cael ei chreu o'r:**

**1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Torfaen (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Torfaen ar hyn o bryd):**

**Abersychan (5,044), Blaenafon (4,575), Bryn-wern (1,295), Coed Efa (1,859), Cwmynyscoy (987), Fairwater (3,918), Greenmeadow (2,028), Llantarnam (4,864), New Inn (4,777), Pant-teg (5,828), Pontnewydd (5,186), Pontnewynydd (1,129), Pont-y-pŵl (1,438), St. Cadocs and Phen-y-garn (1,341), St. Dials (3,317), Snatchwood (1,819), Trefddyn (2,463), Two Locks (4,715), Cwmbrân Uchaf (4,207) a Waunfelin (1,847); a'r**

**2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Torfaen (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Monmouth ar hyn o bryd):**

**Gogledd Croesyceiliog (2,745), De Croesyceiliog (1,460), Gogledd Llanyrafon (1,803) a De Llanyrafon (1,946).**

**29.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 70,591 o etholwyr, sydd 3.8% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth.**

**29.3 Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw unigol Torfaen ar gyfer yr etholaeth hon.**

Cefndir

29.4 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiodd greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Torfaen (sy'n ffurfio rhan o etholaeth

sirol bresennol Torfaen ar hyn o bryd):

Abersychan (5,044), Blaenafon (4,575), Bryn-wern (1,295), Coed Efa (1,859), Cwmynyscoy (987), Fairwater (3,918), Greenmeadow (2,028), Llantarnam (4,864), New Inn (4,777), Pant-teg (5,828), Pontnewydd (5,186), Pontnewynydd (1,129), Pont-y-pŵl (1,438), St. Cadocs and Phen-y-garn (1,341), St. Dials (3,317), Snatchwood (1,819), Trefddyn (2,463), Two Locks (4,715), Cwmbrân Uchaf (4,207) a Waunfelin (1,847); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Torfaen (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Monmouth ar hyn o bryd):

Gogledd Croesyceiliog (2,745), De Croesyceiliog (1,460), Gogledd Llanyrafon (1,803) a De Llanyrafon (1,946).

29.5 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 70,591 o etholwyr, sydd 3.8% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Torfaen.

29.6 Cafodd y Comisiwn gyfanswm o 9 o gynrychiolaethau a oedd yn cefnogi ei gynnig cychwynnol ar gyfer yr etholaeth hon. Mynegodd Aelodau Seneddol Torfaen a Mynwy eu cefnogaeth i'r cynnig, gan ddatgan eu bod yn cefnogi'r ffaith bod yr etholaeth arfaethedig yn cyd-ffinio â ffiniau'r awdurdod lleol. Roedd y Blaid Geidwadol, Plaid Lafur Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cefnogi'r cynnig cychwynnol. Cafodd y Comisiwn 5 cynrychiolaeth nad oeddent yn cefnogi'r cynnig cychwynnol, gan gynnwys cyflwyniad gan Blaid Cymru, a oedd yn cyfuno ardaloedd yn Nhorfaen â Blaenau Gwent a Sir Fynwy, gan groesi ffiniau sawl awdurdod lleol.

29.7 Roedd adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol yn cefnogi'r cynnig cychwynnol ac yn nodi bod yr holl bleidiau gwleidyddol, ar wahân i Blaid Cymru, yn ei gefnogi hefyd.

29.8 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, penderfynodd y Comisiwn gadw ei gynnig cychwynnol ar gyfer yr etholaeth hon. Ystyriodd y cynigion amgen; fodd bynnag, teimlai fod y trefniant yn y cynnig cychwynnol yn cyd-fynd yn well â Rheol 5 y ddeddfwriaeth ac yn rhoi eglurder i'r etholwyr. Roedd y Comisiwn o'r farn bod effeithiau'r trefniadau amgen a gynigiwyd ar yr ardaloedd cyfagos yn llai dymunol hefyd.

29.9 Felly, yn ei gynigion diwygiedig, roedd y Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Torfaen (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Torfaen ar hyn o bryd):

Abersychan (5,044), Blaenafon (4,575), Bryn-wern (1,295), Coed Efa (1,859), Cwmynyscoy (987), Fairwater (3,918), Greenmeadow (2,028), Llantarnam (4,864), New Inn (4,777), Pant-teg (5,828), Pontnewydd (5,186), Pontnewynydd (1,129), Pont-y-pŵl (1,438), St. Cadocs and Phen-y-garn (1,341), St. Dials (3,317), Snatchwood (1,819), Trefddyn (2,463), Two Locks (4,715), Cwmbrân Uchaf (4,207) a Waunfelin (1,847); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Torfaen (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Monmouth ar hyn o bryd):

Gogledd Croesyceiliog (2,745), De Croesyceiliog (1,460), Gogledd Llanyrafon (1,803) a De Llanyrafon (1,946).

29.10 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 70,591 o etholwyr, sydd 3.8% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Torfaen.

29.11 Yn ystod cyfnod ymgynghori'r cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn 5 cynrychiolaeth a oedd yn cefnogi'r etholaeth arfaethedig. Roedd y cynrychiolaethau'n awgrymu ei bod yn synhwyrol dychwelyd y wardiau etholiadol o ardal awdurdod lleol Sir Fynwy i etholaeth arfaethedig 'Sir Fynwy', gall alluogi etholaeth a fyddai'n cynnwys wardiau etholiadol o ardal awdurdod lleol Torfaen yn unig.

29.12 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau a gafwyd ac mae wedi penderfynu argymell yr etholaeth a gynigiwyd yn ei adroddiad cynigion diwygiedig. Mae cefnogaeth i'r etholaeth argymelledig ac mae'n adnabyddadwy i'r etholwyr. Hefyd, byddai'r awdurdod lleol cyfan wedi'i wasanaethu'n dda mewn un etholaeth Seneddol.

<u>Enw argymelledig yr etholaeth</u>

29.13 Yr enw unigol a argymhellir ar gyfer yr etholaeth hon yw Torfaen.

29.14 Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn awgrymu bod enw'r etholaeth yn synhwyrol gan ei fod yn cyd-fynd â ffiniau'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth a oedd yn awgrymu trefniant amgen â'r enw 'Sirhowy'.


29.15 Ni argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol unrhyw newid i'r enw fel y'i cynigiwyd yn y cynigion cychwynnol.

29.16 Yn ystod cyfnod ymgynghori'r cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn 1 cynrychiolaeth yn ymwneud ag enw'r etholaeth arfaethedig. Roedd y gynrychiolaeth yn datgan nad yw preswylwyr yn gwybod beth yw ystyr 'Torfaen' na sut i'w ynganu ac yn awgrymu y dylid ailenwi'r etholaeth 'Gwent'.

29.17 Mae'r Comisiwn o'r farn mai'r enw Torfaen sy'n adlewyrchu orau yr ardal ddaearyddol y byddai'r etholaeth argymelledig yn ei chynrychioli ac y byddai'n fwy tebygol o olygu bod gan etholwyr fwy o gysylltiad ag ef. Byddai ffin yr etholaeth argymelledig yn cyd-ffinio ag ardal prif gyngor Torfaen.

Mae’r Comisiwn o’r farn bod yr enw’n adnabyddadwy ac yn dderbyniol yn y Gymraeg a’r Saesneg.

# Torfaen



0
5
Cilomedrau
Graddfa 1:79,120
Blaenavon
(4,575)
Abersychan
(5,044)
1. Bryn-wern (1,295)
2. Coed Efa (1,859)
3. Gogledd Croesyceiliog (2,745)
4. De Croesyceiliog (1,460)
5. Fairwater (3,918)
6. Greenmeadow (2,028)
7. Gogledd Llanyrafon (1,803)
8. Pontnewydd (5,186)
9. Pont-y-pŵl (1,438)
10. Snatchwood (1,819)
11. St. Cadocs a Phenygarn (1,341)
12. Llanfihangel Llantarnam (3,317)
Trefddyn
(2,463)
10
11
Pontnewynydd
(1,129)
New Inn
(4,777)
1
9
Waunfelin
(1,847)
Cwmynysgoi
(987)
Panteg
(5,828)
Cwmbrân
(4,207)
8
3
6
4
12
7
5
De
Llanyrafon
(1,946)
2
Two Locks
(4,715)
Llantarnam
(4,864)
Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2023] OS [100047875]

## 30. Vale of Glamorgan (Bro Morgannwg)

Argymhelliad

**30.1 Mae'r Comisiwn yn argymell bod etholaeth sirol yn cael ei chreu o'r wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Vale of Glamorgan ar hyn o bryd):**

**Baruc (6,080), Buttrills (4,447), Cadog (7,244), Castleland (3,442), Court (3,370), Y Bont faen (5,240), Dyfan (4,170), Gibbonsdown (3,827), Illtud (6,242), Llandŵ/Ewenni (2,362), Llanilltud Fawr (7,939), Llanbedr-y-fro (1,855), Y Rhws (5,796), Sain Tathan (2,765), Saint-y-brid (2,732) a Gwenfô (2,915).**

**30.2 Byddai gan yr etholaeth hon 70,426 o etholwyr, sydd 4% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth.**

**30.3 Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw swyddogol Vale of Glamorgan ar gyfer yr etholaeth hon a'r enw amgen swyddogol Bro Morgannwg.**

Cefndir

30.4 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiodd greu etholaeth sirol o'r wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Vale of Glamorgan ar hyn o bryd):

Baruc (6,080), Buttrills (4,447), Cadog (7,244), Castleland (3,442), Court (3,370), Y Bont faen (5,240), Dyfan (4,170), Gibbonsdown (3,827), Illtud (6,242), Llandŵ/Ewenni (2,362), Llanilltud Fawr (7,939), Llanbedr-y-fro (1,855), Y Rhws (5,796), Sain Tathan (2,765), Saint-y-brid (2,732) a Gwenfô (2,915).

30.5 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 70,426 o etholwyr, sydd 4% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Vale of Glamorgan. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd oedd Bro Morgannwg.

30.6 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig cychwynnol ac yn argymell dychwelyd ardal Penarth i etholaeth arfaethedig 'Bro Morgannwg'. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau hefyd a oedd yn argymell cadw ward etholiadol Dinas Powys yn etholaeth arfaethedig 'Bro Morgannwg', gan fod preswylwyr yn dueddol o edrych tua'r Barri a chymunedau eraill ym Mro Morgannwg ar gyfer gwasanaethau ac amwynderau, yn hytrach na Chaerdydd.

30.7 Roedd y Blaid Geidwadol a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cynnig ychwanegu ward etholiadol Dinas Powys at etholaeth arfaethedig 'Bro Morgannwg'. Ni chynigiodd Plaid Lafur Cymru unrhyw newidiadau i'r cynnig cychwynnol. Roedd cyflwyniad Plaid Cymru yn cynnig creu etholaeth 'Y Barri a De Caerdydd' trwy dynnu wardiau Cadog, Castleland, Court, Gibbonsdown, Buttrills, Dyfan, Baruc ac Illtud a chynnwys Dinas Powys mewn etholaeth arfaethedig 'Bro Morgannwg a Phorthcawl'.

30.8 Daeth adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r casgliad bod ymlyniad i etholaeth bresennol Bro Morgannwg, a oedd yn bodloni'r cwota statudol, a bod cefnogaeth gan y pleidiau gwleidyddol. Fodd bynnag, roeddent hefyd yn dadlau y byddai cadw'r etholaeth bresennol yn ei chyfanrwydd neu i raddau helaeth iawn yn arwain at ganlyniadau anfoddhaol mewn mannau eraill, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Felly, gwnaethant argymell creu etholaeth 'Bro Morgannwg a Phorthcawl' ac etholaeth 'Y Barri, De Caerdydd a Phenarth', gan rannu tref Y Barri ar draws y 2 etholaeth hyn.

30.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, nid oedd y Comisiwn yn cytuno â'r cynrychiolaethau a oedd o blaid cynnwys ardal Penarth yn etholaeth arfaethedig 'Bro Morgannwg', gan fod hyn yn rhagori ar y cwota statudol. Er bod cadw Dinas Powys yn etholaeth arfaethedig 'Bro Morgannwg' yn arwain at etholaeth a oedd o fewn y cwota statudol o hyd, roedd yn ei gwneud yn anodd iawn creu etholaethau a oedd o fewn yr amrediad statudol

yng Nghaerdydd. Roedd y Comisiwn o'r farn bod creu etholaeth 'Y Barri a De Caerdydd' nid yn unig yn rhannu tref Y Barri ar draws 2 etholaeth, ond y byddai'n creu gwrthwynebiad pellach oherwydd dadleuon ymatebwyr bod Dinas Powys yn edrych tua'r Barri ar gyfer gwasanaethau, yn hytrach na Chaerdydd. Byddai cynnwys Y Barri mewn etholaeth gyda Chaerdydd yn creu problemau tebyg i breswylwyr Dinas Powys â'r cynnig cychwynnol.

30.10 Felly, yn ei gynigion diwygiedig, cadwodd y Comisiwn ei gynnig cychwynnol i greu etholaeth sirol o'r wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Vale of Glamorgan ar hyn o bryd):

Baruc (6,080), Buttrills (4,447), Cadog (7,244), Castleland (3,442), Court (3,370), Y Bont faen (5,240), Dyfan (4,170), Gibbonsdown (3,827), Illtud (6,242), Llandŵ/Ewenni (2,362), Llanilltud Fawr (7,939), Llanbedr-y-fro (1,855), Y Rhws (5,796), Sain Tathan (2,765), Saint-y-brid (2,732) a Gwenfô (2,915).

30.11 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 70,426 o etholwyr, sydd 4% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Vale of Glamorgan. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd oedd Bro Morgannwg.

30.12 Yn ystod cyfnod ymgynghori'r cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn 4 o gynrychiolaethau a oedd yn gwrthwynebu cynnwys ward etholiadol Dinas Powys mewn etholaeth arfaethedig 'De Caerdydd a Phenarth', gan ddatgan bod gan yr ardal gysylltiadau lleol a chymunedol â'r ardaloedd sydd wedi'u cynnwys yn etholaeth arfaethedig 'Bro Morgannwg'. Roedd Plaid Lafur Cymru o blaid y cynigion diwygiedig ac roedd y Blaid Geidwadol o blaid cynigion diwygiedig y Comisiwn hefyd. Roedd y Blaid Geidwadol yn siomedig i weld bod Dinas Powys wedi'i chynnwys mewn etholaeth arfaethedig 'De Caerdydd a Phenarth' o hyd, ond roedd yn derbyn y byddai cynnwys y ward yn etholaeth arfaethedig 'Bro Morgannwg' yn creu rhagor o broblemau o ran ffurfio etholaethau yng

Nghaerdydd a'r tu hwnt.

30.13 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau a gafwyd ac mae wedi penderfynu argymell yr etholaeth fel y'i cynigiwyd yn ei adroddiad cynigion diwygiedig. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y teimlad cryf y dylid cynnwys Dinas Powys yn yr etholaeth argymelledig; fodd bynnag, nid yw'r Comisiwn yn gallu argymell etholaeth Bro Morgannwg sy'n cynnwys ward etholiadol Dinas Powys oherwydd yr angen i greu etholaethau sy'n bodloni Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig ar draws y rhanbarth cyfan.

<u>Enw argymelledig yr etholaeth</u>

30.14 Yr enw a argymhellir ar gyfer yr etholaeth yw Vale of Glamorgan. Yr enw amgen swyddogol a argymhellir yw Bro Morgannwg.


30.15 Ni chafodd y Comisiwn unrhyw enwau amgen ar gyfer yr etholaeth arfaethedig.

30.16 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol drefniant gwahanol ar gyfer yr etholaethau yn yr ardal, felly gwnaethant gynnig enwau amgen.

30.17 Yn ystod cyfnod ymgynghori'r cynigion diwygiedig, ni chafodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau yn ymwneud ag enw'r etholaeth arfaethedig.

30.18 Mae'r Comisiwn o'r farn mai'r enw Vale of Glamorgan, a'r enw amgen swyddogol Bro Morgannwg, sy'n adlewyrchu orau yr ardal ddaearyddol y byddai'r etholaeth argymelledig hon yn ei chynrychioli. Byddai'r etholaeth argymelledig wedi'i lleoli'n gyfan gwbl yn ardal prif gyngor Bro Morgannwg.

# Bro Morgannwg



## 31. Wrexham (Wrecsam)

Argymhelliad

**31.1 Mae'r Comisiwn yn argymell bod etholaeth sirol yn cael ei chreu o'r:**

**1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Wrexham ar hyn o bryd):**

**Acton (2,177), Parc Borras (1,968), Brynyffynnon (2,477), Cartrefle (1,545), Erddig (1,444), Garden Village (1,656), Dwyrain a Gorllewin Gresffordd (2,337), Grosvenor (1,698), Dwyrain a De Gwersyllt (3,601), Gogledd Gwersyllt (1,995), Gorllewin Gwersyllt (2,263), Hermitage (1,544), Holt (2,479), Little Acton (1,843), Llai (3,513), Maesydre (1,420), Marford a Hoseley (1,824), Offa (1,428), Queensway (1,377), Rhosnesni (2,827), Yr Orsedd (2,643), Smithfield (1,376), Stansty (1,641), Whitegate (1,594) a Wynnstay (1,159); a'r**

**2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Clwyd South ar hyn o bryd):**

**Bronington (2,620), Brymbo (3,021), Bryn Cefn (1,543), Coed-poeth (3,482), Gwenfro (1,217), Marchwiel (1,830), Y Mwynglawdd (1,870), New Broughton (2,842) ac Owrtyn (2,710).**

**31.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 70,964 o etholwyr, sydd 3.3% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth.**

**31.3 Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw swyddogol Wrexham ar gyfer yr etholaeth hon a'r enw amgen swyddogol Wrecsam.**

Cefndir

31.4 Yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn, cynigiodd greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Wrexham ar hyn o bryd):

Acton (2,177), Parc Borras (1,968), Brynyffynnon (2,477), Cartrefle (1,545), Erddig (1,444), Garden Village (1,656), Dwyrain a Gorllewin Gresffordd (2,337), Grosvenor (1,698), Dwyrain a De Gwersyllt (3,601), Gogledd Gwersyllt (1,995), Gorllewin Gwersyllt (2,263), Hermitage (1,544), Holt (2,479), Little Acton (1,843), Llai (3,513), Maesydre (1,420), Marford a Hoseley (1,824), Offa (1,428), Queensway (1,377), Rhosnesni (2,827), yr Orsedd (2,643), Smithfield (1,376), Stansty (1,641), Whitegate (1,594) a Wynnstay (1,159); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Clwyd South ar hyn o bryd):

Bronington (2,620), Bryn Cefn (1,543), Coed-poeth (3,482), Esclusham (2,013), Gwenfro (1,217), Johnstown (2,461), Marchwiel (1,830), New Broughton (2,842), Owrtyn (2,710), Pant (1,528) a Phonciau (3,521).

31.5 Byddai'r etholaeth hon wedi cynnwys 75,596 o etholwyr, sydd 3% uwchlaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Wrexham. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd oedd Wrecsam.

31.6 Cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau, gan gynnwys gan Aelodau Seneddol Wrecsam a De Clwyd, a oedd yn datgan bod wardiau etholiadol Brymbo a'r Mwynglawdd yn rhannu cysylltiadau lleol a chymunedol â Wrecsam, yn hytrach nag etholaeth bresennol Alun a Glannau Dyfrdwy i'r gogledd. Roedd y cynrychiolaethau'n dadlau y dylai'r wardiau etholiadol hyn aros mewn etholaeth arfaethedig 'Wrecsam'. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn argymell cynnwys wardiau etholiadol Ponciau, Pant a Johnstown mewn etholaethau arfaethedig amgen, er bod llawer o gynrychiolaethau'n dadlau bod gan yr ardal hon gysylltiadau cryf â Wrecsam. Cafodd y Comisiwn

gynrychiolaethau hefyd a oedd yn datgan y dylai ardal prif gyngor Wrecsam i gyd gael ei chynnwys mewn un etholaeth.

31.7 Roedd cytundeb ymhlith y pleidiau gwleidyddol y dylid dychwelyd wardiau etholiadol Brymbo a'r Mwynglawdd i etholaeth arfaethedig Wrecsam. Cynigiodd y Blaid Geidwadol newidiadau i'r cynnig cychwynnol ac roedd yn teimlo y gellid cyflawni canlyniad dymunol trwy rannu ward etholiadol Ponciau. Byddai hyn yn cynnwys rhoi rhannau Rhosllannerchrugog a Phonciau y ward yn etholaeth arfaethedig 'Maldwyn a Glyndŵr', a rhoi rhan Esclusham yn etholaeth arfaethedig 'Wrecsam'. Roedd cefnogaeth i'r gwrthgynnig hwn ac roedd cynrychiolaethau'n datgan bod y rhaniad clir rhwng Rhosllannerchrugog ac Esclusham yn golygu bod hyn yn ffordd synhwyrol o rannu'r ardal. Roedd cynnig Plaid Cymru ar gyfer yr ardal hon yn cynnig trefniant gwahanol iawn i'r cynigion cychwynnol, gan ddychwelyd wardiau etholiadol Brymbo a'r Mwynglawdd i etholaeth arfaethedig 'Wrecsam'. Fodd bynnag, roedd hefyd yn trosglwyddo wardiau etholiadol Coed-llai a Chaergwrle i'w hetholaeth arfaethedig 'Wrecsam'. Byddai trosglwyddo ward Caergwrle yn rhannu Cymuned yr Hôb, gyda ward etholiadol Yr Hôb yn aros mewn etholaeth arfaethedig 'Alun a Glannau Dyfrdwy'. Mewn cyferbyniad â'r pleidiau gwleidyddol eraill a gynigiodd trefniadau amgen, ni chynigiodd y Democratiaid Rhyddfrydol rannu cymuned na ward etholiadol i ddychwelyd Brymbo a'r Mwynglawdd i etholaeth arfaethedig 'Wrecsam'. Roeddent yn cynnig trosglwyddo wardiau etholiadol Ponciau, Pant, Johnstown ac Esclusham i etholaeth arfaethedig 'Maldwyn a Glyndŵr'.

31.8 Aeth adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol i'r afael â'r pryderon yn ymwneud â Brymbo a'r Mwynglawdd trwy eu trosglwyddo i etholaeth arfaethedig 'Wrecsam'. Fodd bynnag, roedd y cynnig yn hollti Cymuned Gresffordd. Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol o'r farn bod gan Yr Orsedd, yn benodol, rywfaint o gysylltiad ag etholaeth bresennol Alun a Glannau Dyfrdwy. Roedd y Comisiynwyr Cynorthwyol yn cydnabod y byddai llawer o bobl o'r farn bod eu cynnig ar gyfer yr etholaeth yn llai na delfrydol, ond heb ddatgysylltu rhai wardiau etholiadol, roeddent o'r farn ei bod yn amhosibl bodloni'r amrediad etholiadol statudol heb ymledu'n helaeth i ardaloedd eraill, a oedd yn annymunol.

Cydnabu'r Comisiynwyr Cynorthwyol y cynrychiolaethau a oedd yn awgrymu cynnwys ardal y prif gyngor i gyd yn yr etholaeth hefyd. Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl ei chynnwys i gyd yn yr etholaeth gan y byddai hyn tua 10-15,000 o etholwyr yn fwy nag uchafswm statudol yr etholwyr, yn dibynnu ar ble caiff y ffiniau eu gosod.

31.9 Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, nid oedd y Comisiwn yn cytuno â'r cynrychiolaethau a oedd yn awgrymu rhannu ward etholiadol Ponciau. Felly, cynigiodd gynnwys ward etholiadol Ponciau i gyd mewn ward arfaethedig wahanol. Polisi'r Comisiwn yw creu etholaethau Seneddol sy'n cynnwys wardiau etholiadol ac ardaloedd cymunedol cyfan, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, oherwydd yr ystyrir bod y rhain wedi'u creu gan gydnabod cysylltiadau lleol. Roedd y Comisiwn yn cytuno â'r cynrychiolaethau a oedd yn datgan y dylid cynnwys wardiau etholiadol Brymbo a'r Mwynglawdd mewn etholaeth arfaethedig 'Wrecsam'.

31.10 Felly, cynigiodd y Comisiwn greu etholaeth sirol o'r:

1. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Wrexham ar hyn o bryd):
Acton (2,177), Parc Borras (1,968), Brynyffynnon (2,477), Cartrefle (1,545), Erddig (1,444), Garden Village (1,656), Dwyrain a Gorllewin Gresffordd (2,337), Grosvenor (1,698), Dwyrain a De Gwersyllt (3,601), Gogledd Gwersyllt (1,995), Gorllewin Gwersyllt (2,263), Hermitage (1,544), Holt (2,479), Little Acton (1,843), Llai (3,513), Maesydre (1,420), Marford a Hoseley (1,824), Offa (1,428), Queensway (1,377), Rhosnesni (2,827), Yr Orsedd (2,643), Smithfield (1,376), Stansty (1,641), Whitegate (1,594) a Wynnstay (1,159); a'r

2. Wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam (sy'n ffurfio rhan o etholaeth sirol bresennol Clwyd South ar hyn o bryd):

Bronington (2,620), Brymbo (3,021), Bryn Cefn (1,543), Coed-poeth (3,482), Gwenfro (1,217), Marchwiel (1,830), Y Mwynglawdd (1,870), New Broughton (2,842) ac Owrtyn (2,710).

31.11 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 70,964 o etholwyr, sydd 3.3% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a awgrymwyd ar gyfer yr etholaeth oedd Wrexham. Yr enw amgen swyddogol a awgrymwyd oedd Wrecsam.

31.12 Yn ystod cyfnod ymgynghori'r cynigion diwygiedig, cafodd y Comisiwn nifer sylweddol o gynrychiolaethau gan breswylwyr wardiau etholiadol Cefn, Gogledd y Waun, De y Waun, Pen-y-cae a De Rhiwabon, Plas Madoc, Rhiwabon, Pant a Johnstown, a oedd yn gwrthwynebu'n gryf y cynigion ar gyfer etholaethau arfaethedig 'Wrecsam' a 'Maldwyn a Glyndŵr'. Roedd y preswylwyr yn teimlo bod gan eu hardaloedd gysylltiadau cryf â Wrecsam ac nad oes ganddynt unrhyw gysylltiad na pherthynas â Gogledd Maldwyn. Cafodd y Comisiwn 1 gwrthgynnig gan aelod o'r cyhoedd yn cynnwys etholaeth ddiwygiedig 'Wrecsam', a oedd yn dychwelyd yr ardaloedd hyn o etholaeth arfaethedig 'Wrecsam'. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, symudodd y gwrthgynnig wardiau etholiadol Brymbo a'r Mwynglawdd i etholaeth arfaethedig 'Alun'.

31.13 Roedd y Blaid Geidwadol yn cefnogi'r cynigion diwygiedig yn yr ardal ac yn dadlau bod wardiau etholiadol Esclusham, Ponciau a Johnstown yn rhannu cysylltiadau da â Rhiwabon. Roedd Plaid Lafur Cymru yn cefnogi'r newidiadau yn y cynigion diwygiedig yn gyffredinol, ond cynigiodd fân newid i etholaeth arfaethedig 'Wrecsam', gan argymell trosglwyddo ward etholiadol Esclusham o etholaeth arfaethedig 'Maldwyn a Glyndŵr' i etholaeth arfaethedig 'Wrecsam'. Fodd bynnag, mae ward etholiadol Esclusham yn rhan o Gymuned Ponciau a byddai trosglwyddo'r ward hon yn rhannu'r gymuned rhwng 2 etholaeth.

31.14 Ystyriodd y Comisiwn yr holl gynrychiolaethau a gafwyd ac mae wedi penderfynu argymell yr etholaeth fel y'i cynigiwyd yn ei adroddiad cynigion diwygiedig. Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod rhywfaint o wrthwynebiad i'r cynnig diwygiedig; fodd bynnag, mae'r argymhelliad yn adlewyrchu'r sylwadau cefnogol a gafwyd yn ystod y camau ymgynghori cynharach, a oedd yn amlygu'r cysylltiadau lleol sy'n bodoli rhwng Brymbo a'r Mwynglawdd ac ardaloedd eraill yn Wrecsam. Polisi'r Comisiwn yw creu etholaethau Seneddol sy'n cynnwys wardiau etholiadol ac ardaloedd cymunedol cyfan, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, oherwydd yr ystyrir bod y rhain wedi'u creu gan gydnabod cysylltiadau lleol. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y cynrychiolaethau sy'n datgan y dylid cynnwys etholaeth bresennol Wrecsam i gyd mewn un etholaeth Seneddol; fodd bynnag, byddai hyn yn rhagori ar Gwota Etholiadol y Deyrnas Unedig.

Enw argymelledig yr etholaeth

31.15 Yr enw a argymhellir ar gyfer yr etholaeth yw Wrexham. Yr enw amgen swyddogol a argymhellir yw Wrecsam.


31.16 Cafodd y Comisiwn gydsyniad ar yr enw arfaethedig.

31.17 Argymhellodd y Comisiynwyr Cynorthwyol drefniant gwahanol ar gyfer yr etholaeth; fodd bynnag, roeddent yn argymell cadw'r enw fel y'i cynigiwyd.

31.18 Yn ystod cyfnod ymgynghori'r cynigion diwygiedig, ni chafodd y Comisiwn unrhyw gynrychiolaethau yn ymwneud ag enw'r etholaeth arfaethedig.

31.19 Mae'r Comisiwn o'r farn mai'r enw Wrexham, ynghyd â'r enw amgen swyddogol Wrecsam, sy'n adlewyrchu orau yr ardal ddaearyddol y byddai'r etholaeth argymelledig hon yn ei chynrychioli. Byddai'r etholaeth argymelledig wedi'i lleoli'n gyfan gwbl yn ardal prif gyngor Wrecsam.

# Wrecsam




## Ardal Ganolog Wrecsam

1. Acton (2,177)
2. Parc Borras (1,968)
3. Bryn Cefn (1,543)
4. Brynyffynnon (2,477)
5. Cartrefle (1,545)
6. Coedpoeth (3,482)
7. Erddig (1,444)
8. Garden Village (1,656)
9. Dwyrain a Gorllewin Gresffordd (2,337)
10. Grosvenor (1,698)
11. Gwenfro (1,217)
12. Dwyrain a De Gwersyllt (3,601)
13. Gogledd Gwersyllt (1,995)
14. Gorllewin Gwersyllt (2,263)
15. Hermitage (1,544)
16. Little Acton (1,843)
17. Maesydre (1,420)
18. Marford a Hoseley (1,824)
19. Brychdwn Newydd (2,842)
20. Offa (1,428)
21. Queensway (1,377)
22. Rhosesni (2,827)
23. Smithfield (1,376)
24. Stansty (1,641)
25. Whitegate (1,594)
26. Wynnstay (1,159)

(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2023] OS [100047875]

## 32. Ynys Môn


32.1 Mae Atodlen 2 y Ddeddf yn mynnu bod etholaeth unigol yn cael ei ffurfio o ardal Cyngor Sir Ynys Môn. Nid yw'r etholaeth hon yn ddarostyngedig i'r cwota etholwyr statudol.

Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig bod etholaeth sirol bresennol **Ynys Môn** yn cael ei chadw, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Ynys Môn:

Aethwy (5,175), Bro Aberffraw (3,023), Bro Rhosyr (3,919), Caergybi (5,504), Canolbarth Môn (6,537), Llifon (4,104), Lligwy (4,810), Seiriol (4,650), Talybolion (4,762), Twrcelyn (5,497) ac Ynys Gybi (4,434).

32.2 Byddai'r etholaeth hon yn cynnwys 52,415 o etholwyr, sydd 28.6% islaw Cwota Etholiadol y Deyrnas Unedig, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw statudol ar gyfer yr etholaeth yw Ynys Môn. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau yn ymwneud â'r enw a argymhellir; fodd bynnag, gan fod enw'r etholaeth wedi'i bennu yn y Ddeddf, nid yw'r Comisiwn wedi argymell enw amgen.

# Ynys Môn



0
5
Cilomedrau
Graddfa 1:200,700
Twrcelyn (5,497)
Talybolion (4,762)
Lligwy (4,810)
Ynys Gybi (4,434)
1
Canolbarth Môn (6,537)
ISLE OF ANGLESEY / SIR YNYS MÔN
Seiriol (4,650)
Llifon (4,104)
Aethwy (5,175)
Bro Rhosyr (3,919)
Bro Aberffraw (3,023)
1. Caergybi (5,504)
Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2023] OS [100047875]

Atodiad 1:

# Etholaethau Argymelledig

| Enw'r Etholaeth | Enw Amgen | Nifer yr etholwyr | Amrywiant oddi wrth Gwota Etholiadol y DU | Arwynebedd (km2) |
|---|---|---|---|---|
| Aberafan Maesteg | | 69,817 | -4.9% | 397 |
| Alyn and Deeside | Alun a Glannau Dyfrdwy | 75,695 | 3.1% | 205 |
| Bangor Aberconwy | | 70,468 | -4.0% | 1,435 |
| Blaenau Gwent and Rhymney | Blaenau Gwent a Rhymni | 71,079 | -3.2% | 166 |
| Brecon, Radnor and Cwm Tawe | Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe | 72,113 | -1.7% | 3,090 |
| Bridgend | Pen-y-bont | 70,770 | -3.6% | 124 |
| Caerfyrddin | Carmarthen | 72,683 | -1.0% | 2,034 |
| Caerphilly | Caerffili | 72,458 | -1.3% | 140 |
| Cardiff East | Dwyrain Caerdydd | 72,463 | -1.3% | 33 |
| Cardiff North | Gogledd Caerdydd | 71,143 | -3.1% | 49 |
| Cardiff South and Penarth | De Caerdydd a Phenarth | 72,269 | -1.5% | 60 |
| Cardiff West | Gorllewin Caerdydd | 73,947 | 0.8% | 63 |
| Ceredigion Preseli | | 74,063 | 0.9% | 2,458 |
| Clwyd East | Dwyrain Clwyd | 76,395 | 4.1% | 676 |
| Clwyd North | Gogledd Clwyd | 76,150 | 3.8% | 170 |
| Dwyfor Meirionnydd | | 72,533 | -1.2% | 2,613 |
| Gower | Gŵyr | 76,801 | 4.6% | 345 |
| Llanelli | | 69,895 | -4.8% | 397 |
| Merthyr Tydfil and Aberdare | Merthyr Tudful ac Aberdâr | 74,805 | 1.9% | 245 |
| Mid and South Pembrokeshire | Canol a De Sir Benfro | 76,820 | 4.7% | 985 |
| Monmouthshire | Sir Fynwy | 72,681 | -1.0% | 884 |
| Montgomeryshire and Glyndŵr | Maldwyn a Glyndŵr | 74,223 | 1.1% | 2,379 |
| Neath and Swansea East | Castell-nedd a Dwyrain Abertawe | 74,705 | 1.8% | 219 |
| Newport East | Dwyrain Casnewydd | 76,159 | 3.8% | 142 |
| Newport West and Islwyn | Gorllewin Casnewydd ac Islwyn | 76,234 | 3.9% | 154 |
| Pontypridd | | 73,743 | 0.5% | 141 |

| Enw'r Etholaeth | Enw Amgen | Nifer yr etholwyr | Amrywiant oddi wrth Gwota Etholiadol y DU | Arwynebedd (km2) |
|---|---|---|---|---|
| Rhondda and Ogmore | Rhondda ac Ogwr | 73,557 | 0.2% | 199 |
| Swansea West | Gorllewin Abertawe | 74,612 | 1.7% | 35 |
| Torfaen | | 70,591 | -3.8% | 126 |
| Vale of Glamorgan | Bro Morgannwg | 70,426 | -4.0% | 301 |
| Wrexham | Wrecsam | 70,964 | -3.3% | 292 |
| Ynys Môn | | 52,415 | -28.6% | 746 |

Atodiad 2:

# Mynegai o'r etholaethau presennol


| Etholaeth bresennol | Rhif y dudalen |
|---|---|
| Aberavon | 30, 190 |
| Aberconwy | 45 |
| Alyn and Deeside | 38 |
| Arfon | 45, 140 |
| Blaenau Gwent | 53 |
| Brecon and Radnorshire | 60 |
| Bridgend | 30, 68 |
| Caerphilly | 53, 82 |
| Cardiff Central | 89, 102 |
| Cardiff North | 95 |
| Cardiff South and Penarth | 89, 102 |
| Cardiff West | 110 |
| Carmarthen East and Dinefwr | 75, 155 |
| Carmarthen West and South Pembrokeshire | 75, 168 |
| Ceredigion | 116 |
| Clwyd South | 140, 182, 242 |
| Clwyd West | 45, 124, 133 |
| Cynon Valley | 161, 210 |
| Delyn | 38, 124 |
| Dwyfor Meirionnydd | 140 |
| Gower | 148, 190 |
| Islwyn | 53, 82, 203 |
| Llanelli | 155 |
| Merthyr Tydfil and Rhymney | 53, 161 |
| Monmouth | 176, 231 |
| Montgomeryshire | 182 |
| Neath | 30, 60, 190 |
| Newport East | 176, 198 |

| Etholaeth bresennol | Rhif y dudalen |
|---|---|
| Newport West | 198, 203 |
| Ogmore | 30, 68, 210, 217 |
| Pontypridd | 95, 110, 210, 216 |
| Preseli Pembrokeshire | 116, 168 |
| Rhondda | 217 |
| Swansea East | 190, 223 |
| Swansea West | 148, 223 |
| Torfaen | 231 |
| Vale of Clwyd | 124, 133 |
| Vale of Glamorgan | 102, 237 |
| Wrexham | 242 |
| Ynys Mon | 249 |

Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, e-byst a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.
Er mwyn cysylltu gyda'r Comisiwn, ysgrifennwch i:

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod, Ty Hastings, Llys Fitzalan
Caerdydd, CF24 0BL

Rhif Ffon: +44 (0)29 20464819
Rhif Ffon: +44 (0)29 21055521
E-bost: bcw@ffiniau.cymru

ISBN 978-1-5286-3902-6

E02859434

© Hawlfraint y Goron 2023